



# Cronfa Loteri Fawr

Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2017-18





CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

HC 1363
SG/2018/115

# Cronfa Loteri Fawr
# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

Wedi'i gyflwyno i Senedd y Deyrnas Unedig yn unol ag Adran 23(3) a pharagraff 21 Atodlen 4A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006).

Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion Yr Alban ar 11 Gorffennaf 2018.

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

I'w argraffu ar 11 Gorffennaf 2018 trwy orchymyn Tŷ'r Cyffredin.

HC 1363
SG/2018/115

© Hawlfraint y Goron 2018

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (mae hyn yn eithrio, pan fyddant yn bresennol, yr Arfau Brenhinol a'r holl logos adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Gronfa Loteri Fawr a nodi teitl y ddogfen. Pan fydd deunydd trydydd parti wedi'i adnabod, mae'n rhaid ceisio caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn Cronfa Loteri Fawr, 1 Plough Place, Llundain EC4A 1DE.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

ISBN 978-1-5286-0641-7

CCS0718989808 07/18

Argraffir ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffir yn y Deyrnas Unedig gan APS Group ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys

## Rhan 1: Edrych yn ôl dros y flwyddyn

**Cyflwyniad** . . . . . 8 – 9
Neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

**Ein blwyddyn mewn rhifau** . . . . . 10 – 11

**Ein blwyddyn ar gip** . . . . . 12 – 13

**Ein fframwaith strategol** . . . . . 14 – 15

**Ein chwe egwyddor** . . . . . 16 – 17

**Trosolwg o'n rhaglenni a phortffolios** . . . . . 18 – 39
Trosolwg o'n gwaith a rhannu storïau

## Rhan 2: Adroddiad atebolrwydd

**Ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol** . . . . . 42 – 78
Adroddiad y Cyfarwyddwyr; Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu; Datganiad Llywodraethu

**Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff** . . . . . 79 – 87
Cyfarwyddwyr gweithredol; staff

**Ein hadroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol** . . . . . 88 – 124
Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol; Datganiadau Ariannol

**Ein cefndir statudol** . . . . . 125 – 141

# Rhan 1: Edrych yn ôl dros y flwyddyn



# Neges gan y Cadeirydd



Fel rhan o deulu'r Loteri Genedlaethol, ein tasg ni yw sicrhau bod arian a godir diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn cael effaith gadarnhaol mewn cymunedau ledled y Deyrnas Unedig.

Eleni rydym wedi gweithio'n galed i wneud newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithredu fel y gall cymunedau gysylltu â ni a chyrchu ein grantiau yn y ffordd symlaf posib. Rydym hefyd wedi adeiladu perthynas sydd hyd yn oed yn gryfach gyda'n cyd-ddosbarthwyr Loteri Genedlaethol, er mwyn sicrhau dyfodol disglair ar gyfer y Loteri Genedlaethol.

Anelir y mwyafrif o'n gwaith at gefnogi Mudiadau gwirfoddol a chymunedol. Rydym yn cefnogi pobl i symbylu newid a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella bywyd a bywydau. Mae'n ymwneud â beth maen nhw ei eisiau; nid am beth mae pobl eraill yn meddwl bod nhw ei eisiau. Rydym yn freintiedig i gyffwrdd â bywydau miliynau o bobl.

O brosiectau cymunedol graddfa fach i bartneriaethau graddfa fawr gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y sector preifat ac arianwyr hael eraill, mae grantiau'r Loteri Genedlaethol yn cyrraedd yn bell. Mae ein rhaglenni strategol yn fuddsoddiadau hir dymor sydd â'r nod o ymdrin â phroblemau mawr sy'n wynebu ein cymdeithas. Mae'n ymwneud â phartneriaeth.

Rydym wedi bod yn cydweithio ag ystod o adrannau'r Llywodraeth i helpu rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant, mynd i'r afael ag unigrwydd mor gynnar â phosib, cefnogi datblygu ieuenctid a hyrwyddo cynhwysiad ariannol. Mae'r profiadau a mewnwelediadau a gynigir gan y mudiadau a gefnogwn yn helpu gwella dyluniad gwasanaethau cyhoeddus a chydweddu â gwariant cyhoeddus - ond byth yn ei ddisodli.

Rwy'n hoffi ymweld â'r prosiectau a ariannwn yn fawr ac mae'r YMCA yn Stoke-on-Trent yn enghraifft wych o'r gwahaniaeth parhaus y gall grantiau'r Loteri Genedlaethol ei wneud. Yn cefnogi pobl ifainc y mae eu bywydau wedi mynd ar gyfeiliorn, YMCA yw elusen ieuenctid hynaf a mwyaf y byd. Ond mae ei effaith yn lleol.

Yn Stoke, mae angerdd y Prif Weithredwr, Danny Flynn, yn amlwg ac mae ymroddiad a brwdfrydedd y staff a gwirfoddolwyr yn drawiadol. Roedd yn arbennig o ysbrydoliaethus i gwrdd â'r tîm sy'n delio â'r problemau anodd sy'n wynebu menywod ifainc, gan helpu nhw i oresgyn heriau a chredu ynddynt eu hunain a'u potensial eu hunain.

Mae wedi bod yn flwyddyn arall o newid ar gyfer llawer o bobl sy'n gweithio i'r Gronfa Loteri Fawr ar draws y Deyrnas Unedig. Llawer o ddiolch i'n Prif Weithredwr, Dawn Austwick, y bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli am eu gwaith caled parhaus. Diolchiadau arbennig i'r aelodau bwrdd a fydd yn gadael yn 2018-19. Trwy gydol eu hamser yn y Gronfa, maent wedi helpu sicrhau ein bod yn cyflwyno ein haddewid o fod yn gorff dyfarnu grantiau rhagorol. Mae'n ymwneud â'r bobl a'r cymunedau a ariannwn.



**Peter Ainsworth**



# Neges gan y Prif Weithredwr



Eleni rydym wedi cymryd camau mawr tuag at wireddu ein huchelgais i bobl a chymunedau fod wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi creu chwe both rhanbarthol yn Lloegr, gyda thimau ariannu wedi'u lleoli yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym wedi creu sianel ddigidol newydd ar gyfer Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol ac wedi datblygu dull newydd ar gyfer Reaching Communities, ein cynnyrch ariannu craidd ar gyfer elusennau yn Lloegr.

Mae ein grantiau bellach yn canolbwyntio'n fwy ar y defnyddiwr yn sgil mabwysiadu dull sgyrsiol a gellir gwneud ceisiadau ar ffurf sy'n gweddu orau i'r ymgeiswyr - fel fideo. Rydym hefyd yn lansio cynnyrch Partneriaethau newydd i annog cydweithio rhwng mudiadau i gyflawni effaith well - rhan allweddol o'n meddylfryd arweinyddiaeth hael.

Mae arweinyddiaeth hael yn un o bum maes y byddwn yn eu blaenoriaethu wrth gefnogi cymdeithas sifil i ffynnu; y lleill yw digidol, data, grymuso cymunedau, a gwydnwch sefydliadol. Rydym yn gobeithio y bydd y dull hwn yn helpu datblygu uchelgeisiau elusennau a mudiadau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig. Rydym yn croesawu gwaith cynnar llawn mewnweledIad Civil Society Futures a arweinir gan Julia Unwin, a datblygu strategaeth cymdeithas sifil gan y Swyddfa Cymdeithas Sifil. Rydym yn edrych ymlaen at wneud cyfraniad gweithredol pellach at y ddau.

Er i ni dalu grantiau allan gwerth hyd at £655m eleni, gostyngom werth y grantiau newydd a ymrwymom i £520m - gan gydnabod graddfa ein rhwymedigaethau presennol ynghyd â'r ansicrwydd dros refeniw gan y Loteri Genedlaethol ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'n bleser gennyf ddweud na chafwyd yr un gostyngiad mewn refeniw eleni a welwyd yn 2016-17. Rydym wedi cydweithio'n agos â'r teulu Loteri Genedlaethol cyfan i greu set o werthoedd brand ar y cyd y byddwn i gyd yn eu defnyddio i gyfleu hud y Loteri

Mae wedi bod yn fraint i gwrdd â rhai o'r deiliaid grant y mae ein grantiau wedi'u cefnogi. Ymwelodd ein Bwrdd â'r Kelpies godidog yn Falkirk gan glywed am sut mae'r creaduriaid mytholegol rhyfeddol hyn wedi trawsnewid yr ardal. Fel Uwch Dîm Rheoli cyfarfûm â Gary Inight o Le Public Space yng Nghasnewydd, gan glywed am ei rôl fel angor yn y gymuned. Roedd yn bleser gennyf siarad yn y gynhadledd CO3 yng Ngogledd Iwerddon ym mis Chwefror ac i gwrdd â phobl ifainc o Real Ideas Organisation (RIO) yn Liskeard.

Yn ogystal â gwneud grantiau, rydym hefyd wedi bod yn buddsoddi yn ein timau gwybodaeth a gwerthuso i rannu dysgu o'r bobl a chymunedau a ariannwn. Cymerais ran yn lansiad adroddiad Beyond Youth Custody Nacro, a ganolbwyntiodd ar ailsefydlu pobl ifainc yn effeithiol y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol. Ac arweiniodd y dysgu o'n rhaglen HeadStart at ein cynhadledd werthuso gyntaf ym mis Mawrth, lle anrhydeddwyd i groesawu Ei Mawrhydi Brenhinol Duges Caergrawnt.

Mae hyn oll wedi gofyn am lawer gan fy nghydweithwyr a hoffwn ddiolch i'r bobl anhygoel sy'n gweithio i'r Gronfa Loteri Fawr am eu cyfraniad at ein llwyddiant.



**Dawn Austwick**

# Ein blwyddyn mewn rhifau

Rydym wedi cyffwrdd â bywydau

**7.5m o bobl**



Dance for Parkinson's

mae hynny cyfwerth ag

**1 o bob 8 o bobl**

yn y Deyrnas Unedig

dyfarnwyd **11,037** o grantiau


ac roedd **90%** o'n **dyfarniadau i brosiectau cymunedol** am **£10k** neu lai



Passion 4 Fusion

Rydym wedi gwneud dyfarniadau gwerth cyfanswm o **£38m** ar ran arianwyr eraill

Arian a ddyfarnwyd yn 2017-18




**Dyfarnwyd £9b** a 200,000 o grantiau ers 2004

**Fesul gwlad**

- Lloegr £6.1b
- Yr Alban £1b
- Cymru £0.5b
- Gogledd Iwerddon £0.4b
- Deyrnas Unedig gyfan £1b

# Ein blwyddyn ar gip

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur yn y Gronfa Loteri Fawr a dyma rai enghreifftiau'n unig o'r 12 mis diwethaf o'r hyn y mae'r bobl a chymunedau a ariannwn wedi bod yn ei wneud.


The Big Lunch

**Y Cinio Mawr**

Y Cinio Mawr yw digwyddiad blynyddol y Deyrnas Unedig i gymdogion ddod ynghyd, syniad gan Brosiect Eden a wnaed y bosib gan Y Loteri Genedlaethol. Ac yntau wedi dod ynghyd gyda The Great Get Together eleni, fe greodd gyfleoedd i adeiladu cyfeillgarwch a chysylltiadau, sydd yn ei dro'n creu cymunedau cryfach a hapusach.

Cynhaliwyd dros
**96,000 o ddigwyddiadau**
fel rhan o'r
**Cinio Mawr**
a'r **Daith Fawr**


The Great Big Walk


Talent Match North East

**Talent Match**

Mae ein partneriaeth Talent Match wedi helpu dros 6,500 o bobl ifainc i sicrhau cyflogaeth. Mae'r rhaglen wedi helpu pobl ifainc trwy adeiladu eu hyder a rhoi hwb i sgiliau yn y gwaith.

**Unconference**

Cynhaliodd Yr Alban yr Unconference cyntaf erioed, digwyddiad a ddaeth â deiliaid grant o Gaeredin ac ardal Lothian ynghyd i rannu dysgu a thrafod syniadau ar gyfer y dyfodol.

Heb agenda wedi'i pharatoi ymlaen llaw penderfynwyd ar y pynciau trafod ar y dydd, gyda phobl yn cyd-drafod y cyfleoedd a heriau y maent yn eu hwynebu yn eu gwaith bob dydd.


Unconference



**Prosiectau'r Bobl**

Cyflwynir y fenter Prosiectau'r Bobl mewn partneriaeth â Camelot ac ITV. Yn dilyn cynnydd 32% yn 2016-17, cafwyd cynnydd 10% arall mewn pleidleisiau cyhoeddus yn 2017-18. Mae hyn yn golygu nid yn unig bod deiliaid grantiau bychain yn derbyn arian ychwanegol, ond eu bod yn codi proffil eu gwaith hefyd.


Enillwyr Prosiectau'r Bobl: Newry and Mourne Downs Syndrome Support Group


HeadStart conference

**HeadStart**

Mae HeadStart yn rhaglen pum mlynedd a sefydlwyd gan y Gronfa Loteri Fawr i ddarparu'r offer y mae eu hangen ar bobl ifainc 10-16 oed i oresgyn heriau bywyd ac atal salwch meddwl difrifol rhag datblygu.

Fel noddwr ein partner gwerthuso, Anna Freud National Centre for Children and Families, mynychodd Ei Mawrhydi Brenhinol Duges Caergrawnt y gynhadledd HeadStart ym mis Ionawr 2018.

**Magi Ann**

Dyfarnwyd grant i Fenter Iaith Sir Y Fflint a Wrecsam i greu fersiynau digidol o'r gyfres llyfrau plant hoff annwyl, Magi Ann.

Enillodd y prosiect, sy'n annog rhieni i ddarllen Cymraeg gyda'u plant, wobr y prosiect addysg gorau yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol.


Cerys Matthews, Gill Stephen a Magi Ann


Northern Ireland Youth Forum

**Empowering Young People**

Ym mis Gorffennaf, cynhaliom ymgyrch recriwtio aelodau newydd ar gyfer Pwyllgor Pobl Ifainc Gogledd Iwerddon fel rhan o'n rhaglen Empowering Young People. Trwy'r rhaglen, mae pobl ifainc yn ymwneud â phenderfyniadau am sut y defnyddir arian y Loteri Genedlaethol.

# Ein fframwaith strategol


Credwn y dylai pobl arwain ar wella'u bywydau ac adeiladu cymunedau cryfion a bywiog. Mae ein fframwaith strategol, Pobl yn Arwain, yn adlewyrchu'r uchelgais hwn a dyma ychydig o ffyrdd y mae ein grantiau wedi bod yn cefnogi pobl i wella'u cymunedau ar draws y Deyrnas Unedig.

## Lloegr

Yn Lloegr, rydym wedi bod yn siarad â deiliaid grant a phobl sy'n ymgeisio am ein grantiau i ddylunio a datblygu tri math o grantiau hyblyg. Y rhain yw Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, sy'n cynnig grantiau bychain hawdd mynd atynt y gall pobl ymgeisio amdanynt ar-lein, a'n grantiau Reaching Communities mwy a thymor hwy, a lansiwyd gennym ar ddechrau mis Ebrill 2018.



Manchester Cares


Paws for Progress

## Yr Alban

Yn Yr Alban, daeth â chronfa gweithredu cynnar newydd fudiadau sector gwirfoddol a chyhoeddus ynghyd i ailddylunio ac aildrefnu eu gwasanaethau. Bydd hyn yn rhoi llais i blant, pobl ifainc, teuluoedd a menywod yn y system cyfiawnder troseddol a fydd yn llunio cyflwyniad y gwasanaethau hyn, nawr ac yn y dyfodol.




Monkstown Boxing Club

## Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn gweithio'n fwy lleol gyda phobl, grwpiau, cynghorau, asiantaethau cefnogi ac eraill er mwyn i ni ddod i nabod ein cymunedau'n well.

Rydym wedi bod yn cysylltu deiliaid grant gyda phobl a mudiadau, gan weithio yn yr un lle, a dod â nhw ynghyd trwy ddigwyddiadau bwrdd crwn, digwyddiadau dathlu a chlinigau ariannu lle gallant rannu dysgu.

## Cymru

Yng Nghymru rydym wedi datblygu grantiau a dargedir gyda phobl sydd â phrofiad o'r problemau y mae'r grantiau'n anelu at eu taclo. Mae ein Rhaglen Wledig yn anelu at newidiadau cadarnhaol ym mywydau teuluoedd sy'n gweithio ond yn profi tlodi o hyd. Mae'r rhaglen yn ariannu grwpiau yn siroedd mwyaf gwledig Cymru, gan gefnogi nhw i ddefnyddio cryfderau cymunedau i ymdrin â thlodi gwledig.


Centre for Business and Social Action, Families Together

## Deyrnas Unedig

Mae'r Portffolio Deyrnas Unedig yn ariannu'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol. Gan gydweithio ag asiantaethau lleol, teuluoedd a phobl ifainc ar draws Cymru a Lloegr, y nod yw ailddylunio systemau amddiffyn plant lleol. Mae pobl ifainc yn agored i niwed mewn ystod o gyd-destunau y tu allan i'r aelwyd, megis mewn cymdogaethau ac ar-lein. Mae ymyraethau yn y mannau allanol hyn yn rhan hollbwysig o ddiogelu plant.

Meddai'r Prif Gymrawd Ymchwil, Carlene: **"Edrychwn ymlaen at sicrhau bod barn pobl ifainc a rhieni'n siapio cyfeiriad y gwaith hwn wrth i ni symud ymlaen."**

# Ein chwe egwyddor



Creative Youth Network

O fewn ein fframwaith strategol mae chwe egwyddor allweddol sy'n sail i'n gwaith ac yn disgrifio sut rydym cydweithio â phartneriaid ac yn gwneud penderfyniadau ariannu.

## 1. Hyder, nid rheolaeth

"Mae gweithio ochr yn ochr â'r Gronfa Loteri Fawr i strwythuro ac adeiladu'r bartneriaeth mewn ffordd sy'n addas i ni wedi bod yn hynod werthfawr. Gallwn bellach gynnig rhaglenni ychwanegol ar gyfer pobl ifainc a sicrhau eu bod wedi'u targedu."

Sandy, Prif Weithredwr,
Creative Youth Network

## 2. Prosesau syml, barn dda

"Mae'n wych y gallwch ddod i nabod eich Swyddog Ariannu. Mae cael rhywun y gallwch siarad â nhw'n helpu gyda llunio dull cyfannol."

Lydia, Rheolwr Grantiau (Cymru a Lloegr), Sefydliad Iechyd Meddwl



Silverline Memories



Show Racism the Red Card

## 3. Cryfderau pobl

"Mae'r grant a dderbyniom gan y Gronfa Loteri Fawr wedi galluogi pobl ifainc i deimlo'n fwy hyderus wrth gefnogi ei gilydd wrth ymdrin â bwlio hiliol ac mae athrawon yn teimlo'n fwy sicr."

Sunil, Rheolwr Ymgyrchoedd,
Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth





Burnfoot Community Futures

## 4. Catalydd i bobl eraill

"Mae'r grant a dderbyniwyd gan y Gronfa Loteri Fawr wedi trawsnewid adeilad a oedd yn arfer bod yn ddiffaith i foth cymunedol ffyniannus. Mae'r both wedi bod yn gatalydd dros wella gwasanaethau, gyda'r gymuned yn gyrru llawer o'r newidiadau hyn."

Jan, Rheolwr
Burnfoot Community Futures



Liverpool Community Spirit

## 5. Cyfeiriad a rennir, dulliau amrywiol

"Mae Taste of Life C.H.A.N.G.E (Cultural Heritage Awareness Nurturing Growth and Empowerment) yn darparu bwyd llawn maeth i oedolion ar gyrion cymdeithas ar gyfer y corff, y meddwl a'r ysbryd, gal alw ar draddodiadau ysbrydoliaethus cymunedau ffydd a diwylliannol Lerpwl."

Matthew, Rheolwr,
Liverpool Community Spirit

## 6. Defnyddio adnoddau'n dda

"Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'r mudiad o ran adeiladu gallu ac arbenigedd iechyd meddwl ymysg pobl ifainc."

Stephanie, Cyfarwyddwr Datblygu,
FSN My Time Now



FSN My Time Now

# Ein grantiau

Ni yw ariannwr gweithgareddau cymunedol mwyaf y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gefnogi pobl a chymunedau i ffynnu.

Dosberthir ein grantiau trwy bum portffolio - Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Phortffolio Deyrnas Unedig sy'n profi ac yn datblygu atebion i broblemau cymdeithasol hir dymor.

Rydym yn gwrando ac yn ymateb i'r bobl a ariannwn ac yn cefnogi nhw i adeiladu cymunedau cryfion ledled y Deyrnas Unedig.

Rydym eisiau helpu cymunedau i gymryd camau, gan annog nhw i gysylltu â'i gilydd a pharhau i gefnogi prosiectau a syniadau sydd â phobl wrth eu gwreiddiau.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn darparu trosolwg o'n blwyddyn mewn rhifau ac yn dweud mwy wrthych am yr hyn rydym yn ei ariannu trwy bob un o'n portffolios.



Wintercomfort

"Heb grantiau gan y Gronfa Loteri Fawr , ni fyddai modd i ni gynnal ein prosiect llwyddiannus yn y ffordd a wnawn."

James, Wintercomfort





# Deyrnas Unedig

## Ein dulliau gweithio

Rydym yn profi ac yn tyfu syniadau blaengar i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol hir dymor a gwella ansawdd bywyd ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Rydym yn cyflawni hyn trwy:

- dyfu syniadau gwych
- dod â phobl ynghyd
- ymchwilio i ddulliau newydd.

Gan gefnogi cymunedau i ddathlu a bod yn rhan o ddigwyddiadau Deyrnas Unedig gyfan fel Y Cinio Mawr a'r Daith Fawr, mae ein partneriaethau gyda Phrosiect Eden yng Nghernyw yn dod â chymdogion ynghyd ledled y Deyrnas Unedig.

Rydym yn gyrru datblygiad strategaeth y Gronfa ar gefnogi elusennau a mudiadau cymunedol i fanteisio ar gyfleoedd a chwrdd â'r heriau mawr mewn cymdeithas. Mae ein grantiau yn 2018-19 ar gael i gefnogi mudiadau i fod yn:

1. Fwy gwydn yn sefydliadol ac yn ariannol.
2. Hael fel arweinwyr a chymheiriaid.
3. Cynnwys pobl a chymunedau wrth wneud penderfyniadau.
4. Rhannu a defnyddio data'n fwy effeithiol.
5. Defnyddio technoleg ddigidol i gyflawni ein huchelgais.




Y Cinio Mawr

**Cynhaliwyd dros**
**96,000**
**o ddigwyddiadau fel rhan o'r Cinio Mawr a'r Daith Fawr**

### Ein grantiau

Eleni rydym wedi dyfarnu cyfanswm o £48.5 miliwn ac mae ein grantiau'n galluogi gwaith arloesol gan fudiadau megis Wayfindr, sy'n creu gwelywio sain cynhwysol a hygyrch.

Meddai Florence, Rheolwr Gyfarwyddwr Wayfindr: "Rydym yn grymuso'r rhai sydd â nam ar y golwg i dod o hyd i'w ffordd o gwmpas dan do gan ddefnyddio dim ond eu ffôn, gan alluogi nhw i lywio cludiant a mannau fel ysbytai'n fwy annibynnol. Mae hyn yn hyrwyddo hygyrchedd a chynhwysiad ehangach ar gyfer dwy filiwn o bobl yn y Deyrnas Unedig sydd â nam ar y golwg."

Rydym hefyd yn cefnogi Camerados a'u gwaith gyda chymunedau i greu dulliau arloesol o daclo unigedd ac unigrwydd cymdeithasol. Maent yn gwneud hyn trwy alluogi pobl i agor eu Hystafell Fyw Gyhoeddus eu hunain yn eu cymuned, math newydd o fan cyhoeddus lle gall pobl ddod ynghyd a chysylltu â'i gilydd.

Meddai Prif Weithredwr Camerados, Jenny Fox: "Dyma lefydd i bobl ymlacio a chysylltu â phobl eraill. Yn Worthing, mae'n gwt ar y traeth, yn Blackpool mae'n uned siop wag ac yng Ngogledd Iwerddon fe fydd lan y mynydd!"

Mae'r prosiect Fight for Peace yn defnyddio paffio a chrefft ymladd Brasiliaidd, wedi'u cyfuno ag addysg a datblygu personol i wireddu potensial pobl ifainc mewn cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan drosedd a thrais.

Bydd cefnogaeth gan y Gronfa Loteri Fawr yn galluogi Fight for Peace i adeiladu gallu mudiadau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig i atal trais ymysg pobl ifainc.

Sefydliad yw The Reader sy'n dod â phobl ynghyd i ddarllen llenyddiaeth yn uchel. Trwy ein grant, mae The Reader yn ehangu ei rhaglen ddarllen wedi'i harwain gan wirfoddolwyr ledled y Deyrnas Unedig. Bydd y rhaglen yn helpu pobl sydd â salwch meddwl a dementia i wella'u lles emosiynol trwy grwpiau darllen wythnosol.

Mae Contextual Safeguarding Network yn enghraifft o sut rydym yn tyfu syniadau gwych. Mae'r rhwydwaith diogelu hwn yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol, teuluoedd a phobl ifainc ar draws Cymru a Lloegr i ailddylunio amddiffyn plant.

Ym mis Hydref 2017 lansiodd ein portffolio raglen ryngwladol newydd, Cronfa Anabledd Dwyrain Affrica, i gefnogi bywoliaethau pobl anabl yn Uganda a Thanzania.

Wrth edrych at y dyfodol, byddwn yn gweld ein hariannu'n cefnogi 10 Years' Time, prosiect sydd â'r nod o gynyddu nifer y bobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol sy'n ymwneud ag ariannu. Y nod yw helpu arianwyr i gyflogi staff sydd â chysylltiadau dyfnach â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

### Gweithio mewn partneriaeth

Mewn partneriaeth â Comic Relief a King's Fund, rydym yn ariannu'r rhaglen Cascading Leadership, sy'n galluogi arweinwyr elusennol i helpu ei gilydd trwy rannu arbenigedd a datblygu sgiliau. Mae'r rhaglen yn cefnogi arweinwyr i ddysgu gan ei gilydd ac adeiladu capasiti'r sector o'r tu fewn iddo.

# Deyrnas Unedig



## Manchester Cares

Gyda'r nod o leihau unigedd a chynyddu gwydnwch, mae Manchester Cares yn creu cyfleoedd i ddod â phobl hŷn a phobl ifainc ynghyd.

Gan gynnal ystod o weithgareddau gan gynnwys clybiau cymdeithasol a chwisiau rheolaidd, mae dull rhyng-genhedlaeth Manchester Cares o daclo unigrwydd yn y ddinas yn profi'n boblogaidd. Gyda chyd-elusennau eisoes yn weithredol yng Ngogledd a De Llundain, mae Liverpool Cares am agor yn 2018.



Meddai'r Cyfarwyddwr Datblygu: **"Oherwydd y Gronfa Loteri Fawr, mae cannoedd o gymdogion hŷn y byddent fel arall yn unig yn ardaloedd Ancoats ac Ardwick ym Manceinion a'r tu hwnt yn gallu mwynhau rhannu cyfeillgarwch gyda'u cymdogion iau."**



## Battersea Arts Centre

Trwy grant gan y Gronfa Loteri Fawr, mae Battersea Arts Centre yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid cymdeithasol.

Trwy broses gwneud cynnig, dyfernir £2,000 i dri o bobl ifainc i helpu gwireddu eu breuddwydion busnes cymdeithasol. Meddai Catherine, Cynhyrchydd dros The Agency: **"Yr hyn sy'n gwneud hwn yn wirioneddol arbennig yw ei fod yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r graddedigion yn dod yn ôl atom a gallwn barhau i gefnogi eu busnesau."**



## Silverline Memories

Mae Silverline Memories, a leolir yn Newcastle a Gateshead, yn darparu gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer pobl sydd â dementia. Gyda grant gan Brosiectau'r Bobl, prynodd y mudiad fws mini i gludo ei aelodau i ddigwyddiadau.

Meddai'r Prif Swyddog Gweithredol, Sandra: **"Rydym wedi llwyddo i gyrraedd llawer mwy o bobl, ond y gwir fantais yw y gall pobl gael mwy o ddiwrnodau allan."**



## Food for Life Better Care

Mae'r rhaglen Food for Life Better Care yn brosiect blaengar a arweinir gan Gymdeithas y Pridd. Gan weithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol, darparwyr GIG a mudiadau gwirfoddoli, daw'r prosiect â phobl hŷn ynghyd trwy fwyd, lleihau unigrwydd a gwella maeth a lles.

Meddai Jo, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi, Food for Life: **"Mae'r rhaglen gyffrous hon yn cynrychioli cyfle pwysig i ddangos bod bwyd da'n fuddsoddiad gwerth chweil ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol y Deyrnas Unedig, sy'n wynebu sawl her. Mae'n chwarae rôl hanfodol o ran maeth ac o ran taclo unigrwydd ymysg pobl hŷn."**





## Drink Wise, Age Well

Mae'r fenter Drink Wise Age Well yn gweithio mewn pum ardal ar draws y Deyrnas Unedig i daclo'r nifer o yfwyr risg uchel dros 50 oed, gan ddarparu cefnogaeth wedi'i theilwra a gweithgareddau cymunedol.

Yn Glasgow, mae Drink Wise yn cynnal sesiynau Partneriaeth Cyd-gymorth ar gyfer cyfranogwyr. Meddai Pauline, sy'n rhedeg rhai o'r sesiynau hyn: **"Mae gwirfoddoli gyda Drink Wise Age Well wedi rhoi ymdeimlad newydd o ddiben i mi. A finnau'n ymddeol yn gynnar ar ôl 34 mlynedd datblygais berthynas afiach iawn gydag alcohol, ond wrth ddod o hyd i Drink Wise cefais gyfle i roi'n ôl i'r gymuned, a oedd yn dda ar gyfer fy iechyd."**

# Lloegr



## Ein dulliau gweithio

Eleni rydym wedi bod yn sicrhau bod pobl yn arwain ar newidiadau yn eu cymunedau fel y gallant llwyddo a ffynnu. Rydym wedi bod yn newid ein ffordd o weithio ac rydym bellach wedi'n lleoliad mewn cymunedau ar draws Lloegr, gyda staff yn gweithio allanol o chwe both rhanbarthol, gan helpu ni i adeiladu perthnasoedd yn lleol a rhoi'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i gymunedau.

### Ein grantiau

Ein blaenoriaethau ariannu yw:

- dod â phobl ynghyd
- gwella'r lleoedd sydd o bwys i bobl
- cymryd camau gweithredu mor gynnar â phosib.

Rydym wedi dyfarnu £353.2 miliwn dros y flwyddyn ddiwethaf, i 8,485 o brosiectau yn Lloegr sy'n cefnogi'r blaenoriaethau hyn.

O adnewyddu'r ystafell synhwyraidd mewn canolfan plant yn Horsham, i ddathlu pen-blwydd gŵyl flynyddol Jarrow yn 30 oed, trwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, fe ariannom werth £69.9 miliwn o grantiau o £10,000 a llai i 7,883 o gymunedau. Mae'r grantiau hyn yn cynnig mynediad i symiau bach o arian, gan gefnogi'r hyn sydd o bwys i gymunedau a'u helpu i ddathlu beth sy'n wych amdanynt.

Plymouth Music Zone

Ariannodd Reaching Communities ystod eang o brosiectau hefyd. Lledaenwyd cyfanswm o £166.5 ledled y wlad i brosiectau fel Leeds Older People's Forum, a dderbyniodd £19,737 i gysylltu a datblygu grwpiau LHDT+ yn y ddinas. Derbyniodd Every One Every Day yn Barking £1 miliwn fel y gall pobl fwynhau amser gyda'u cymdogion.

Derbyniodd Hullabaloo Community Quire £10,000 i drefnu gŵyl côr stryd i ddod â'u cymuned leol ynghyd a bydd Cyngor Plwyf St Giles yn defnyddio £25,000 i drawsnewid neuadd eglwys fawr i foth cymunedol croesawgar a hygyrch.

O wrando ar yr hyn y mae cymunedau ei eisiau ac fel y gallwn gefnogi nhw'n well, rydym wedi newid a gwella ein grantiau presennol. Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol bellach yn symlach ei chyrchu, mae Reaching Communities yn cynnig ariannu craidd tymor hwy i fudiadau, ac mae ein cynnig ariannu newydd, Partnerships, yn anelu at fod yn gatalydd ar gyfer gwaith cyffrous ar y cyd.




FSN My Time Now

**dyfarnwyd £353.2m trwy 8,485 o brosiectau**

### Rhaglenni strategol

Rydym yn ariannu pum rhaglen strategol hir dymor a sefydlwyd gan y Gronfa Loteri Fawr. Wedi'u dylunio gyda phartneriaid lleol yn Lloegr, maent yn profi ac yn dysgu o ddulliau newydd o ddylunio gwasanaethau cyhoeddus, gan anelu at wneud bywydau pobl yn fwy iach a hapus.

- Mae **A Better Start** yn cefnogi plant ifainc a'u teuluoedd i gael dechrau gorau mewn bywyd.
- Mae **HeadStart** yn ceisio gwella iechyd meddwl a lles pobl ifainc.
- Mae **Talent Match** yn helpu pobl ifainc trwy gyfarparu nhw gyda sgiliau i wella'u cyflogadwyedd.
- Mae **Fulfilling Lives** yn cefnogi pobl sydd ag ystod o anghenion cymhleth y maent yn aml yn derbyn cymorth gan un neu fwy o wasanaethau cyhoeddus neu gymdeithasol, gan alluogi nhw i gael cymorth gwell sydd wedi'i deilwra'n well i'w hanghenion.
- Mae **Ageing Better** yn anelu at wella ansawdd bywydau pobl hŷn.

Mae ein partneriaeth Talent Match wedi helpu dros 6,500 o bobl ifainc i sicrhau cyflogaeth. Mae'r rhaglen, sy'n dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn hon, wedi adeiladu hyder pobl ifainc a gwella'u sgiliau gwaith.

### Gweithio mewn partneriaeth

Trwy gydweithio ag arianwyr eraill a'r llywodraeth, gallwn ddarparu mwy o arian i achosion da. Er enghraifft, eleni mae'r Gronfa #iwill wedi derbyn £24 miliwn ychwanegol gan ystod o bartneriaid i gefnogi pobl ifainc. Mae ein rhaglen Building Better Opportunities, wedi darparu arian cyfatebol gyda'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, wedi dosbarthu dros £100 miliwn i brosiectau i gefnogi'r rhai sydd fwyaf pell o'r farchnad swyddi.

# Lloegr



## Girls' Network

Gan ddefnyddio mentora i ddarparu cyfleoedd i ferched o gefndiroedd difreintiedig deimlo eu bod wedi'u cefnogi a'u grymuso, mae Girls Network yn darparu gwasanaethau ar draws y Deyrnas Unedig gyda chefnogaeth gan y Gronfa Loteri Fawr.

Parir merched rhwng 14 and 19 oed gyda mentoriaid proffesiynol, y maent yn cwrdd â nhw'n rheolaidd i gael cymorth ar ddewisiadau academaidd a gyrfaol.



Disgrifiodd un mentorai yr effaith y mae Girls Network wedi'i chael arni: **"Y peth pwysicaf yr wyf wedi'i ddysgu yw ni waeth beth yw eich cefndir, gallwch lwyddo mewn bywyd a dylech bob amser ddilyn eich breuddwyd."**




## KVIN

Trwy eu model cefnogi cymheiriaid, mae Kirklees Visual Impairment Network (KVIN) wedi bod yn helpu pobl sydd â nam ar y golwg i ddefnyddio technolegau cynorthwyol ers 2008.

Meddai'r Cydlynydd Datblygu, Pauline: **"Mae golwg pob person yn wahanol ac felly eu hangen am ddefnyddio technoleg. Mae cyfranogwyr yn teimlo ein bod yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar ac y gallant deimlo'n gyfforddus."**

Trwy grant gan y Gronfa Loteri Fawr, mae KVIN wedi ehangu eu gwasanaethau yn Huddersfield i Dewsbury.



## FSN My Time Now

Gan gefnogi pobl ifainc rhwng 11 a 18 oed sy'n profi anhawster oherwydd pwysau bywyd bob dydd, o arholiadau i fwlio a phroblemau gyda pherthnasoedd, mae'r prosiect My Time Now yn galluogi pobl ifainc i ddod ynghyd a siarad am eu teimladau mewn gweithgareddau grŵp.

Meddai'r Cyfarwyddwr Datblygu, Stephanie: **"Mae'r grant wedi galluogi'r prosiect i gyrraedd mwy o bobl ifainc yn ardal Hastings a dyna'r peth gorau."**



## New Routes

Gan ddefnyddio marchogaeth a hyfforddiant gofal ceffyl fel llwybr amgen i addysg, mae New Routes wedi bod yn cefnogi plant trwy grant gan y Gronfa Loteri Fawr.

Meddai Arweinydd y Prosiect, Camila: **"Mae'r cwrs yn darparu cyfle i bobl ifainc ymdrin â heriau y maent wedi bod yn eu hwynebu yn eu bywydau addysg a phersonol mewn ffordd anfygythiol.**

**"Mae grant y Loteri Genedlaethol wedi galluogi ni i gynnig sesiynau marchogaeth, cyflogi gweithiwr cefnogi a sicrhau bod gan y plant y cyfarpar iawn."**







Meddai Rob: **"Mae gennym bobl o'r fforwm yn mynd i lawer o sesiynau cerddoriaeth a chywain adborth ar sut y gallwn addasu a gwella."**

## Plymouth Music Zone (PMZ)

Mae rhaglen Changing Tunes PMZ, a gefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr, yn cynyddu rhyngweithio rhwng cenedlaethau gwahanol trwy ei sesiynau cerddoriaeth.

Meddai'r Cydlynydd Rhwng y Cenedlaethau, Rob: **"Mae gennym fyfyrwyr prifysgol yn cymysgu gyda phobl yn eu 80au."**

Mae un o nodweddion Changing Tunes, y Fforwm Pobl Hŷn, wedi galluogi PMZ i ymwreiddio cyfranogiad y rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, gyda'r cyfranogwyr yn llywio beth sy'n digwydd yn y sesiynau.

# Yr Alban



## Ein dulliau gweithio

Dros y 12 mis diwethaf mae ein grantiau a'n dull o weithio wedi canolbwyntio ar brofiad byw a phobl yn arwain ar wella'u bywydau ac adeiladu cymunedau cryfion a bywiog.

At ei gilydd eleni, dyfarnwyd £59.0 miliwn yn Yr Alban ac roedd mwy na 93% o'n dyfarniadau i sector gwirfoddol a chymunedol Yr Alban.

Taflom sbotolau ar weithredu cynnar a dulliau ataliol, gan dreulio mwy o amser yn gwrando ar bobl leol, gweithio ar y cyd fel ariannwr a rhannu ein gwybodaeth a dysgu.

Glasgow Gladiators Powerchair FC



### Ein grantiau

Mae ein cefnogaeth gweithredu cynnar wedi gweld dros £5.9 miliwn yn cael ei rannu ar draws wyth partneriaeth, gan ddod â mudiadau sector gwirfoddol a chyhoeddus sy'n ceisio ailddylunio ac aildrefnu eu gwasanaethau ynghyd. Ym mhob achos, mae'r rhai sydd â phrofiad personol o fater a'r bobl a fydd yn elwa o'r grant wrth wraidd ailddylunio gwasanaethau.

Mae ein grantiau Loteri Genedlaethol yn cefnogi pobl ar draws Yr Alban ac rydym wedi gwneud grantiau ym mhob un o 32 awdurdod lleol Yr Alban.

Dyfarnom dros £7 miliwn i 891 o grwpiau trwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol. Mae'r grantiau hyn sy'n llai na £10,000 yn cefnogi gweithgareddau o bêl bŵer cadair olwyn a gweithdai ysgrifennu creadigol a pherfformio ar gyfer pobl ddigartref i grwpiau cymunedol sy'n dod â phobl ynghyd i gyfnewid gwybodaeth a sgiliau.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi gweld ein nifer o ddyfarniadau dros £10,000 yn tyfu, gan gydweithio â 196 o fudiadau. Gyda maint grant cyfartalog o £202,229, dechreuodd pob dyfarniad fel sgwrs gydag un o'n tîm.

2018 yw Blwyddyn Pobl Ifainc Yr Alban ac rydym yn falch o fod yn rhan o gynllun ariannu £550,000 unigryw. Wedi'i agor ym mis Mawrth 2018 ac yn ymrwymo arian o ddosbarthwyr Loteri Genedlaethol lluosog, rydym yn cefnogi prosiectau sydd â phobl ifainc wrth eu gwraidd. Mae hyn yn adeiladu ar ein profiad a gafwyd trwy gyflwyno ein grantiau Young Start, sy'n defnyddio arian y cynllun cyfrifon banc segur i gefnogi prosiectau i helpu pobl ifainc i gyflawni eu potensial llawn.

### Gweithio mewn partneriaeth

Mae grymuso cymunedau, rhai mawr a rhai bach, i fanteisio i'r eithaf ar eu hasedau lleol, yn allweddol i'n partneriaeth â Highlands and Islands Enterprise. Rydym yn cyflwyno Scottish Land Fund a ariennir gan Lywodraeth Yr Alban, gan gefnogi grwpiau i brynu tir neu asedau i wella'u cymuned. Mae'r £10.9 miliwn a ddyfarnwyd trwy'r rhaglen hon yn gweddu i'r £9.4 miliwn a ddyfarnwyd gan ein ffrwd ariannu Community Assets a ariennir gan y Loteri Genedlaethol a rhwng y ddau erbyn hyn, mae gan 101 o gymunedau reolaeth well dros eu datblygiad eu hunain yn y dyfodol.



**Dyfarnwyd grantiau ym mhob awdurdod lleol**

Stranraer Water Sports Association



# Yr Alban



## Shettleston Community Growing Project

Mae Shettleston Community Growing Project wedi trawsnewid gofod segur a diffaith yng nghalon pen dwyreiniol Glasgow i randir cymunedol poblogaidd.

Yn ogystal â darparu cyfle i dyfu eu bwyd eu hunain, mae trigolion lleol yn dod ynghyd gyda grwpiau cymunedol i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau iechyd a lles.

Meddai'r gwirfoddolwr a thrigolyn lleol, Suzanne: **"Mae'n fy ngwneud yn hapus i fod yn y rhandir. Rydym yn yr awyr agored, yn dysgu sut i dyfu ac edrych ar ôl ein ffrwythau a llysiau ein hunain. Mae dod yma wedi cynyddu fy hyder ac rwyf wedi gwneud llawer o ffrindiau gwych."**



## The Welcoming Association

Mae'r mudiad yn cefnogi mudwyr a ffoaduriaid i adeiladu bywydau newydd yng Nghaeredin trwy ddatgloi'r sgiliau a doniau y dônt â nhw at eu cymunedau newydd.

Mae creu cyfleoedd i bobl leol a newydd-ddyfodiaid ddod ynghyd trwy eu cynllun ymgyfeillio'n golygu y gallant ddysgu, rhannu profiadau a dathlu amrywiaeth.

Meddai Erika o Mexico: **"Parodd dechrau bywyd newydd i mi deimlo'n bryderus ac mae dod yma wedi chwalu fy ngofidion. Rwyf wedi cwrdd â fy ffrindiau ac mae'n rhywle lle mae pobl yn ceisio gwella'u sgiliau Saesneg i gael cyfleoedd gwell."**



## Cowal Elderly Befrienders

Ni allai Beth, 89 oed, adael ei chartref am bron dwy flynedd ar ôl i'w gŵr, Al, farw. Erbyn hyn, trwy Cowal Elderly Befrienders, mae Beth allan bob wythnos yn cwrdd â ffrindiau newydd a mwynhau gweithgareddau cymdeithasol. Nod y grŵp yw gwella ansawdd bywyd, lleihau unigrwydd a chadw pobl hŷn yn annibynnol.

Meddai Beth:: **"Doeddwn i ddim eisiau byw pan fu farw Al. Roeddwn mor unig ac nid oedd gennyf unrhyw gyfeillion. Wedyn cwrddais â'r ymgyfeillwyr, criw hynod hyfryd o bobl. Rwy'n mwynhau mynd allan yn fawr. Os wyf yn teimlo ychydig yn isel, maent bob amser yno i roi hwb i mi."**



## Stranraer Water Sports Association

Gan ddefnyddio ased naturiol Loch Ryan, mae Stranraer Water Sports Association yn dod â phobl ynghyd. Defnyddiodd y grŵp ei grant gan y Gronfa Loteri Fawr i ddysgu pobl am grefft adeiladu badau, gyda gwirfoddolwyr sy'n brofiadol mewn meysydd fel gwaith saer ac asiedydd yn rhannu eu sgiliau.

Meddai Daniel: **"Es i Skiff Project gan nad oeddwn wedi gweithio o'r blaen ac roeddwn yn chwilio am brofiad... ac fe ges i fe! Rhoddwyd gwaith go iawn i mi wneud a dysgais lawer o bethau gwahanol am adeiladu badau a pheirianwaith. Rhoddodd y prosiect fi drwy gwrs hyfforddiant bad pŵer, a oedd yn wych."**







## Burnfoot Community Futures

Diolch i grant gan y Loteri Genedlaethol, roedd Burnfoot Community Futures yn gallu prynu hen dafarn adfeiliedig a'i thrawsnewid i foth cymunedol, gan gynnwys caffi, ardal chwarae meddal, gardd, siop trin gwallt ac Meddai Shirley, sy'n defnyddio'r ganolfan gymunedol: **"Mae Bingo ymlaen yn y both yr unig nodon yn yr wythnos yr wyf yn mynd allan o'r tŷ. Rwyf wedi cwrdd â llawer o bobl syfrdanol ac wedi mynd yn gyfeillion hir dymor gyda rhai ohonynt."**

# Cymru



## Ein dulliau gweithio

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dosbarthu £28.4 miliwn i ariannu 662 o brosiectau sy'n canolbwyntio ar bobl a'r cryfderau y maen nhw'n eu defnyddio er budd cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Mae ein rôl fel arweinydd cymunedol blaenllaw Cymru'n golygu ei fod yn bwysig i ni wrando ac yn ymateb i'r hyn sydd fwyaf pwysig i'r cymunedau a gefnogwn. Mae ein grantiau trwy Pawb a'i Le ac Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn galluogi ni i wneud hynny'n union, ac ar yr un pryd mae ein rhaglenni thematig yn galluogi ni i dargedu ein harian fel y gall wneud y gwahaniaeth mwyaf posib.



Cylch Meithrin



Dance for Parkinson's

**ariannwyd 662 o brosiectau**

### Ein grantiau

Trwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, rydym wedi dyfarnu grantiau bychain i grwpiau fel Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, a dderbyniodd £5,700 i addysgu a chefnogi cymunedau i fynd i'r afael â hiliaeth. Defnyddiodd Iris Prize Outreach Limited grant mawr o £247,462 i adeiladu dealltwriaeth a hyrwyddo cydlyniant cymunedol mewn cymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryw ledled Cymru trwy weithdai gwneud ffilmiau a gwyliau ffilm bach.

Mae ein grantiau a dargedir wedi cynnwys lansio Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio – rhaglen pedair blynedd sy'n dyfarnu cyfanswm o £6 miliwn ar ffurf grantiau rhwng £10,000 a £500,000. Nod y rhaglen yw creu newidiadau cadarnhaol ym  mywydau teuluoedd sy'n gweithio ac fe'i datblygwyd trwy wrando ar leisiau'r rhai sydd â phrofiad byw. Dyfarnom £4 miliwn i grwpiau yn siroedd mwyaf gwledig Cymru, gan gefnogi nhw i ddefnyddio dull seiliedig ar gryfderau o ymdrin â thlodi gwledig. Aeth dros £3 miliwn i fudiadau gwirfoddol a chymunedol i'w helpu cyfarparu eu hunain yn well i gynllunio at y dyfodol, gan gynnwys dyfarniad o £468,000 i Mantell Gwynedd o dan y rhaglen Sgiliau Trydydd Sector, er mwyn iddynt gydweithio â Chynghorau Gwirfoddol Sirol yng ngogledd Cymru i ddangos eu gwerth cymdeithasol.


Rydym wedi parhau i roi syrpreis i brosiectau gyda newyddion am eu grantiau llwyddiannus. Yr hyn a oedd yn fwyaf nodedig oedd ymatebion anhygoel y pum prosiect y dyfarnwyd £1 miliwn yr un iddynt trwy ein rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Defnyddiodd un o'r prosiectau, Age Concern Morgannwg Limited, y grant i greu canolfan gymunedol amlbwrpas yn Rhondda Cynon Taf, a thrawsnewidiodd Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Going Green for Living ym Mhowys 130 erw o dir agored i safle amlbwrpas ar gyfer y gymuned.

### Gweithio mewn partneriaeth

Mae ein rôl fel catalydd wedi ein gweld yn rhannu gwybodaeth o'n rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol gyda rhai sy'n dylanwadu ac yn gwneud penderfyniadau allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Darparodd y rhaglen Lleisiau Lleol £12 miliwn i helpu dinasyddion i gael mwy o ddylanwad dros bolisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymunedau. Daeth y rhaglen i ben gyda digwyddiad a ddaeth â deiliaid grant ynghyd i rannu eu canfyddiadau gyda dylanwadwyr lleol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i fod yn fwy hygyrch a chysylltiedig â'r bobl a chymunedau a wasanaethwn a thrwy wneud hyn, deall eu cryfderau ac anghenion yn well. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cysylltu pobl a mudiadau er mwyn mwyafu effaith ein grantiau Loteri Genedlaethol.

# Cymru



## Bike to the Future

Mae Bike to the Future yn Y Drenewydd wedi bod yn rhedeg cyfres o gymorthfeydd trwsio beicio wythnosol am ddim, trwy grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Gall unrhyw un alw heibio'r prosiect, a leolir mewn parc lleol er mwyn i'w beiciau gael eu trwsio ac i gael hyfforddiant ar sut i ofalu am eu beiciau.

Meddai Tom, o Bike to the Future: **"Y syniad yw hyrwyddo beicio a chefnogi pobl i ennill hyder wrth drwsio a mynd ar eu beiciau. Rydym i gyd yn darparu'r gefnogaeth a gallant weld ei fod i gyd yn eithaf hawdd."**






## Grange Pavilion

Derbyniodd Prifysgol Caerdydd grant i adnewyddu ac estyn yr hen Bafiliwn Grange yn Grangetown, un o faestrefi Caerdydd. Creodd y brifysgol adeilad a chaffi cymunedol amlddiben gyda gofod cymunedol hygyrch.

Meddai Lynne, Rheolwr Prosiect gyda Community Gateway, un o brosiectau ennyn diddordeb nodedig Prifysgol Caerdydd: **"Caiff y grant ei ddefnyddio i ddatblygu Pafiliwn Grange ymhellach i leoliad ansawdd uchel deinamig, gan sicrhau ei ddyfodol er budd hir dymor pobl Grangetown."**

## toogoodtowaste

Derbyniodd toogoodtowaste yn Rhondda Cynon Taf grant gan y Gronfa Loteri Fawr i greu cyfleuster ailddefnyddio ac ailgylchu yn Nhreorci. Gan ddarparu cyfleoedd dysgu, hyfforddi a gwirfoddoli, bydd yr adeilad yn cynnwys gofodau cymunedol, gweithdy ac ystafell arddangos ar gyfer eitemau ail-law fforddiadwy.

Meddai Peter, a wirfoddolodd gyda toogoodtowaste ar ôl symud i'r ardal: **"Rwyf wedi cael amser gwych, mae'r tîm yn gyfeillgar ac rwyf wedi cryfhau fy sgiliau, a helpodd fi i ddod o hyd i swydd â thâl."**



## Y Bartneriaeth Awyr Agored

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn gweithio gyda chymunedau yng Ngogledd Cymru i hyrwyddo manteision y dirwedd ar eu carreg drws, fel Parc Cenedlaethol Eryri. Trwy grant gan y Gronfa Loteri Fawr, mae'r bartneriaeth wedi sefydlu rhwydwaith newydd o glybiau awyr agored, gan gaffael cyfarpar a hyfforddi gwirfoddolwyr.

Meddai Carren, un o'r cyfranogwyr: **"Mae Owain, sy'n arwain fy ngrŵp dringo, bob amser yn rhoi her i ni. Pan fyddwn yn dringo i fyny mynyddoedd serth, rwyf weithiau'n mynd yn ofnus ac mae Owain yn dweud, gallwch chi wneud e ac fe allaf...ac mi wnaf. Mae'r prosiect hwn wedi golygu'r byd i mi. Rwyf wedi newid fy mywyd o'i herwydd!"**





## Grŵp Treftadaeth Brymbo

Derbyniodd prosiect Roots to Shoots Grŵp Treftadaeth Brymbo grant i drawsnewid tirwedd ddiwydiannol gynt i ofod agored a hygyrch ar gyfer y gymuned.

Yn sgil ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynlluniau, bydd y prosiect yn creu tir parc, llwybrau cerdded a gerddi cymunedol.

Meddai Nick, Cadeirydd y grŵp: **"Rydym wedi bod yn cydweithio â thrigolion ers blynyddoedd i ddod o hyd i ffyrdd o ddathlu ein treftadaeth ddiwydiannol falch. Mae'r prosiect hwn yn ymwneud ag ailgysylltu pobl â'r lleoedd y tyfodd ein cymuned ohonynt - hen ffatrïoedd haearn a dur Brymbo a'r glofeydd a rheilffyrdd o'i chwmpas."**



# Gogledd Iwerddon



## Ein dulliau gweithio

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn sicrhau bod pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi dyfarnu grantiau i brosiectau anhygoel, cysylltu â mudiadau newydd ac mae ein staff wedi datblygu cysylltiadau cryfach gyda chymunedau ledled Gogledd Iwerddon.

Er mwyn i ni fod yn ariannwr mwy rhagweithiol, rydym wedi bod yn teithio i brosiectau ar draws Gogledd Iwerddon, gan gywain gwybodaeth a data ariannu, ac ennyn diddordeb mudiadau sydd â diddordeb mewn ymgeisio i ni.

Eleni rydym wedi cynnal mwy na 500 o gyfarfodydd gyda'n cwsmeriaid a budd-ddeiliaid. Mae'r rhain wedi cynnwys ymweliadau prosiect, digwyddiadau dathlu, sesiynau cyngor ariannu a thrafodaethau am reoli grantiau. Rydym hefyd wedi cwrdd ag adrannau llywodraeth, cynghorau lleol, cynrychiolwyr etholedig ac arianwyr eraill, fel Community Foundation Northern Ireland, gan rannu dysgu a gwybodaeth am effaith ein grantiau.



Clanmil Housing Association and National Museums NI

**ariannwyd**
**564**
**o brosiectau**



Belfast Hills Partnership

### Ein grantiau

Dyfarnwyd mwy na £19.4 miliwn i dros 560 o brosiectau sy'n dod â phobl ynghyd i greu atebion ar gyfer problemau lleol. Mae'r prosiect Community First Responders County Armagh & Tyrone yn defnyddio grant o £269,017 i hyfforddi gwirfoddolwyr mewn ardaloedd gwledig i fod yn ymatebwyr cyntaf ar gyfer y rhai sy'n profi trawiadau ar y galon nad oes ganddynt ysbyty'n agos. Mae'r grŵp yn cydweithio'n agos â'r gwasanaeth ambiwlans a gall y gwirfoddolwyr hyfforddedig helpu cyflawni cynnydd 50% mewn cyfleoedd goroesi pobl.

Mae rhaglen Relentless Change Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon yn cefnogi pobl ifainc 16 i 25 oed sydd wedi bod mewn gofal neu brofi diweithdra, i fyw'n annibynnol, gan baratoi nhw ar gyfer addysg, hyfforddiant a gwaith. Mae'r bobl ifainc yn helpu trefnu a gwerthuso gweithgareddau trwy gydol y prosiect. Tyfodd un o'r bobl hyn i fyny mewn gofal ac fe brofodd hi ddigartrefedd fel oedolyn ifainc, ond erbyn hyn mae hi'n ennill cymwysterau, ailadeiladu ei bywyd ac yn cefnogi pobl ifainc eraill sy'n wynebu problemau tebyg.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweithredu fel catalydd, gan edrych ar ein heffaith fel ariannwr a'r gefnogaeth ehangach a gynigiwn i brosiectau'n ychwanegol at ein grantiau. I sicrhau bod gennym gysylltiadau gwell â'r bobl a ariannwn ac i weithredu fel cynullydd ar draws y sector gwirfoddol a chymunedol yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd ar draws y wlad, gan gwrdd â mudiadau sy'n ystyried ymgeisio am grantiau a siarad trwy eu ceisiadau gyda nhw.

Rydym wedi dod â'n cwsmeriaid ynghyd i rwydweithio, creu cysylltiadau newydd a rhannu dysgu.

### Gweithio mewn partneriaeth

Parhaom â'n partneriaeth olygyddol unigryw gyda'r Daily Mirror a Belfast Live fel rhan o'r ymgyrch Prosiectau'r Bobl, gan ddangos proffiliau o'r pum prosiect ar y rhestr fer ar draws eu holl sianelau cyfryngau gan gynnwys papurau newydd, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi cynnal hyfforddiant cyfryngau mewn cymunedau, gan gefnogi nhw i feddwl yn greadigol am ffyrdd o ddweud diolch wrth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Bydd hyn yn helpu pobl a chymunedau i amlygu'r gwahaniaeth y mae arian y Loteri Genedlaethol yn ei wneud ar draws Gogledd Iwerddon.

# Gogledd Iwerddon



## L’Arche

Trwy’r prosiect Grow Cook Cater pedair blynedd, mae L’Arche yn cefnogi pobl ifainc sydd ag anableddau dysgu i deimlo’n fwy hyderus a datblygu eu sgiliau byw’n annibynnol. Mae’r gweithgareddau’n cynnwys tyfu ffrwythau a llysiau, dysgu sut i goginio prydau llawn maeth, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chwblhau lleoliadau gwaith.

Meddai un o raddedigion y prosiect, Chauntelle: **“Dysgais lawer am arddio, beth yw prysgwydden, beth yw planhigyn a sut i dyfu hedyn a gofalu amdano. Mae wedi fy helpu i fod yn fwy hyderus ac yn fwy annibynnol.”**



## Mid Ulster Volunteer Centre

Mae Mid Ulster Volunteer Centre yn rhedeg y prosiect Carefully Yours yn ardal Magherafelt, sy’n gweithio gyda phobl dros 55 oed y maent wedi’u heffeithio gan dementia, anabledd corfforol neu ddysgu, unigedd cymdeithasol neu salwch. Dewisir gweithgareddau i wella iechyd a lles gan yr aelodau.

Meddai defnyddiwr y prosiect a gwirfoddolwr, Roberta: **“Mae gennyf grŵp hollol newydd o ffrindiau bellach. Rydym ni’n ffrindiau y tu mewn a’r tu allan i’r grŵp a byddai wedi bod yn wych cwrdd â nhw’n gynharach mewn bywyd.”**



## Northern Ireland Institute for the Disabled (NIID)

Mae Northern Ireland Institute for the Disabled yn helpu dynion digartref i wella’u hiechyd a lles meddyliol trwy sgiliau seiliedig ar waith.

Meddai Rheolwr Hostel, Edmund: **“Rydym eisiau meithrin ymdeimlad o hunanwerth ymysg y rhai sy’n profi digartrefedd ac mae’r grant gan y Gronfa Loteri Fawr wedi rhoi hwb i ni wrth wneud hynny. Mae’n bwysig bod gan bobl urddas a balchder.”**




## Rosie’s Trust

Mae Rosie’s Trust yn helpu cynnal y cwlwm rhwng perchnogion a’i cymheiriaid sy’n anifeiliaid anwes pan fydd eu perthynas o dan fygythiad oherwydd effaith salwch terfynol, henaint neu driniaeth ganser aciwt y perchennog. Mae eu rhwydwaith gwirfoddolwyr yn cefnogi pobl i gadw eu hanifeiliaid anwes, gan gynnal y cwlwm emosiynol pwysig a helpu lleihau unigedd cymdeithasol.

Meddai Karen, sy’n defnyddio Rosie’s Trust: **“Roedd yn hyfryd i mi bod Ruth o’r ymddiriedolaeth wedi ymweld, oherwydd y teimlais mor unig. Cafodd y gwasanaeth effaith hynod gadarnhaol ar sut yr ymdopais â chanser.”**





## Horn of Africa People’s Aid NI (HAPANI)

Mae HAPANI, sy’n gweithio i gynyddu cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer teuluoedd sy’n ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn cael ei gefnogi gyda grant gan y Gronfa Loteri Fawr i ddarparu dosbarthiadau Saesneg a TG.

Hefyd, mae’n cefnogi Clwb Gwaith Cartref, sy’n darparu mynediad hollbwysig ar gyfer 79 o blant bob blwyddyn i gyfleusterau cyfrifiadurol a rhyngrwyd, yn ychwanegol at dair awr o diwtora am ddim bob wythnos. Meddai Cyfarwyddwr HAPANI, Suleiman: **““Mae’r Clwb Gwaith Cartref yn bositif iawn. Mae’n grymuso’r plant. Maent yn treulio llawer o amser yn y llyfrgell, mae fel cartref ar eu cyfer.”**

# Rhan 2: Adroddiad atebolrwydd




Stranraer Water Sports Association

# Ein hadroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Ein diben a gweithgareddau

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gyfrifol am ddosbarthu arian a godir ar gyfer achosion da trwy'r Loteri Genedlaethol. Rydym yn derbyn 40 y cant o'r cyfanswm a godir ac yn dosbarthu hyn trwy ddyfarniadau grant i gefnogi prosiectau sydd â ffocws cymunedol. Er 2004 rydym wedi dosbarthu grantiau gwerth dros £9.0 biliwn. Rydym yn cynnig ystod o raglenni ariannu, o grantiau bychain rhwng £300 a £10,000 i raglenni strategol, graddfa fawr gwerth miliynau o bunnoedd.

Yn ychwanegol at ein gwaith mewn perthynas ag arian achosion da'r Loteri Genedlaethol, mae'r Gronfa'n gyfrifol am ddosbarthu arian sydd wedi'i ryddhau o gyfrifon banc segur ac asedau cysylltiedig o dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008.

Rydym yn gweithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, i reoli a dosbarthu eu hariannu trwy raglenni grantiau a redwn ar eu rhan hefyd. Mae enghreifftiau o'r math hwn o weithgarwch yn cynnwys dosbarthu arian mewn partneriaeth â'r Swyddfa Cymdeithas Sifil mewn perthynas â'r Gronfa #iwill a rhaglen arian cyfatebol Cronfa Gymdeithasol Ewrop; Building Better Opportunities.

Wrth gyflwyno ein rhaglen waith rydym yn gweithredu o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol, arweiniad sector cyhoeddus arall a gofynion yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), ein hadran noddi sy'n darparu Cytundeb Rheoli i ni'n disgrifio ein perthynas â'r llywodraeth. Mae DCMS hefyd yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi sy'n disgrifio'r blaenoriaethau y cymerwn i ystyriaeth wrth sefydlu ein rhaglenni grant ar gyfer Lloegr. Mae'r adrannau perthnasol ym mhob un o'r Cenhedloedd datganoledig yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau Polisi ar gyfer gweithgareddau gwneud grantiau yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Wrth ddilyn yr arweiniad hwn mae penderfyniadau'r Gronfa ar raglenni a grantiau'n annibynnol i'r llywodraeth. Mae'n ofynnol i'n hariannu ddilyn yr egwyddor ychwanegedd - hynny yw, mae'n rhaid i'n hariannu fod yn wahanol i'r llywodraeth, gall cydweddu ond mae'n rhaid iddo beidio â disodli rhaglenni gwariant y llywodraeth.

Mae'r Gronfa'n gweithredu ym mhob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig gyda rhaglenni ariannu sy'n benodol i bob gwlad. At hynny rydym yn gweithredu ystod o raglenni sydd â chwmpas Deyrnas Unedig gyfan. Mae pob un o'r gwledydd a'r Portffolio Deyrnas Unedig yn dyfarnu grantiau trwy bwyllgor portffolio sydd wedi'i benodi'n allanol. Eu rôl yw amlinellu a chytuno ar raglenni grant o fewn y Fframwaith Strategol ehangach sy'n cydweddu â'r dull cyffredinol a gymeradwyir gan y Bwrdd. Mae cymeradwyaeth o'r rhan fwyaf o ddyfarniadau wedi'i dirprwyo i swyddogion y Gronfa neu baneli penodol ar gyfer y rhaglenni amrywiol ym mhob portffolio. Mae ein cyllidebau dyfarniadau grant wedi'u dyrannu rhwng pob gwlad ar sail cyfrannau cytunedig sy'n seiliedig yn bennaf ar gyfrannau poblogaeth ar ôl i gyfran sydd i'w chymhwyso i'r portffolio Deyrnas Unedig gael ei didynnu.

### Materion a risgiau allweddol

Mae'r mwyafrif o'n hincwm yn ddibynnol ar y refeniw a gynhyrchir trwy'r Loteri Genedlaethol, y mae cyfran ohono'n cael ei dyrannu i achosion da a'i throsglwyddo i ddosbarthwyr Loteri. Rydym yn rheoli ein dyfarniadau grant, cyllidebau a pholisïau dros nifer o flynyddoedd er mwyn lliniaru yn erbyn amrywiadau posib mewn refeniw y Loteri Genedlaethol ac i sicrhau y gallwn gyflawni ein rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.



Rydym yn darparu cydbwysedd o raglenni ariannu sy'n ymateb i alw ac wedi'u targedu i fodloni gofynion ein hymgeiswyr grant mewn ffordd sy'n cyfateb i'r egwyddorion a ddisgrifir yn ein Fframwaith Strategol.

Rydym yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio i gyflwyno'r weledigaeth Pobl yn Arwain, er enghraifft rydym wedi ail-lansio ein rhaglen grantiau bychain, Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol i symleiddio'r broses ymgeisio a chyflwyno ceisiadau ar-lein am y tro cyntaf. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau sylweddol i strwythurau ein timau grant i sicrhau bod gennym gysylltiadau agosach â'n hymgeiswyr a deiliaid grant yn eu cymunedau.

Rydym yn wynebu risgiau ariannol mewn perthynas â'n hincwm a'r gallu i fodloni ein rhwymedigaethau yn y dyfodol a hefyd o ran bod yn agored i dwyll posib mewn gweithgareddau gwneud grantiau. Mae angen cynllunio gofalus ar gyfer ein rhaglen newid i sicrhau bod mentrau newydd yn llwyddiannus ac mae cyflwyno gwasanaethau ar-lein yn golygu ein bod yn fwy agored i risgiau seiber. Mae ein rhaglen rheoli risg yn darparu dull o asesu'r risgiau allweddol yr ydym yn agored iddynt a sefydlu mesurau rheoli priodol i liniaru'r rhain. Mae asesiad llawnach o'n prosesau rheoli risg wedi'i gynnwys yn ein datganiad llywodraethu.

### Crynodeb o Berfformiad

Bob blwyddyn rydym yn disgrifio ein hamcanion corfforaethol a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a ddefnyddiwn i asesu sut rydym wedi cyflawni ein nodau corfforaethol. Ar gyfer 2017/18 amlinellom chwe amcan gyda DPA cefnogol. Cyflawnom yr holl dargedau a bennwyd.

Mae'r Gronfa'n asesu ei pherfformiad trwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio'r DPA a metrigau perfformiad eraill gan gynnwys mesurau gweithredol, dangosyddion ariannol, cyfrifon rheoli a thechnegau rhagamcanu allweddol i sicrhau y gall cymryd camau cywiro mor fuan â phosib pan fydd angen i gyflawni ei nodau ac isafu risg i'w gweithrediadau a'i hamcanion.

Nid ydym yn pennu unrhyw warged neu ddiffyg gweithredu penodol fel mesur rheoli allweddol. Rydym yn rheoli ein perfformiad allweddol er mwyn mwyafu ein gallu i wneud grantiau ar sail yr arian a dderbyniwyd ac a gaiff ei dderbyn gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn cydnabod gwerth llawn dyfarniadau grant pan gânt eu cymeradwyo ni waeth pryd bynnag y daw'r arian ar gyfer y dyfarniadau hynny'n daladwy. Ar gyfer y flwyddyn ariannol cofnodwyd gwarged o £173 miliwn yn dilyn diffyg o £114 miliwn yn 2016-17.

Ceir asesiad manylach o'n perfformiad yn ein dadansoddiad perfformiad ac yn ein datganiadau ariannol.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol. Mae ein datganiad sefyllfa ariannol yn cofnodi rhwymedigaethau net sylweddol. Mae hyn o ganlyniad i'n polisi cydnabod dyfarniadau grant sy'n cofnodi gwerth llawn dyfarniadau ar adeg cymeradwyo a hysbysu (ac eithrio pan fydd meini prawf perfformiad penodol) er na fydd y taliadau arian parod o bosib yn berthnasol am beth amser. Rydym yn rheoli ein rhwymedigaethau ar sail ein gallu i fodloni'r galw arian parod o adnoddau arian parod cyfredol a rhagamcaniadau o incwm y dyfodol. Mae hyn yn tybio fel mater o bolisi cyhoeddus y bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu.

# Ein hamcanion corfforaethol

Mae ein cynllun corfforaethol blynyddol yn disgrifio ein cyllidebau, amcanion a thargedau ar gyfer y flwyddyn.

Nododd Cynllun Corfforaethol 2017/18 chwe amcan corfforaethol i lunio ein blaenoriaethau a phennwyd naw dangosydd perfformiad allweddol i fesur llwyddiant. Mae ein perfformiad wedi cael ei fonitro yn erbyn ein targedau a gyhoeddwyd, ac adroddwyd amdano i'r Bwrdd trwy gydol y flwyddyn.

## Amcan corfforaethol un: Datblygu ein prosesau gwneud grantiau

Mae'n hawdd i'n cwsmeriaid gael gwybodaeth am ein grantiau ac ymgeisio amdanynt. Maent yn cytuno bod gwybodaeth amdanom yn hawdd i'w cyrchu, bod ein deunyddiau'n glir a'n staff yn barod i helpu.

**Beth ydym wedi'i wneud?**

Rydym wedi pennu dull Dylunio Gwasanaeth o gyflwyno gwasanaethau newydd neu wedi'u diweddaru ar draws y Gronfa. Rydym wedi defnyddio'r fethodoleg i ailddylunio ein gwefan gan ganolbwyntio ar y cynnwys a ddefnyddir amlaf. Rydym wedi ail-lansio ein rhaglen grantiau bychain Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a'n rhaglen grantiau maint canolig allweddol yn Lloegr - Reaching Communities - a ail-lansiwyd ym mis Ebrill 2018.

## Amcan corfforaethol dau: Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio

Byddwn yn datblygu'r Gronfa a'n staff, o fewn ein targed costau gweithredu, i sicrhau ein bod yn barod i ymateb i heriau a chyfleoedd mewn byd newidiol, gan roi ein cwsmeriaid yn gyntaf a gwella'u profiad o weithio gyda'r Gronfa.

**Beth ydym wedi'i wneud?**

Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffyrdd y mae ein timau'n gweithio gan gynnwys ailstrwythuro timau gwneud grantiau yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod gennym y sgiliau iawn yn y lleoedd iawn i gefnogi ein hymgeiswyr a deiliaid grant. Rydym wedi cwrdd â'n targed trothwy costau.

## Amcan corfforaethol tri: Gwella sut rydym yn cefnogi budd-ddeiliaid

Byddwn yn datblygu perthnasoedd effeithiol â budd-ddeiliaid i sicrhau partneriaethau gwaith agos â mudiadau a phobl eraill. Bydd ein budd-ddeiliaid yn gwybod sut i gysylltu â ni a byddwn yn deall y cyswllt yr ydym wedi'i gael gyda nhw.

**Beth ydym wedi'i wneud?**

Rydym wedi lansio offer newydd i sicrhau y gallwn gysylltu'n gyson â budd-ddeiliaid allweddol a deall eu hanghenion. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ar draws y teulu Loteri Genedlaethol i gefnogi a hyrwyddo'r gwaith da a alluogir trwy'r portffolio gemau.

## Amcan corfforaethol pedwar: Rhoi'r systemau y mae eu angen arnom ar waith

Byddwn yn rhoi systemau ar waith fel bod ein hisadeiledd yn cefnogi taith y cwsmer gyda ni a'n hamcanion busnes ehangach. Byddwn yn sefydlu system a phrosesau i ddeall ein hadnoddau a'u defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon, gan gynllunio ar gyfer y dyfodol ar yr un pryd.

**Beth ydym wedi'i wneud?**

Rydym wedi cymryd y camau cyntaf i ddisodli ein system busnes craidd sy'n cefnogi ein gweithgareddau gwneud grantiau. Rydym wedi adnabod gofynion systemau i ymdrin â gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn cefnogi ymgeiswyr yn gynharach yn eu perthynas gyda ni a mynd â'r wybodaeth honno trwodd i'n gweithgareddau ceisiadau a rheolaeth grant.



## Amcan corfforaethol pump: Gwella'n hymwybyddiaeth fusnes

Byddwn yn harneisio ac yn defnyddio ein data'n fwy effeithiol i gael effaith gadarnhaol ar ein cwsmeriaid. Bydd hyn yn galluogi ni i wneud dewisiadau mwy gwybodus sy'n seiliedig ar gyd-destun lleol a thueddiadau datblygol, ac ar yr un pryd lledaenu gwybodaeth ac arfer gorau o gwmpas y mudiad ac mewn cymunedau lleol.

**Beth ydym wedi'i wneud?**

Rydym wedi sefydlu Tîm Gwybodaeth i sicrhau y gallwn gywain ac adrodd data cyson ar draws ein gweithgareddau gwneud grantiau. Rydym wedi lansio gwasanaethau data ac offer dadansoddi i fanteisio'n well ar ein data i helpu gwella'n prosesau gwneud grantiau a'n cefnogaeth dros y sector yn ehangach.

## Amcan corfforaethol chwech: Gwneud ni'n fedrus yn ddigidol

Bydd y Gronfa'n mabwysiadu dull digidol o wella ein gwasanaethau. Bydd yn golygu ein bod yn canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer, gan fabwysiadu dulliau gweithio deinamig a hyblyg ac yn y pen draw gwella'n cynnig digidol i'n cwsmeriaid a'n staff.

**Beth ydym wedi'i wneud?**

Rydym wedi sefydlu tîm digidol i gydweithio'n agos i gefnogi ein dull dylunio gwasanaeth newydd. Rydym wedi ailddylunio elfennau allweddol o'n gwefan a lansio teclyn ymgeisio ar-lein ar gyfer grantiau bychain. Rydym wedi defnyddio'r dull hwn i ddatblygu ein rhaglenni ariannu wedi'u hail-lansio.

# Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Ochr yn ochr â'n hamcanion rydym wedi adnabod naw DPA sy'n asesu ein perfformiad mewn nifer o feysydd perfformiad gweithredol. Mae ein DPA yn helpu ni i asesu cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion perfformiad. Rydym wedi cwrdd â'n holl DPA yn ystod y flwyddyn er y bydd nifer o'r rhain yn gysylltiedig â phennu gwaelodlinau y gallwn asesu tueddiadau perfformiad y gorffennol yn eu herbyn. Mae ein hamcanion hefyd yn ffurfio sail i reoli ein risg pan fydd ein gallu i gyflawni amcanion corfforaethol a lleol yn pennu'r awydd y mudiad am risg. Ar sail hwn rydym yn pennu i ba raddau y mae mesurau rheoli a lliniaru a chamau gweithredu'n ofynnol i gyfyngu ar risg ac ar yr un pryd ein galluogi i barhau'n uchelgeisiol o ran ein dull ac yn gymesur o ran ein hymateb. Gan hynny mae cynnydd ar DPA yn ganllaw i gyflawni amcanion ac i'n dull rheoli risg.

**DPA 1:** Bydd y broses ymgeisio grantiau bychain yn hawdd ei defnyddio ar gyfer o leiaf **40 y cant** o'n cwsmeriaid.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Adroddodd **89 y cant** o'n hymgeiswyr fod y broses yn hawdd neu'n hawdd iawn yn seiliedig ar ddata mis Mawrth 2018.

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Aeth ein porth ar-lein yn fyw ym mis Hydref ac roedd ar gael i'r holl ymgeiswyr ym mis Ebrill 2018.

**DPA 2:** Bydd o leiaf **77 y cant** o'n cwsmeriaid yn hapus gyda'n gwasanaeth.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Mynegodd **81 y cant** o'n cwsmeriaid foddhad ar ein gwasanaeth yn seiliedig ar ein harolwg boddhad cwsmeriaid.

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Mae pedwar o bob pump o gwsmeriaid, gan gynnwys ymgeiswyr aflwyddiannus, yn parhau i fod yn hapus gyda'n gwasanaeth.

Ymdriniodd y Gronfa â mwy nag 70,000 o ymholiadau a cheisiadau eleni. Cofnodwyd 19 o gwynion trwy ein gweithdrefn gwynion ffurfiol, o'i gymharu â 34 yn 2016/17.

**DPA 3:** Bydd costau gweithredu o fewn y targed o **8 y cant** o incwm gan y Loteri Genedlaethol.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Roedd ein costau gweithredu'n **7 y cant** o incwm y Loteri Genedlaethol.

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Roedd ein cyfanswm costau gweithredu perthnasol yn £47.4 miliwn - £0.4m yn uwch na'r llynedd ond yn is na'r gyllideb a bennwyd gennym. Roedd refeniw yn uwch na'r gyllideb ac ynghyd â chostau ychydig yn is o'i gymharu â'r gyllideb galluogwyd i ni gyflawni targed y gymhareb cost:incwm.

Mae'r llywodraeth yn pennu terfyn 8 y cant o incwm y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein costau gweithredu.

**DPA 4:** Byddwn ar darged i gyflwyno prosiectau allweddol yn ein rhaglen newid.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Rydym wedi asesu i ni gwrdd ag **88 y cant** o'r targedau yr oeddem wedi'u pennu.

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Cyflawnom y mwyafrif o'r 43 o dargedau penodol a bennom ar gyfer newid neu wella perfformiad dros gyfnod o 2 flynedd.

Rydym wedi parhau i adolygu a datblygu ein dull o reoli a chyflwyno targedau allweddol er mwyn addasu i amgylchiadau newidiol ac wedi adnabod prosiectau allweddol pellach ar gyfer y cam datblygu nesaf.

**DPA 5:** Bydd strwythurau mewn lle i fonitro canfyddiadau ohonom ymysg budd-ddeiliaid.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Rydym wedi **pennu gwaelodlin** y gallwn ei defnyddio i fesur tuedd.

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Rydym wedi sefydlu trefnau rheoli cysylltiadau gwell wedi'u cefnogi gan systemau priodol ac wedi adnabod gwaelodlin berfformiad y gallwn ei defnyddio i asesu newid.

**DPA 6:** Byddwn yn gweithredu porth ymgeisio ar-lein ar gyfer grantiau bychain.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Cyflwynom y **porth grantiau bychain ar-lein** ym mis Hydref. Erbyn hyn mae ar gael i'r holl ymgeiswyr (heblaw am Ogledd Iwerddon).

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Erbyn diwedd mis Mawrth roedd ceisiadau ar-lein wedi cyrraedd 30 y cant o'r holl geisiadau ac ym mis Mai, mwy na hanner yr holl geisiadau am grantiau bychain

**DPA 7:** Byddwn yn pennu gwaelodlin ar gyfer nifer y bobl sy'n elwa'n uniongyrchol o'n grantiau.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Nodwyd bod **7.5 miliwn** o bobl wedi elwa o'n grantiau yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2018.

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Rydym wedi datblygu cyfeirlyfr data i'w ddefnyddio ar draws y Gronfa er mwyn cywain ac adrodd am ddata allweddol yn gyson. Bydd asesiadau buddiolwyr ein grantiau ac adroddiadau data allweddol eraill yn gwella o ganlyniad i hyn.



**DPA 8:** Byddwn yn adnabod faint o weithiau y mae data sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael ei gyrchu gan fudd-ddeiliaid allanol.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Ym 4ydd chwarter y flwyddyn cyrchodd dros **15,000 o ddefnyddwyr unigryw** ein hofferyn prosiectau wedi'u hariannu.

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Rydym yn cyhoeddi meintiau sylweddol o ddata a storïau am brosiectau sydd wedi derbyn grantiau ar ein gwefan ac yn ceisio cynyddu mynediad i hyn er mwyn iddo fod yn fwy defnyddiol i'n cwsmeriaid a budd-ddeiliaid. Mae gwelliannau i'r wefan ac wrth reoli ein data'n cefnogi'r nod hwn.

**DPA 9:** Byddwn yn newid o leiaf **50 tudalen allweddol** ar ein gwefan gyda chynnwys sy'n canolbwyntio'n fwy ar anghenion defnyddwyr.

**Cyflawnwyd y dangosydd perfformiad allweddol**

Erbyn mis Mawrth 2018 roeddem wedi adnewyddu **97 o dudalennau** gan gynnwys hafan y Gronfa.

**Adroddiad diwedd blwyddyn**

Rydym wedi ailddatblygu rhannau allweddol o'r wefan gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddeunyddiau rhaglenni ariannu. Mae'r hafan wedi'i hadnewyddu yn ogystal â'r holl dudalennau sy'n galluogi defnyddwyr i leoli rhaglenni ariannu addas.

# Dadansoddiad o'n perfformiad: ariannol

Mae ein fframwaith strategol – Pobl yn Arwain – yn disgrifio ein hamcan o fod yn gorff dyfarnu grantiau rhagorol ac yn gatalydd ar gyfer y sector a gefnogwn. Rydym yn ymrwymedig i fwyafu ein hariannu, adnoddau, gwybodaeth a rhwydweithiau i gefnogi pobl, prosiectau a chymunedau ar draws y Deyrnas Unedig.

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol a wariwn ar ddosbarthu grantiau. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri gan gynnwys mewn perthynas â grantiau cyfrifon segur. Hefyd, rydym yn eithrio costau penodol eraill, er enghraifft costau unigol sy'n fuddsoddiadau neu ailstrwythuro i gyflawni mesurau effeithlonrwydd yn y dyfodol (gweler Nodyn 6 y datganiadau ariannol).

Mae'r llywodraeth yn pennu uchafswm targed ar gyfer costau gweithredu'r holl ddosbarthwyr Loteri. Ar gyfer 2017/18 roedd hyn yn 8 y cant o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn mae newidiadau i'r targed wedi cael eu cytuno gyda DCMS i gynnwys addasiadau penodol ac i'r mesur fod yn berthnasol ar draws cyfnod treigl o dair blynedd. Daeth i newid hwn i rym o fis Ebrill 2018.

## Yr hyn a gyflawnwyd yn 2017/18

Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd yn llwyddiannus yn erbyn y targed cyfanswm costau gweithredu 8 y cant a bennir gan y llywodraeth. Roedd y cyfanswm costau gweithredu perthnasol ar gyfer gweithgareddau gwneud grantiau'r Loteri Genedlaethol yn £47.4 miliwn, £0/4 miliwn yn uwch nag yn 2016/17. Roedd incwm y Loteri Genedlaethol yn uwch na'r dybiaeth yn ein cyllideb ond roeddem yn gallu gweithredu o fewn y gyllideb costau gweithredu a bennwyd gennym. Gan hynny fe weithredom ymhell o fewn ein dangosydd perfformiad. Roedd ein costau gweithredu gwirioneddol yn 7.0 y cant o incwm gan y Loteri.

O fewn y dangosydd perfformiad cyffredinol mae'n rhaid i gostau gweithredu craidd beidio â bod yn fwy na 5 y cant o'r cyfanswm incwm gan y Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â phrosesu ceisiadau a rheoli, gan gynnwys yr holl gostau cefnogi cysylltiedig. Roedd ein costau gweithredu craidd yn 2017/18 yn 4.3 y cant o incwm gan y Loteri. Roedd incwm gan y Loteri ychydig yn uwch na'r lefelau a gyflawnwyd yn 2016/17 ac mewn cyfnod o incwm gostyngol mae'r targed hwn yn parhau'n arbennig o heriol. Mae cyfran sylweddol o'n costau'n gysylltiedig naill ai ag asesu ceisiadau (a gynyddodd yn ystod 2017/18) neu maent yn gostau penodol ar gyfer ein hisadeiledd. Mae'r gallu i newid y rhain yn y tymor byr yn gyfyngedig.

Mae cyfanswm costau gweithredu'r Loteri Genedlaethol yn cynnwys cefnogaeth rheng flaen i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a'r cyhoedd. Er enghraifft, diffinnir darparu cyngor a chymorth i fudiadau sy'n ymgeisio am arian y Loteri Genedlaethol a gweithgareddau i gynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ar y Loteri Genedlaethol fel costau cefnogaeth rheng flaen.

Mae costau staff yn gyfran sylweddol o'n costau gweithredu. Mae ein niferoedd staff wedi gostwng ymhellach yn ystod 2017/18 gyda nifer cyfwerth ac amser llawn (CaALl) o 841 (2016/17: 851). Rydym wedi parhau i ostwng niferoedd trwy gamau ailstrwythuro wrth i ni gyflwyno newidiadau i gefnogi'r fframwaith strategol.

## Yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn 2018/19

Rydym wedi cyllidebu i gyflwyno cyfanswm costau gweithredu o fewn y trothwy costau 8 y cant yn 2018/19 ond gyda'r capasiti am rywfaint o fuddsoddiad ychwanegol mewn gwelliannau gwasanaeth yn seiliedig ar y dull mesur tair blynedd treigl newydd. Mae'r targed yn seiliedig ar incwm Loteri Genedlaethol y cyllidebwyd ar ei gyfer o £640 miliwn, sy'n deillio o'n rhagolwg o refeniw ar gyfer 2018/19 ar adeg paratoi'r gyllideb a chan ystyried newidiadau disgwyliedig mewn gweithrediadau yn ystod y flwyddyn.

Bu'r gyllideb yn seiliedig ar ddatblygu gweithgareddau i gefnogi ein cynllun corfforaethol, gan barhau â'n rhaglen newidiadau ac arbedion, ac ar yr un pryd cynnal symiau wrth gefn sy'n ddigonol i ddarparu ar gyfer digwyddiadau nas cynlluniwyd ac i ddarparu adnoddau a chyflwyno gweithgareddau buddsoddi a fydd yn cefnogi cyflwyno'r Fframwaith Strategol.

Ym mis Mawrth 2018 roedd ein cyfanswm CaALl yn 841 (gostyngiad o 851 ym mis Mawrth 2017). Wedi'i gynnwys yn y rhifau hyn mae CaALl o 50.7 a adawodd y mudiad ym mis Mawrth 2018 o ganlyniad i ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn rhagweld rhywfaint o gynnydd mewn niferoedd staff i gefnogi gweithgareddau datblygu a buddsoddi allweddol ynghyd ag effeithiau rhaglen cyfrifon segur newydd sydd bellach yn y cam datblygu. Byddwn yn parhau i asesu'r potensial am effeithlonrwydd gwell yn ein gwaith grantiau bychain wrth i ni fabwysiadu dulliau gweithio sy'n fwy digidol ac wrth i geisiadau trwy ein porth ar-lein gynyddu.

## Ein gwarged ar gyfer y flwyddyn

Cofnodwyd gwarged ar gyfer y flwyddyn 2017/18 o £173 miliwn (2016/17 diffyg of £114 miliwn).

Ein diffyg cronnus ar 31 Mawrth 2018 oedd £728 miliwn (31 Mawrth 2017 £901 miliwn).

Mae ein polisi cyfrifyddu'n trin dyfarniadau fel gwariant mor fuan ag y bydd eu cymeradwyaeth wedi'i chyfathrebu i'r derbynnydd (yn amodol ar feini prawf penodol). Rydym yn rheoli ein llif arian dros y tymor hwy yn seiliedig ar rwymedigaethau arian grant a rhagamcaniadau incwm yn hytrach na cheisio cyflawni unrhyw warged neu ddiffyg blynyddol penodol. telir dyfarniadau dros nifer o flynyddoedd ac rydym yn hyderus y bydd modd i ni fodloni ein rhwymedigaethau o incwm y dyfodol wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Yn dilyn gostyngiad mewn incwm gan y Loteri Genedlaethol yn 2016/17 fe ostyngom ein cyllideb dyfarniadau ar gyfer 2017/18 er mwyn rheoli arian i fodloni rhwymedigaethau presennol. Mae incwm 2017/18 wedi gwella ychydig o'i gymharu â 2016/17 ond daeth y flwyddyn i ben gyda dyfarniadau sy'n is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Arweiniodd y ffactorau hyn at warged mewn gweithrediadau Loteri ar gyfer y flwyddyn.

Yn ychwanegol at ein hincwm gan y Loteri Genedlaethol tua diwedd y flwyddyn fe'n hysbyswyd bod gwerth £152.8 miliwn o dderbynebau'n ddyledus gan Reclaim Fund Limited o dan y trefniadau a ddisgrifir yn Neddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Mae'r rhaglenni o dan y ffynhonnell ariannu newydd hon yn cael eu datblygu o hyd ac felly nid yw unrhyw ddyfarniadau wedi'u gwneud o dan y cam hwn o'r cynllun, er ein bod wedi darparu ar gyfer y symiau amcangyfrifedig a fydd yn daladwy i Big Society Trust. O ganlyniad i hyn mae ein gweithgareddau o dan y gweithrediadau cyfrifon banc segur yn cynhyrchu gwarged sylweddol o fewn y flwyddyn o £101.0 miliwn (2016/17 £12.0 miliwn).

## Ein strategaeth ariannu

Ein strategaeth yw dyfarnu'r uchafswm y gallwn ymrwymo iddo'n ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd, o ystyried ein hincwm disgwyliedig. Gan fod llawer o'n grantiau'n talu allan dros nifer o flynyddoedd, yn dilyn y dyfarniad cychwynnol, mae'r strategaeth hon yn sicrhau y gall y prosiectau a'r gweithgareddau a gefnogir gan ein dyfarniadau gyflwyno eu buddion mor gynnar â phosib a pharhau wedi'u diogelu rhag unrhyw newidiadau annisgwyl mewn incwm.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gennym £1,237 miliwn (2016/17 £1,366 miliwn) o rwymedigaethau yn ddyledus mewn perthynas â dyfarniadau a wnaed ond roedd gennym £311 miliwn (2016/17 £399 miliwn) a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i dalu amdanynt. Mae hyn yn golygu yr oeddem wedi gwneud rhwymedigaethau net o £926 miliwn (2016/17 £967 miliwn) uwchben yr adnoddau sydd ar gael i ni ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i tua 17 mis o incwm Loteri'r dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcaniadau cyfredol.

## Rhaglenni ariannu nad yw'n gysylltiedig â'r Loteri

Yn ychwanegol at ein busnes craidd o ddosbarthu arian achosion da'r Loteri Genedlaethol, rydym hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu arian sydd wedi'i ryddhau o Reclaim Fund Ltd o dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u cynnwys o fewn ein datganiadau ariannol cyfunedig. Disgrifir set o gyfrifon cryno ar gyfer y gweithgaredd hwn yn nodyn 30 y cyfrifon.

Mae Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 yn galluogi banciau a chymdeithasau adeiladu i drosglwyddo arian a ddelir mewn cyfrifon segur i gronfa ganolog i'w fuddsoddi yn y gymuned. Darparodd y cynllun gwreiddiol i'r Gronfa wneud dyfarniadau grant yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon o dan gyfarwyddiadau polisi a ddisgrifir gan bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig. Ar gyfer Lloegr, mynnodd y cyfarwyddiadau polisi fod arian yn cael ei drosglwyddo yn ei gyfanrwydd i Big Society Trust, yn gweithredu fel cyfanwerthwr buddsoddi cymdeithasol. Mae'r llywodraeth, gan weithio ar y cyd gyda Reclaim Fund Ltd, wedi bod yn ceisio sicrhau bod y symiau sydd ar gael yn cael eu mwyafu. O ganlyniad i hyn bydd symiau cynyddol yn cael eu rhyddhau dros y 3 blynedd nesaf. Ochr yn ochr â hyn, ni fydd Big Society Trust mwyach yn unig dderbynnydd cyfran Lloegr o'r arian sydd ar gael ac mae'r Gronfa wedi bod yn cydweithio â DCMS i sefydlu rhaglenni newydd ym meysydd cynhwysiad ieuenctid ac ariannol y bydd dyfarniadau ar eu cyfer yn dechrau yn ystod 2018/19.

£152.8 miliwn oedd y cyfanswm yr adnabuwyd gan Reclaim Fund ei fod ar gael i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn 2017/18. (2016/17 £94 miliwn). Delir y symiau hyn gyda Reclaim Fund Limited hyd nes bod y Gronfa'n tynnu arian i lawr i fodloni ei rhwymedigaethau o dan rwymedigaethau grant neu i'w trosglwyddo i Big Society Trust. Ar ôl tynnu i lawr rydym yn adneuo arian hyd nes y bydd ei angen i fodloni rhwymedigaethau grant. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd llog gwerth £103,000 (2016/17 £162,000) mewn perthynas â'r arian hwn.

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 yn disgrifio pwerau er mwyn i'r Gronfa gydweithio â mudiadau eraill i ddosbarthu arian. Rydym yn cyfeirio at y gweithgareddau hyn fel Grantiau Trydydd Parti. Mae'r pwerau hyn yn rhoi cwmpas i ni gydweithio ag eraill i ddosbarthu arian ar ran neu ochr yn ochr â, mudiadau eraill pan ddaw hyn o fewn y meysydd ariannu a bennir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein gwaith a'i fod yn gweddu i'n nodau strategol. Yn ystod y flwyddyn cyfanswm o werth £38.0 miliwm o grantiau trwy'r dull hwn dros arianwyr eraill. Wedi'i gynnwys o fewn y swm hwn mae'r £7.3 miliwn a ddosberthir trwy raglenni arian cyfatebol trwy'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd.

I'r graddau bod y grantiau a ddyfernir o dan y rhaglenni hyn wedi'u llywodraethu gan yr ariannwr trydydd parti, rydym yn gweithredu dim ond fel y dosbarthwr. Nid ydym yn cofnodi derbyn yr arian ei hun neu'r grantiau a wneir yn ein cyfrifon ein hunain. Er hynny rydym yn adennill costau cyflawni'r gweithgarwch hwn gan yr arianwyr perthnasol ac yn cofnodi hwn fel incwm. Pan fyddwn yn darparu arian ar y cyd neu gyfatebol ar gyfer y rhaglenni hyn rydym yn cofnodi ein cyfran o'r dyfarniadau grant a wnaed mewn gwariant ar raglenni Loteri.

## Balansau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF)

Delir enillion achosion da net y Loteri Genedlaethol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), sydd o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hyd nes y caiff ei dynnu i lawr gan ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn derbyn incwm buddsoddi yn ychwanegol at enillion y Loteri ac o'r un gyfran ag enillion o dderbynebau'r Loteri Genedlaethol (40 y cant). Yn 2017/18 roedd hyn yn £1.8 miliwn (2016-17 £2.1 miliwn).

**ROEDD EIN BALANS NLDF YN £311 MILIWN AR 31 MAWRTH 2018 (2016/17 £399 MILIWN).**

Mae ein balans yn y NLDF wedi gostwng £88 miliwn yn ystod y flwyddyn. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiadau mewn arian a dderbynnir gan y Loteri yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf a pharhau ar yr un pryd i fodloni ein rhwymedigaethau o ran dyfarniadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Rydym yn cymryd y newid disgwyliedig yn y balans i ystyriaeth ochr yn ochr â rhagamcaniadau o refeniw y dyfodol ac amser rhwymedigaethau dros ben wrth bennu cyllideb dyfarniadau grant y dyfodol. Gan nad ydym yn rheoli incwm y Loteri Genedlaethol nid yw'n bosib i ni reoli'r balans yn y NLDF yn y tymor byr ac felly nid ydym yn pennu targed penodol ar gyfer ein balans. Ein strategaeth yw mwyafu gwerth rhwymedigaethau grant newydd y gallwn eu gwneud yn ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd gan gymryd rhwymedigaethau sydd eisoes yn bodoli i ystyriaeth ar yr un pryd. Rydym yn rhagfynegi ein mewnlif ac all-lif ariannol ar gyfer y dyfodol i asesu isafswm balans diogel yn y NLDF er mwyn sicrhau y gallwn fodloni ein rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus, gan ddarparu ar gyfer asesiadau seiliedig ar risg o amrywiadau posib mewn incwm. Bydd y balans gwirioneddol ar unrhyw adeg benodol yn amrywio yn ôl strwythur ac amseru ein rhaglenni grant a'r incwm a gynhyrchir trwy'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y cyfnod dan sylw.

## Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, mae'n rhaid i'n cyfrifon blynyddol gael eu harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol ohoni.

## Deiliad gwybodaeth y sector cyhoeddus

Fel pob corff cyhoeddus, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ddeiliad gwybodaeth sector cyhoeddus. Nid yw wedi codi tâl am ailddefnydd penodol o wybodaeth.

# Dadansoddiad o'n perfformiad: cydraddoldeb

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio sicrhau mynediad cyfartal i'w holl raglenni ariannu. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol ac yn ceisio sicrhau bod ein grantiau'n cefnogi anghenion, credoau, gwerthoedd a chredoau yn y cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.

Mae ein hegwyddorion ac arweiniad cydraddoldeb ar gyfer ymgeiswyr a deiliaid grant ar gael ar ein gwefan: www.biglotteryfund.org.uk/welsh/about-big/our-approach/equalities

Mae'r Gronfa yn ceisio bod yn gyflogwr amrywiol a chynhwysol. Yn y Gronfa rydym yn ceisio adlewyrchu'r cymunedau a gefnogwn trwy ein grantiau. Mae'r amrywiaeth hon yn cynnwys ethnigrwydd, ffordd o fyw, anabledd, iechyd meddwl a chefndir. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn benodol, rydym wedi ehangu ein prosesau recriwtio i ddenu gweithlu mwy amrywiol gyda gwybodaeth leol a phrofiadau byw. Bydd hyn yn gwella gallu'r Gronfa i ystyried ystod eang o geisiadau am grantiau gyda mwy o wybodaeth a dysgu a rennir.

Mae'r tabl isod yn amlygu trefniadau monitro cydraddoldeb ein rhaglenni grant. Rydym yn parhau i asesu sut rydym yn sicrhau y bydd ein hariannu'n cyrraedd cymunedau mewn ffordd sy'n adlewyrchu poblogaeth y Deyrnas Unedig yn llawn. Mae ein hadroddiad cydraddoldeb ar gyfer cyflogaeth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff yn adran Llywodraethu'r adroddiad hwn.

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd** | Nifer | % | Nifer | % | £000 | % | £000 | % |
| Dim ethnigrwydd penodol | 13,510 | 70 | 7,940 | 59 | 453,479 | 73 | 307,258 | 75 |
| Asiaidd/Asiaidd Deyrnas Unedig | 900 | 5 | 544 | 60 | 22,472 | 4 | 16,456 | 4 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du o'r Deyrnas Unedig | 1,002 | 5 | 582 | 58 | 21,712 | 4 | 14,837 | 4 |
| Grwpiau ethnig cymysg/lluosog | 877 | 4 | 494 | 56 | 25,809 | 4 | 18,026 | 4 |
| Grŵp ethnig arall | 530 | 3 | 328 | 62 | 11,185 | 2 | 7,745 | 2 |
| Gwyn Arall | 977 | 5 | 565 | 58 | 38,031 | 6 | 20,395 | 5 |
| Gwyn Deyrnas Unedig | 1,553 | 8 | 842 | 54 | 45,137 | 7 | 23,165 | 6 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o gefndir ethnig penodol.



| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | Nifer | % | Nifer | % | £000 | % | £000 | % |
| 0 - 24 oed | 6,913 | 35 | 3,796 | 55 | 186,397 | 29 | 113,428 | 26 |
| 25 - 64 oed | 3,042 | 15 | 1,935 | 64 | 107,773 | 16 | 75,671 | 17 |
| 65+ oed | 1,861 | 9 | 1,244 | 67 | 53,687 | 8 | 37,165 | 9 |
| Dim oedran penodol | 8,008 | 41 | 4,754 | 59 | 306,329 | 47 | 207,661 | 48 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grŵp oedran penodol. Gallant ddewis fwy nag un grŵp, ac felly gallai'r atebion gynnwys cyfrif lluosog.

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | Nifer | % | Nifer | % | £000 | % | £000 | % |
| Gwryw | 425 | 3 | 256 | 60 | 17,364 | 3 | 11,462 | 3 |
| Benyw | 1,064 | 6 | 676 | 64 | 41,328 | 7 | 29,553 | 8 |
| Dim rhyw benodol | 15,544 | 91 | 9,020 | 58 | 502,539 | 90 | 327,438 | 89 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o rhywedd penodol.

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefndir Cymunedol** | Nifer | % | Nifer | % | £000 | % | £000 | % |
| Catholig a Phrotestannaidd | 741 | 60 | 329 | 44 | 55,059 | 68 | 20,703 | 64 |
| Catholig yn bennaf | 211 | 17 | 96 | 45 | 12,930 | 16 | 3,998 | 12 |
| Protestannaidd yn bennaf | 246 | 20 | 139 | 57 | 6,551 | 8 | 2,195 | 7 |
| Heb fod yn Gatholig nac yn Brotestannaidd | 30 | 2 | 14 | 47 | 1,383 | 2 | 277 | 1 |
| Dim cymuned benodol | 8 | 1 | 8 | 100 | 5,107 | 6 | 4,932 | 15 |

Gofynnir i ymgeiswyr sy'n ymgeisio i raglenni sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon nodi i ba gymuned mae'r rhai sy'n elwa o'u prosiect yn perthyn iddi'n bennaf.

| | Nifer y ceisiadau a’r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo’r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **£000** | **%** | **£000** | **%** |
| Di-gymraeg yn bennaf | 935 | 65 | 461 | 49 | 46,978 | 72 | 23,120 | 77 |
| Cymraeg yn bennaf | 367 | 26 | 139 | 38 | 12,652 | 19 | 4,065 | 14 |
| Dim Cymraeg | 128 | 9 | 66 | 52 | 5,612 | 9 | 2,781 | 9 |

Gofynnir i ymgeiswyr i raglenni sy’n gweithredu yng Nghymru faint o’r bobl a fydd yn elwa o’u prosiect sy’n siarad Cymraeg.

| | Nifer y ceisiadau a’r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo’r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **£000** | **%** | **£000** | **%** |
| Bwdhaeth | 3 | <1 | – | – | 520 | <1 | – | – |
| Cristnogaeth | 510 | 3 | 259 | 51 | 16,546 | 3 | 4,957 | 1 |
| Hindŵaeth | 15 | <1 | 12 | 80 | 212 | <1 | 147 | <1 |
| Iddewiaeth | 161 | 1 | 100 | 62 | 2,712 | <1 | 2,121 | 1 |
| Moslemiaeth | 153 | 1 | 96 | 63 | 4,424 | 1 | 3,533 | 1 |
| Dim crefydd | 97 | 1 | 53 | 55 | 838 | <1 | 466 | <1 |
| Crefydd arall | 22 | <1 | 14 | 64 | 299 | <1 | 228 | <1 |
| Crefydd neu gred – wedi ateb na | 16,055 | 94 | 9,412 | 59 | 535,466 | 96 | 356,960 | 97 |
| Sikhiaeth | 15 | <1 | 6 | 40 | 194 | <1 | 39 | <1 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grefydd neu gred benodol.

| | Nifer y ceisiadau a’r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo’r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabledd** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **£000** | **%** | **£000** | **%** |
| Ddim yn anabl | 14,173 | 83 | 8,029 | 57 | 469,199 | 84 | 311,282 | 84 |
| Anabl | 2,860 | 17 | 1,923 | 67 | 92,032 | 16 | 57,171 | 16 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl anabl.



| | Nifer y ceisiadau a’r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo’r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm y gofynnwyd amdano | | Swm y gofynnwyd amdano a chanran y swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tueddfryd Rhywiol** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **£000** | **%** | **£000** | **%** |
| Lesbiaid/dynion hoyw/deurywiol | 253 | 1 | 143 | 57 | 6,664 | 1 | 4,095 | 1 |
| Ddim yn benodol i lesbiaid/dynion hoyw/deurywiol | 16,778 | 99 | 9,809 | 58 | 554,547 | 99 | 364,358 | 99 |

Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i lesbiaid, dynion hoyw neu bobl ddeurywiol.

Sylwer: Nid yw’r data uchod bob amser yn adio i fyny i’r un cyfansymiau ar gyfer unrhyw weithgareddau dyfarnu grantiau. Mae hyn oherwydd nad yw’r dosbarthwyr yn ein data grant yn fandadol pan gwblheir data ymgeisio ac mae’n bosib y bydd rhai ceisiadau’n cwblhau is-set yn unig o’r cyfanswm.

## Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

Mae cydraddoldeb yn rhan ganolog o’n holl waith ac rydym yn parhau i gydweithio â Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon  i sicrhau ein bod yn cyflwyno’n unol â gofynion Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

## Safonau’r Gymraeg

Rydym yn ymroddedig i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru trwy weithredu Safonau Cymraeg y Gronfa, a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017. Mae gweithrediad y Safonau’n cael ei fonitro a’i drafod mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddog Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi cwrdd â dau o’n terfynau amser ar gyfer Safonau’r Gymraeg hyd yma, y cyntaf ym mis Ionawr 2017 a’r ail ym mis Gorffennaf 2017. Mae gennym un terfyn amser pellach ar gyfer mis Gorffennaf 2018 yr ydym yn disgwyl cwrdd ag ef.

O ganlyniad i Safonau’r Gymraeg a’n dull rhagweithiol fel mudiad, mae rhai gwasanaethau a gynigir gan y Gronfa Loteri Fawr i’w staff ar gael yn Gymraeg am y tro cyntaf, gan gynnwys gwasanaethau Adnoddau Dynol a chyrsiau hyfforddi. Darperir cyfle i gwsmeriaid ddilyn eu taith gyda ni trwy gyfrwng y Gymraeg o’r pwynt cyswllt cyntaf, boed hynny dros y ffôn, trwy e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu gais ysgrifenedig. Darperir ein presenoldeb mewn digwyddiadau a chymorthfeydd ariannu yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg. Am y tro cyntaf eleni rydym hefyd wedi cynnig hyfforddiant wedi’i deilwra i’n deiliaid grant ar ofynion y Gymraeg. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi mewn partneriaeth â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac maent wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau’r cyfryngau Cymraeg fel y BBC a chyfryngau lleol i hyrwyddo ein grantiau a byddwn yn parhau â’r gwaith hwn dros y flwyddyn i ddod.

# Dadansoddiad o'n perfformiad: adroddiad cynaladwyedd

### Ein hymrwymiad i gynaladwyedd amgylcheddol

Mae'r Gronfa'n ymroddedig i isafu ei heffaith ar yr amgylchedd trwy ei gweithgareddau ei hun ac yn y prosiectau a ariannwn.

Rydym wedi gostwng ein hallyriadau a'r gwastraff a gynhyrchwn yn sylweddol dros gyfnod o bum mlynedd ac rydym yn parhau i osod targedau heriol i wella ymhellach.


Ers 2012:

**Allyriadau swyddfeydd**
**I lawr 45%**

**Allyriadau teithio**
**I lawr 49%**

**Gwastraff a dirlenwir**
**I lawr 79%**

**Cynhyrchu gwastraff cyffredinol**
**I lawr 20%**



### Allyriadau, gwastraff a thraul

Yn y pedair blynedd hyd at 2015/16, cwrddom a rhagorom ar bob un o'r pedwar targed a bennwyd yn y papur polisi "Llywodraeth Werdd" a gyhoeddwyd gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Cyflawnom ostyngiad o 773 tCO2 e yn ein cyfanswm allyriadau CO2 o'i gymharu â tharged o 480 tCO2 e. Rhagorom yn sylweddol ar y gostyngiadau targed ar gyfer allbwn gwastraff hefyd. Nid ydym wedi ailddatgan y targedau yma ond rydym yn parhau i geisio gostyngiadau ym mhob un o'r meysydd hyn yn unol â'n polisïau amgylcheddol.

Ni phennom dargedau penodol ar gyfer gostyngiad pellach yn 2017/18 gan y disgwyliwyd y byddai'r newidiadau yn y mudiad yn cael effaith ar agweddau penodol ar ein hôl troed amgylcheddol. Y ffactor mwyaf oedd y disgwylir i allyriadau teithio godi wrth i ni gynyddu'n sylweddol y nifer o staff sy'n gweithio o fewn y gymuned yn hytrach na chael eu lleoli mewn swyddfeydd. I'r gwrthwyneb, disgwyliom rai gostyngiadau mewn allyriadau gwastraff.

Rydym wedi bod yn monitro'r effaith ar ein hallyriadau carbon ac yn bwriadu gosod targedau ar gyfer gostyngiadau yn seiliedig ar y canlyniadau ar gyfer 2017/18. Hefyd, rydym yn bwriadu ehangu cwmpas ein ffiniau carbon i'n helpu asesu effaith yn fwy eang gan gynnwys, er enghraifft, elfennau newydd fel hurio ceir ac aros mewn gwestai.

Byddwn yn gwrthbwyso'r allyriadau rydym wedi'u cyfrifo ar gyfer 2017/18 trwy fudiad amgylcheddol yn y Deyrnas Unedig.

Mae dadansoddiad pellach o'n perfformiad eleni i'w weld isod.

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tCO2E)** | Cyfanswm crynswth Cwmpasau 1 a 2 | 634 | 800 |
| | Cyfanswm net Cwmpasau 1 a 2 | 634 | 800 |
| | (llai gostyngiadau h.y. tariffau Gwyrdd) | | |
| | Allyriadau gros ar gyfer Cwmpas 3 (teithio busnes) | 383 | 342* |
| | Allyriadau Cwmpas 3 eraill a fesurwyd | – | – |
| **Defnydd ynni cysylltiedig (kWh)** | Trydan: anadnewyddadwy | 751,233 | 1,336,531 |
| | Trydan: adnewyddadwy | – | – |
| | Nwy | 2,008,397 | 1,335,859 |
| | LPG | – | – |
| | Arall | – | – |
| **Dangosyddion ariannol (£000s)** | Gwariant ar ynni | 253 | 378 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 1,106 | 1,036 |

* wedi'i ailddatgan i gynnwys data ar filltiroedd mewn cerbydau preifat

| Gwastraff | | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (t)** | Cyfanswm gwastraff | 81 | 106 |
| | Gwastraff Peryglus | - | - |
| | Tirlenwi | 28 | 10 |
| | Ailddefnyddio/Ailgylchu | 49 | 96 |
| | Ynni o wastraff a losgir | 4 | – |
| **Dangosyddion ariannol (£000s)** | Cyfanswm cost gwaredu | 22 | 40 |
| | Gwastraff peryglus – cyfanswm cost gwaredu | - | - |
| | Tirlenwi | 10 | 1 |
| | Ailddefnyddio/Ailgylchu | 8 | 39 |
| | Ynni o wastraff a losgir | 4 | - |

| Adnodd Meidraidd - defnydd/dŵr | | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (m3)** | Dŵr a gyflenwyd | 4,382 | 5,278 |
| **Dangosyddion ariannol (£000)** | Costau cyflenwi dŵr | 25 | 22 |

Mae cwmpas 1, 2 a 3 yn cyfeirio at y diffiniadau a ddisgrifir yn y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr gan Sefydliad Adnoddau'r Byd a Chyngor Busnes y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy.

Mae cwmpas 1 yn cyfeirio at nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yn uniongyrchol fel gwres a golau ar gyfer ein swyddfeydd ac mae cwmpas 2 yn cyfeirio at ddiogelu anuniongyrchol. Rydym wedi parhau i leihau lle yn ein swyddfeydd ac mae hyn wedi helpu cyfrannu at y gostyngiad yn ein hallyriadau o dan gwmpasau 1 a 2. O dan gwmpas 2 nid oes gennym ddata cyfredol ym mhob achos pan fyddwn yn ddibynnol yn ddata tâl gwasanaeth gan landlordiaid. Os mai dyna'r achos, rydym wedi defnyddio'r data mwyaf addas sydd ar gael, a allai gyfeirio at y flwyddyn ariannol flaenorol, neu ddata procsi o leoliadau tebyg.

Mae cwmpas 3 yn cyfeirio at allyriadau o deithio busnes. Mae ein hallyriadau o dan y categori hwn wedi cynyddu yn ystod 2017/18, fel yn 2016/17. Bu hwn o ganlyniad i deithio sy'n ymwneud â'n nod o fod yn fwy cysylltiedig â'n cwsmeriaid ar draws y Deyrnas Unedig. Er mwyn rheoli hyn byddwn yn ceisio gwella'r defnydd o dechnoleg er mwyn lleihau'r galw am deithio pan fydd hyn yn ymarferol. Rydym wedi cynnwys allyriadau sy'n deillio o ddefnyddio ceir preifat ar gyfer busnes y Gronfa am y tro cyntaf yma eleni i gofnodi ein cyfanswm effaith yn well. Rydym wedi ailddatgan gwerth y flwyddyn flaenorol fel canlyniad.



# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyfarwyddo'r Gronfa Loteri Fawr i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a amlinellir yng Nghyfarwyddiadau'r Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu trosolwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa Loteri Fawr ac o'n hincwm, gwariant a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u disgrifir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol.

Mae'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Gronfa Loteri Fawr, wedi'u disgrifio yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Pryd bynnag y bo'n briodol, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ceisio defnyddio pwerau dirprwyo y darparwyd ar eu cyfer gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, gall partïon eraill fod yn atebol am elfennau penodol o raglenni.

## Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymgymryd â chynlluniau ar y cyd, fel y'u diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu ariannu ochr yn ochr â chyrff eraill er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddiffiniwyd gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau:

- y cymhwysir arian Loteri a ddyrennir gan y Gronfa Loteri Fawr yn unol â'n pwerau cyfreithiol
- defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa Loteri Fawr i'r rhaglen
- bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben
- bod y mecanwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen yn cael ei gytuno ar y cyd rhwng y dosbarthwyr Loteri sy'n cymryd rhan.

Yn ystod 2017/18, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cymryd rhan yn y cynlluniau canlynol ar y cyd:

- Parks for People – cynllun a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr
- Rethinking Parks – cynllun a weinyddir gan Nesta ar ran Nesta, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr.

## Partneriaid dyfarnu

Mae'r Gronfa'n defnyddio'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant a restrir isod i bartneriaid dyfarnu. Mae'r cytundeb dirprwyo rhyngom ni a'r partner dyfarnu'n amlinellu cyfrifoldeb Prif Weithredwr y partner dyfarnu i sicrhau bod y systemau a roddir ar waith i weinyddu ceisiadau Loteri ac i brosesu a monitro grantiau Loteri yn dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri'n cael ei ddosbarthu mewn ffordd gywir a phriodol.

Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelu arian cyhoeddus a ddarperir i'r Gronfa Loteri Fawr ac am sicrhau bod partneriaid dyfarnu'n gweithredu o fewn ein telerau cytunedig ac yn unol â chyfarwyddiadau ariannol a pholisi.

## Ychwanegedd

Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd am eu polisïau a'u harferion ychwanegedd. Mae ychwanegedd yn egwyddor bwysig ein hariannu. Mae'r Gronfa'n defnyddio'r diffiniad a ganlyn: "Mae arian gan y Loteri'n wahanol i arian gan y Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth. Er nad yw'n disodli gwariant y Trysorlys, lle bo'n briodol mae'n ategu polisïau ac ariannu'r Llywodraeth a rhaglenni, polisïau ac ariannu eraill." Roedd yr holl ddyfarniadau grant a wnaed yn 2017/18 yn cyfateb i'r diffiniad hwn o ychwanegedd. Yn ychwanegol at y diffiniad hwn, mae'r Gronfa hefyd yn ystyried y ddarpariaeth a ganlyn ar ychwanegedd a ddisgrifir yn ein cyfarwyddiadau polisi. "YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa Loteri Fawr, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt."

## Ein partneriaid dyfarnu

Fel rhan o Big Venture Challenge:

- UnLtd

Fel rhan o'r rhaglen Buddsoddiad Cymdeithasol:

- Yr Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol

Fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Rhyngwladol:

- Action Village India

Fel rhan o'r Gronfa Gyflymu:

- First Port for Social Entrepreneurs Scotland

Fel rhan o'r Gronfa Dwf:

- Resonance Health & Wellbeing
- Key Fund Investments Ltd
- Big Issue Access Limited
- First Ark Social Investment Limited
- Devon Community Foundation
- UnLtd
- GMCVO
- Homeless Link
- Kent Community Foundation
- Somerset Community Foundation
- Sporting Assets

Fel rhan o raglen y Gronfa #iwill:

- Virgin Money Foundation
- Sport England
- Co-operative Community Investment Foundation

Fel rhan o'r rhaglen Pawb a'i Le:

- Severn Wye Energy Agency Ltd

Fel rhan o'r rhaglen Partneriaeth:

- The Bulldog Trust
- School for Social Entrepreneurs



# Y datganiad llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, fy nghyfrifoldeb i yw'r datganiad llywodraethu hwn.

Yr wyf yn gyfrifol am sicrhau trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn ar draws y mudiad cyfan i gefnogi cyflawniad cenhadaeth y Gronfa Loteri Fawr (y Gronfa) ac ar yr un pryd diogelu'r arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod y flwyddyn. Mae'n galw ar waith Bwrdd y Gronfa, ei bwyllgorau Archwilio a Risg a Thâl Cydnabyddiaeth ynghyd â'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) fel ei gorff gweithredol. Rwyf hefyd wedi adolygu ac ystyried yr adroddiad sicrwydd blynyddol a baratowyd gan yr adran Archwilio Mewnol.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol ohoni; Rwyf wedi cymryd pob cam rhesymol i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio a sefydlu bod archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, ymgymeraf â chyfrifoldeb dros yr adroddiad a chyfrifon blynyddol a'r farn y mae ei hangen i bennu eu bod yn deg, cytbwys ac yn ddealladwy. Cadarnhaf fod yr adroddiad hwn yn gyffredinol yn bodloni'r gofynion hynny yn fy marn i.

## Atebolrwydd y Gronfa Loteri Fawr i Senedd y Deyrnas Unedig, y cyrff deddfwriaethol a llywodraethau datganoledig

Crëwyd y Gronfa Loteri Fawr, sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig, gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, a ddiwygiodd Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac sy'n amlinellu'r prif reolau y mae'n gweithredu oddi tanynt. Mae hefyd wedi derbyn swyddogaethau penodedig o dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008.

Mae'r Gronfa'n gorff cyhoeddus anadrannol ac yr wyf yn llawn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig am ein cyllid. Mae gorchmynion penodol sy'n gysylltiedig ag arian Loteri a chyfrifon segur yn cael eu gwneud gan Senedd y Deyrnas Unedig neu Senedd Yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon ond gweithredir y prif oruchwyliaeth o'r Gronfa gan y llywodraeth trwy gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan weinidogion.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn atebol am Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, ac felly yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon i'r Gronfa mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi cyfarwyddyd tebyg mewn perthynas ag arian cyfrifon segur. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn rheoleiddio systemau a phrosesau'r Gronfa.

Noddwr polisi'r Gronfa yw'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae Gweinidog yr adran noddi'n cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddosbarthu arian yn gyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig ac yn benodol yn Lloegr, ac mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas ag arian a ddosberthir yn y gwledydd hynny. Mae'r cyfarwyddiadau hyn wedi'u cynnwys yn adran wyth yr adroddiad hwn.

O fewn fframwaith y cyfarwyddiadau hyn mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar ba raglenni y dylai eu rhedeg a pha grantiau y dylai eu gwneud.

Yn ystod y flwyddyn galwyd ar y Gronfa i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn dilyn yr adroddiad ar Ddyfodol y Loteri Genedlaethol. Gwnaed nifer o argymhellion, yn enwedig mewn perthynas â data a ddarperir i ddosbarthwyr a darparu sicrwydd ar rwymedigaethau dros ben. Ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol ynglŷn â mesurau rheoli ac mae'r Gronfa'n cydweithio â DCMS i roi'r argymhellion ar waith yn briodol.

## Adolygu llywodraethu anweithredol

Mae'r Gronfa wedi'i llywodraethu gan Fwrdd sy'n cynnwys y Cadeirydd, cadeiryddion y pedwar pwyllgor gwlad a hyd at saith aelod arall. Mae'r Bwrdd wedi penodi un o'i aelodau fel Is-gadeirydd. Yn ystod 2017/18 roedd 12 aelod o'r Bwrdd.

Mae gan bob gwlad bwyllgor sy'n gyfrifol am y rhaglenni ariannu yn ei wlad; mae'r Bwrdd wedi penodi pwyllgor ar gyfer ariannu Deyrnas Unedig gyfan hefyd.

Mae'r Bwrdd yn pennu Fframwaith Strategol y Gronfa ac mae'r pwyllgorau'n gweithio o fewn y fframwaith hwn, wedi dirprwyo awdurdod i bennu'r rhaglenni ariannu yn eu gwledydd (neu ar gyfer y portffolio ariannu Deyrnas Unedig). Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau am grantiau, neu'n cytuno ar y trefniadau dirprwyedig ar gyfer gwneud nhw, o fewn y rhaglenni hyn.

Mae'r Bwrdd wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n cwrdd pob chwarter i roi cyngor ar faterion adrodd ariannol, archwilio a sicrwydd a rheoli risg. Hefyd, mae wedi penodi Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i ddelio gyda'r materion a ddisgrifir yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cwrdd bob blwyddyn fel arfer. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'r Pwyllgor yn tybio y mae angen eu dwyn at eu sylw, ac i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn darparu adroddiad llawn i'r Bwrdd ar ei waith unwaith y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am y rhaglenni ym mhob portffolio gwlad er mwyn iddo sicrhau bod eu prosesau gwneud grantiau'n cydymffurfio â'r Fframwaith Strategol a bod dysgu'n cael ei rannu.

Mae aelodaeth o'r holl bwyllgorau a phresenoldeb ynddynt wedi'i amlinellu yn y tabl ar ddiwedd yr adran hon o'r adroddiad.

Mae holl aelodau Bwrdd wedi'u penodi gan y Gweinidog dros yr adran noddi. Mae aelodau Pwyllgorau Gwlad yn cael eu penodi gan y Gronfa. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cymryd rhan yn llawn yn y penodiadau sy'n gysylltiedig â'u gwledydd ac mae'r holl aelodau Bwrdd a phwyllgor yn cael eu penodi yn sgil proses hysbysebu a dethol agored.

## Ansawdd data

Mae'r Bwrdd yn derbyn data perthnasol a rheolaidd gan systemau ar draws y Gronfa i ddarparu sicrwydd ar berfformiad, mesurau rheoli a risg. Mae wedi'i foddhau bod ansawdd a chywirdeb y data hwn yn briodol ar gyfer ei anghenion o ran asesu effeithiolrwydd y rhaglenni ariannu, y dull rheoli risg, perfformiad ariannol a gweithredu'r Gronfa a phriodoldeb mesurau rheoli mewnol. Mae'r systemau sy'n darparu'r wybodaeth hon wedi'u sicrhau trwy gael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio mewnol.

## Rheolaeth weithredol

Rwy'n arwain rheolaeth weithredol y Gronfa, wedi fy nghefnogi gan uwch Dîm Rheoli (UDRh) sydd â 10 aelod ar hyn o bryd.

Mae'r UDRh yn cwrdd yn rheolaidd a chynhelir cyfarfodydd ffurfiol dwywaith y mis fel arfer. Mae'r UDRh yn ystyried materion polisi, strategol a gweithredol allweddol, yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n gofyn am ei gymeradwyaeth ac yn goruchwylio perfformiad gweithredol ac ariannol a threfnau rheoli risg y Gronfa'n gyffredinol.

Mae aelodau'r UDRh a'u meysydd cyfrifoldeb wedi'u disgrifio ar ddiwedd yr adran hon o'r adroddiad.

Gadawodd un aelod o'r UDRh yn ystod y flwyddyn. Nid yw aelod newydd wedi'i benodi hyd yma, ac mae aelodau eraill o uwch dîm y Gronfa'n ymgymryd â'r cyfrifoldebau.

Mae strwythurau rheoli gweithredol priodol yn bodoli ar draws y mudiad i oruchwylio'r holl weithgareddau a'r prosiectau a rhaglenni sy'n cael eu gweithredu ar draws y Gronfa.

Yn ystod y flwyddyn ymwelais â swyddfeydd y Gronfa ar draws y Deyrnas Unedig i siarad â staff a rheolwyr am gynnydd wrth weithredu'r Fframwaith Strategol a materion eraill gan gynnwys gweithredu fframwaith cyflogaeth newydd. Rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd pwyllgorau gwlad, siarad â budd-ddeiliaid ar draws y Deyrnas Unedig a chwrdd â swyddogion Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Swyddfa'r Cabinet ac wedi mynychu Fforwm y Dosbarthwyr Loteri. Cefais fy ethol i Gadeiryddiaeth y Fforwm yn effeithiol o fis Ionawr 2018.

## Rheoli risg

Mae'r Gronfa'n gweithredu system rheoli risg gynhwysfawr, gyda chofrestr risgiau strategol yn cael ei hadolygu bob tri mis gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r UDRh yn adolygu ac yn ystyried risgiau allweddol bob mis. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau o leiaf bob blwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw hepgorion materol. Yn unol â chyngor ac arweiniad gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar lefelau goddefiant risg y Gronfa hefyd.

Mae cofrestrau risgiau'n cael eu cadw ar lefel cyfarwyddiaethau ac ar gyfer pob prosiect a rhaglen, ac maent yn cael eu hadolygu ar lefel uwch o leiaf bob tri mis. Mae system yn bodoli ar gyfer esgoli materion risg sylweddol i'r UDRh ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risg os bydd angen.

Mater allweddol i'r Gronfa yw cydnabod bod ein nod o helpu cymunedau ar draws y Deyrnas Unedig weithiau'n mynnu ein bod yn ariannu o dan amgylchiadau heriol ac yn cymryd risgiau o ran llwyddiant rhai prosiectau. Mae hyn yn gofyn am farn dda ar ran ein staff gwneud grantiau.

Gan weithio ar y cyd â'n tîm gweithredol, mae'r Bwrdd Archwilio a Risg wedi parhau i adolygu a datblygu ein dull o reoli risg yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod gennym agwedd briodol at risg. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cofrestr risgiau corfforaethol yn cysylltu'n agos â'n nodau ac uchelgeisiau strategol.

Mae ein system o fesurau rheoli, ynghyd â goruchwyliaeth gan dîm rheoli profiadol, wedi'i dylunio i reoli risg i lefel dderbyniol. Ni all ddileu pob risg o fethiant wrth geisio cyflawni ein nodau strategol, ac felly ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Mae rhaglen waith archwilio mewnol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'i chytuno gyda'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Dylunnir y rhaglen hon i roi sicrhad bod mesurau rheoli priodol wedi cael eu dylunio a'u bod yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â'r holl risgiau sylweddol y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu hwynebu. Yn ystod y flwyddyn, mae adroddiadau Archwilio Mewnol wedi ymdrin â nifer sylweddol o risgiau o fewn y meysydd risg allweddol a ganlyn; digidol a thechnoleg, dylunio sefydliadol a pholisïau Adnoddau Dynol, rhaglenni grant, ennyn diddordeb budd-ddeiliaid, diogelu data a mesurau rheoli ariannol.

Mae canfyddiadau adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu hystyried gennyf i, y cyfarwyddwyr perthnasol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Craffir unrhyw adroddiadau sy'n rhoi sicrwydd cyfyngedig o ran dyluniad mesurau rheoli neu eu heffeithiolrwydd gweithredol yn fanylach. Mae camau gweithredu'n cael eu cytuno gan reolwyr wrth ymateb i bob argymhelliad a wneir, ac adroddir am gynnydd yn erbyn y rhain i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cwblhawyd nifer o adolygiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wendidau sylweddol a allai beri i'r fframwaith rheoli fynd yn annigonol neu'n aneffeithiol.

Mae pob un o gyfarwyddwyr yr UDRh wedi darparu datganiad sicrwydd y maent yn gyfrifol amdano i mi. Gan alw ar y rhain a chanlyniadau adolygiadau archwilio mewnol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu adroddiad sicrwydd blynyddol ar fy nghyfer. Mae'r adroddiad sicrwydd yn asesu bod gan y Gronfa 'sicrwydd digonol' mewn perthynas â'i fframwaith llywodraethu, rheoli

risg a mesurau rheoli, safbwynt yr wyf yn cytuno ag ef ac mae'n ddymunol gweld nifer o archwiliadau mewnol yn cynnig sicrwydd sylweddol. Nododd yr adroddiad hefyd nad yw archwilio mewnol wedi adnabod unrhyw dor-reolau neu ddiffyg cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon y Gronfa neu unrhyw arweiniad arall a gyhoeddir gan Drysorlys EM neu DCMS.

Cyflawnir archwiliad allanol yr Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon hyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ymdrinnir â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad allanol yn yr un modd â'r rhai o archwilio mewnol ac maent yn cael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r Gronfa'n wynebu nifer o risgiau sy'n benodol i'w gweithgareddau ac sy'n ffocws adroddiadau rheoli risg a sicrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Risg Llif Arian**
Mae'r Gronfa'n gwneud ymrwymiadau dyfarnu ar sail bodloni rhwymedigaethau sy'n deillio o dderbynebau'r Loteri Genedlaethol yn y dyfodol. Rydym yn rheoli'r risg o anghysondebau mewn incwm trwy ragolygon arian parod cadarn. Cynyddodd incwm ychydig yn 2017/18 yn dilyn gostyngiad sylweddol yn 2016/17 ac nid ydym yn rhagweld unrhyw welliant materol pellach yn 2018/19. Mae rheoli rhwymedigaethau'r dyfodol a llif arian o dan yr amgylchiadau hyn yn faes sy'n derbyn sylw manwl.

**Twyll**
Mae'n anochel bod natur gwaith y Gronfa'n ein gadael yn agored i'r risg o dwyll. Daw'r cyfryw risg fwyaf gan ymosodiadau troseddol cydlynol ar ein system grantiau bach trwy ymgeisiau i gyflwyno ceisiadau twyllodrus. Mae risgiau eraill yn cynnwys camddefnyddio symiau mewn prosiectau sydd wedi cael eu hariannu. Mae gennym dîm ymchwiliadau sy'n cefnogi ein staff ariannu wrth gyflawni asesiadau risg, ac yn prosesu pob achos o dwyll a ddrwgdybir neu ddrygioni arall. Mae mesurau rheoli twyll eraill yn cynnwys: polisi clir ar dwyll; polisi datgelu camarfer ynghyd â ffordd i'r cyhoedd gyfeirio pryderon yn uniongyrchol i'n tîm archwilio ac ymchwiliadau; trefniadau adrodd clir ar gyfer twyll a ddrwgdybir, gyda thwyll materol neu ymgeisiau i gyflawni twyll yn cael eu hadrodd i mi, y Pwyllgor Archwilio a Risg a DCMS; a chydweithio agos gyda'r Heddlu, y Comisiwn Elusennau ac asiantaethau eraill. Mae'r Gronfa'n ymwneud yn agos â mentrau gwrth-dwyll traws-lywodraethol. Mae nifer a gwerth yr anghysondebau a ddrwgdybir yn cael ei fonitro yn yr holl gyfarfodydd Archwilio a Risg.

**Risg Seiber**

Mae'r Gronfa'n wynebu risgiau o ymosodiad allanol maleisus ar ei systemau TG sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o fudiadau. Rydym wedi gwneud gwaith sylweddol i adnewyddu ein seilwaith technegol dros y 2 flynedd ddiwethaf i liniaru'r risgiau hyn ac i ddiweddaru systemau sy'n heneiddio. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, rydym yn dilyn cyngor allanol pan fo'n briodol ac yn profi ein mesurau amddiffyn yn rheolaidd. Rydym wedi cael ein diogelu i ryw raddau gan i ni ryngweithio ychydig iawn ar-lein â chwsmeriaid. Daw datblygu datrysiadau digidol â ffocws mwy pendant i waith yn y maes hwn.

**System rheoli ariannu (FMS)**
Cyflwynwyd FMS (system fusnes sy'n cefnogi ein proses ddyfarniadau) yn 2013/14 a bu'n achos rhywfaint o ansefydlogrwydd gweithredol, yr ymdriniwyd ag ef ers hynny.

Rydym wedi parhau i asesu ei pherfformiad, yn benodol yng ngoleuni gofynion y Fframwaith Strategol. Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n rhoi cefnogaeth lawn i'r dulliau gweithio y mae eu hangen arnom i gyflwyno'r egwyddorion allweddol a ddisgrifir yn y Fframwaith Strategol ac yn fwy penodol y dulliau gweithio ac uchelgeisiau a ddisgrifir yn y strategaeth gwneud grantiau. Yn ystod 2015/16 fe wnaethom addasiad gwerth gostyngol o £9.5m ac yn 2016/17 fe wnaethom addasiad i'w bywyd economaidd defnyddiol sy'n weddill. Rydym wedi addasu ein polisi cyfrifyddu i amlinellu'r angen am asesu bywyd defnyddiol yr holl asedau'n rheolaidd hefyd. Rydym wedi adolygu ein hasesiad o FMS ac wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw addasiad gwerth gostyngol pellach eleni, nac unrhyw addasiad o'i bywyd defnyddiol. Mae'r Gronfa'n adolygu ei hopsiynau o ran y camau nesaf mewn systemau ac offer sy'n cefnogi prosesau rheoli grant allweddol.

**Risg targed costau gweithredu**
Mae'r llywodraeth yn mynnu ein bod yn gweithredu o fewn trothwy costau 8 y cant o'n hincwm gan y Loteri a chyllidebwyd i gyflawni hyn yn 2017/18. Cwrddom â'r targed hwn ar gyfer y flwyddyn er gwaetha'r ffaith bod incwm y Loteri wedi parhau o dan y lefelau a fu 2 flynedd yn ôl. Rydym yn parhau i chwilio am fesurau effeithlonrwydd a chafwyd ailstrwythuro pellach ar draws y Gronfa yn ystod y flwyddyn a ddyluniwyd i wella gwasanaethau a chyflwyno arbedion. Mae'r gyllideb ar gyfer 2018/19 wedi'i phennu i barhau i weithredu o fewn y trothwy 8 y cant. O 2018/19 ymlaen mae'r asesiad ar gyfer y mesur hwn yn newid i sail dreigl 3 blynedd. Mae hyn yn galluogi ni i reoli newidiadau tymor byr mewn incwm a rheoli costau buddsoddi'n fwy effeithiol.

**Risg i'n Henw Da**
Mae gweithgareddau'r Gronfa a'r prosiectau a mudiadau y mae'n eu hariannu ynghyd â'i statws fel corff cyhoeddus yn dod â risgiau penodol at ein henw da os bydd ein gweithredoedd ni neu rai ein deiliaid grant yn arwain at faterion sydd o bryder i'r cyhoedd. Rydym yn cydweithio'n agos â'n budd-ddeiliaid i fonitro dyfarniadau risg uwch yn ofalus ac yn adnabod yn gyflym y cyfryw faterion a allai godi.

**Risgiau Cyfrifon Segur**
Bydd incwm yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer dyfarniadau o dan y trefniadau cyfrifon banc segur dros y ddwy flynedd nesaf a bydd y Gronfa'n chwarae rôl fwy sylweddol yn ei ddosbarthiad mewn perthynas â'r gyfran a ddyrennir i Loegr. Mae'r Gronfa'n wynebu rhai risgiau ychwanegol mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn wrth i raglenni newydd gael eu dylunio a'u cyflwyno, o bosib gan ddefnyddio rhai dulliau blaengar ar gyfer ariannu'r themâu a ddisgrifir yn y Ddeddf ac o dan y cyfarwyddiadau polisi a roddir i'r Gronfa gan DCMS.

**Diogelu mewn elusennau a mudiadau cymunedol eraill**
Mae nifer o faterion wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â diogelu yn ystod y flwyddyn yn y sector yr ydym yn ei gefnogi gan gynnwys mewn perthynas â mudiadau rydym wedi'u hariannu. Mae'r Gronfa wedi ymateb i'r materion hyn ac yn adolygu ei dull diogelu ei hun yn ogystal â sut rydym yn ceisio sicrwydd gan ymgeiswyr a deiliaid grant.

## Effeithiolrwydd llywodraethu anweithredol

Datblygwyd y trefniadau llywodraethu yn dilyn adolygiad annibynnol yn 2010. Fe'u dyluniwyd i alluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar oruchwyliaeth strategol o'r mudiad. Comisiynodd y Bwrdd adolygiad pellach yn ystod 2016/17. Mae'r argymhellion o hynny wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r newidiadau allweddol wedi galluogi aelodau Bwrdd i wahanu materion strategaeth i'w trafod yn fras oddi wrth adolygu ac asesu materion mwy gweithredol.

Mae strwythur ac aelodaeth y Bwrdd wedi'u disgrifio yn Nedd y Loteri Genedlaethol 2006 a sefydlodd y Gronfa Loteri Fawr. Penodir aelodau Bwrdd gan DCMS mewn ymgynghoriad â'r weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol pan fo'n briodol. Mae rôl y Bwrdd a'i aelodau'n ymwneud ag ystod lawn o weithgareddau'r Gronfa gan gynnwys ariannu cyfrifon segur a grantiau Trydydd Parti.

Mae materion rhaglenni ariannu o fewn paramedrau strategol a bennir gan y Bwrdd wedi'u datganoli'n llawn i'r pum pwyllgor portffolio. Cynrychiolir pob portffolio ar y Bwrdd gan ei gadeirydd.

Mae'r Bwrdd wedi cydio yn y materion strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Gronfa ac wedi ymwneud yn weithredol â phennu'r cyfeiriad a chytuno ar

y Fframwaith Strategol newydd. Mae wedi'i foddhau ei fod yn derbyn digon o wybodaeth gywir i fod yn hyderus am effeithiolrwydd y rhaglenni ariannu, ac am berfformiad ariannol a gweithredol y mudiad, gan gynnwys rheoli risg. Mae pob portffolio gwlad yn adrodd ei berfformiad i'r Bwrdd bob blwyddyn.

Mae'r Gronfa'n cymhwyso arweiniad Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet mewn Llywodraethu Corfforaethol adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau ei fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus anadrannol. Rwyf wedi fy modloni bod yr egwyddorion yn yr arweiniad, ynghyd â ffynonellau arweiniad eraill ar arfer da mewn llywodraethu corfforaethol wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn nhrefniadau llywodraethu'r Gronfa.

## Adolygiad Teirblwydd

Ym mis Mehefin 2014, croesawodd y Bwrdd ganfyddiadau'r Adolygiad teirblwydd a gyflawnwyd gan Swyddfa'r Cabinet, a fu'n cydnabod y Gronfa fel mudiad pwysig ac uchel ei barch, a gwneud nifer o argymhellion defnyddiol a phwyllog.

Cafwyd 28 o argymhellion yn yr adolygiad, yr oedd nifer bach ohonynt yn ymwneud yn benodol â Swyddfa'r Cabinet fel ein hadran noddi ar y pryd. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth weithredu'r argymhellion a adnabuwyd yn yr adolygiad ac wedi cymryd camau mewn perthynas â'r holl argymhellion sydd o fewn ein rheolaeth. Mae llawer o'r cynigion wedi'u hymwreiddio yn natblygiad y Fframwaith Strategol a'r gwaith a gyflawnwyd ers hynny wrth weithredu cynigion a phrosiectau i gefnogi hynny.

Mae enghreifftiau o'r argymhellion a'r camau a gymerwyd yn cynnwys y canlynol:

- Bydd y Gronfa'n disgrifio sut yr aiff yn ddigidol yn ddiofyn a sut y bydd hyn y arwain at arbedion
  Rydym wedi cwrdd â'n DPA ar gyfer ailddatblygu tudalennau gwe. Rydym hefyd wedi lansio'r porth ymgeisio am grantiau bychain ar-lein. Rydym wedi sefydlu swyddogaeth dylunio gwasanaeth i bennu'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol, y bydd gan lawer ohonynt ffocws digidol. Mae'r broses ymgeisio ar-lein yn cyflwyno arbedion prosesu sylweddol sydd ond yn debygol o gynyddu wrth i'r broses gael ei chyflwyno'n ehangach.
- Bydd y Gronfa'n disgrifio sut y bydd yn bodloni arweiniad defnyddio gofod eiddo'r llywodraeth a mabwysiadu dulliau gweithio mwy hyblyg
  Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol iawn i'n portffolio eiddo. Rydym wedi adleoli ein swyddfa yn Yr Alban i ofod sy'n sylweddol lai; rydym wedi ail-gontractio ein heiddo yn Birmingham gan leihau'r gofod a ddelir 40%; rydym wedi is-osod gofod yn ein swyddfa yn Llundain. Rydym wedi adleoli ein hybiau rhanbarthol ym Manceinion a Leeds.
  Mae ein timau'n gweithio'n fwy hyblyg. Mae ein strategaeth gwneud grantiau'n ceisio lleoli timau allweddol yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Nid gweithwyr o gartref mo'r rhain ond maent yn defnyddio ein gofodau swyddfa sefydlog yn anaml, sydd wedi'n helpu gostwng ein gofod/CaALl mewn hybiau rhanbarthol yn benodol. Rydym bellach wedi mabwysiadu trefniadau gweithio desg wib i ryw raddau yn y mwyafrif o'n lleoliadau.
- Bydd y Gronfa'n ailasesu ei phroses ymgeisio i sicrhau ei bod yn gymesur ar gyfer grwpiau bach ac ymgeiswyr newydd. Rydym wedi symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer grantiau bychain, mae'r ffurflen gais yn sylweddol fyrrach ni waeth p'un a yw'n gais digidol neu ar bapur; rydym wedi lansio'r porth ymgeisio am grantiau bychain ar-lein; ail-lansiodd y rhaglen Reaching Communities allweddol yn Lloegr ym mis Ebrill 2018.

Daeth y cyfnod adolygu tair blynedd i ben ym mis Mehefin 2017, bryd hynny roedd nifer bach o weithredoedd ar waith o hyd. Rydym wedi cyflwyno ein hadolygiad o'n perfformiad yn erbyn yr argymhellion i DCMS.



## Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad

Mae gan y Gronfa system cynllunio corfforaethol a ddylunnir i adnabod blaenoriaethau a chynlluniau ym mhob cyfnod ac i weithredu fel canllaw ar gyfer cyflwyno'r strategaeth a gymeradwyir gan y Bwrdd. Mae cynlluniau Cyfarwyddiaethau'n cael eu datblygu ar draws y Gronfa, ac yn bwydo i mewn i'r cynllun corfforaethol cyffredinol ac amcanion personol staff.

Roedd cynllun corfforaethol 2017/18 yn cynnwys un dangosydd perfformiad allweddol (DPA) ariannol ac wyth anariannol. Cafodd y rhain eu monitro'n agos ac adroddwyd amdanynt i'r UDRh bob mis ac i'r Bwrdd bob tri mis, gyda chamau cywiro'n cael eu cytuno pryd bynnag y bu angen.

Adroddir ar ein perfformiad yn erbyn y DPA hyn yn adran Adroddiad Perfformiad y ddogfen hon. Cwrddom â'r holl dargedau DPA ar gyfer y flwyddyn.

Coladir a dadansoddir gwybodaeth reoli allweddol (KMI) ychwanegol ar gyfer yr UDRh trwy gydol y flwyddyn mewn panel rheoli perfformiad. Mae hyn yn cyflwyno data ar y fath faterion ag ystadegau cyflogaeth, gwasanaethau gwneud grantiau a materion ariannol eraill fel ein balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

## Cyfrifon segur

Mae'r Gronfa wedi sefydlu prosesau llywodraethu gwell ar gyfer rheoli'r ffrwd ariannu Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur wrth ymateb i lefelau gweithgarwch cynyddol a ddisgwylir yn y cyfnod nesaf. Rydym wedi gweithio gyda DCMS i roi strwythurau adrodd ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar yr ystod o weithgareddau gwneud grantiau'n cael eu dylunio a'u cyflwyno'n briodol a bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gronfa'n effeithiol yn y maes hwn a'u bod yn cefnogi'r cynllun Cyfrifon Banc Segur cyffredinol yn briodol. Mae'r gwaith o gyflwyno gweithgareddau cyfrifon segur yn ffurfio rhan o'n dull llywodraethu sefydliadol cyffredinol ar draws y mudiad ac felly mae rolau'r Bwrdd, Pwyllgor Archwilio a Risg, Archwilio Mewnol a Swyddog Cyfrifyddu'n ymestyn i gynnwys y gweithgareddau hyn ochr yn ochr â'r rhai sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau a ariennir gan y Loteri.

## Ariannu trydydd parti

Mae'r Bwrdd yn ymwneud yn weithredol â phenderfyniadau am waith trydydd parti; gan ystyried a yw, neu a allai fod, yn briodol i'r Gronfa ymgymryd ag ef ac yn gweddu i'n strategaeth ariannu trydydd parti a'r egwyddorion yn y Fframwaith Strategol. Rydym yn cymhwyso fframwaith risgiau a rheoli i bob cyfle yn unol â'r dasg a bennir gan y cleient, gan sicrhau nad oes unrhyw risg y bydd arian Loteri'n cael ei roi mewn perygl neu y bydd gwaith nad yw'n ymwneud â'r Loteri'n cael ei groes-gymorthdalu o adnoddau Loteri. Rydym yn adolygu gweithgareddau a chyfleoedd yn rheolaidd i adnabod dysgu yn sgil cyflwyno gweithgareddau trydydd parti.

## Trefniadau dirprwyedig ac ymddiriedolaeth

Mae'r Gronfa'n dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i fudiadau eraill, fel a ddisgrifir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Cyflawnir gwaith diwydrwydd dyladwy cymesur ar lywodraethu a systemau partneriaid dyfarnu arfaethedig cyn dyfarnu grantiau. Mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n weithredol ac mae trefniadau archwilio mewnol ac allanol priodol yn cael eu cymhwyso hefyd.

Mae'r Gronfa hefyd yn gwneud dyfarniadau fel gwaddolion i ymddiriedolaethau, a grëir yn benodol fel arfer at ddiben y dyfarniad, er enghraifft sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Power to Change yn 2014/15 i gefnogi mentrau cymunedol ar draws Lloegr, o ysbrydoli a meithrin syniadau a helpu cymunedau i gynyddu graddfa ac ehangu eu busnesau.

Yn ogystal â gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy tebyg cyn y dyfarniad, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn penodi amddiffynnwr annibynnol yn y mwyafrif o achosion sydd â phwerau i sicrhau bod y gwaddol yn cael ei gymhwyso'n briodol yn unol â bwriad y Gronfa Loteri Fawr.

## Ein polisi ac arfer talu

Yn unol â'r canllaw Arfer Taliadau Gwell, rydym yn anelu at dalu ein holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod o dderbyn anfoneb, oni bai bod amodau a thelerau eraill wedi eu cyd-drafod. Yn 2017/18, talwyd 90 y cant (86 y cant yn 2016/17) o'r holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl i ni dderbyn anfoneb.

Roedd canran y cyflenwyr a dalwyd o fewn 10 niwrnod o dan her talu'n brydlon y Llywodraeth yn 63 y cant yn ystod 2017/18 (58 y cant yn 2016/17).

Roedd ein cyfanswm diwrnodau credydwyr (cyfanswm gwerth ein credydwyr ar 31 Mawrth 2018 wedi'i rannu â'r cyfanswm taliadau credydwyr yn ystod 2017/18, wedi'i fynegi mewn diwrnodau) yn 14 diwrnod (21 diwrnod yn 2016/17).

## Ansawdd data a diogelu data

Rydym yn trin ein rhwymedigaethau diogelu gwybodaeth fel mater o'r bwys pennaf ac, o dan weithdrefnau craffu a chynghori'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, aseswn ddigonolrwydd ein mesurau diogelu gwybodaeth yn rheolaidd.

Ni chafwyd unrhyw golledion data personol y gellir adrodd amdanynt yn ystod 2017/18.

Daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol i rym ym mis Mai 2018. Ymdrinnir â llawer o weithgarwch y Gronfa mewn perthynas â chywain data personol gan ein gweithgareddau statudol ond mae'r rheoliad yn gwbl berthnasol i'r Gronfa. Rydym wedi sefydlu tîm prosiect i ymdrin ag unrhyw faterion angenrheidiol i wella'n dull o gywain, storio a gwaredu data personol er mwyn sicrhau y gallwn gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Er bod y prosiect yn parhau i ddatblygu ein dull, aseswn fod gennym fesurau rheoli sy'n briodol i'r rheoliad newydd a chamau gweithredu pellach mewn lle i liniaru meysydd risg sy'n weddill.

## Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheoli mewnol

Yn fy marn i ac wedi'i chefnogi gan adroddiad sicrwydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, mae systemau llywodraethu a rheoli mewnol y Gronfa Loteri Fawr yn ddigon i'm galluogi fi i sicrhau cydymffurfiad y Gronfa Loteri Fawr â Deddfau'r Loteri Genedlaethol, y Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur a'r cyfarwyddiadau polisi, ariannol a chyfrifyddu a gyhoeddir oddi tanynt.

Dawn Austwick
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
4 Gorffennaf 2018



## Aelodaeth, presenoldeb mewn cyfarfodydd a thâl cydnabyddiaeth y Bwrdd a phwyllgorau yn ystod y flwyddyn

### Aelodau'r Bwrdd Deyrnas Unedig

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| Peter Ainsworth | Cadeirydd, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | 40,000 | 40,000 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth | 1/1 | - | - |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig | 4/4 | - | - |
| Tony Burton CBE | Is-gadeirydd, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | 15,696 | 12,208 |
| | Cadeirydd, Archwilio a Risg | 4/4 | - | - |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth | 1/1 | - | - |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig | 4/4 | - | - |
| Astrid Bonfield CBE | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 3/4 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig | 2/4 | - | - |
| Natalie Campbell | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 3/4 | 7,848 | 7,848 |
| Perdita Fraser | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | - | - |
| Julie Harrison | Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (o 1 Ionawr 2017) | 5/5 | 24,000 | 6,000 |
| | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig (o 1 Ionawr 2017) | 4/4 | - | - |
| Frank Hewitt | Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (tan 30 Tachwedd 2016) | - | - | 16,000 |
| | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig (tan 30 Tachwedd 2016) | - | - | - |
| David Isaac CBE | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth | 1/1 | - | - |
| Maureen McGinn | Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban | 9/9 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | - | - |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig | 5/5 | - | - |
| Elizabeth Passey | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | 7,848 | 7,848 |

### Aelodau'r Bwrdd Deyrnas Unedig

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| Rachael Robathan | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 3/4 | 7,848 | 7,848 |
| Nat Sloane CBE | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr | 6/6 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | - | - |
| Sir Adrian Webb | Cadeirydd, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Bwrdd Deyrnas Unedig | 4/4 | - | - |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 3/4 | - | - |

### Aelodau eraill

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| **Pwyllgor Lloegr** | | | | |
| Geeta Gopalan | Is-gadeirydd, Pwyllgor Lloegr | 5/6 | 8,060 | 8,698 |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a risg (tan 30 Mehefin 2017) | 0/1 | - | - |
| Scott Greenhalgh | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 31 Rhagfyr 2016) | - | - | 5,886 |
| Charlie Howard | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 3/6 | 9,384 | 10,000 |
| Margaret Jones | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 5/6 | 7,848 | 7,848 |
| Tarn Lamb | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 6/6 | 10,000 | 10,000 |
| Kevin Bone | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 20 Ionawr 2018) | 1/1 | 654 | - |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig (o 20 Ionawr 2018) | 1/1 | - | - |
| Jane Robinson | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 4/6 | 8,333 | 10,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig (tan 31 Ionawr 2018) | 2/3 | - | - |
| John Mothersole | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 20 Ionawr 2018) | 1/1 | 654 | - |
| **Pwyllgor Yr Alban** | | | | |
| Grant Carson | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 9/9 | 5,232 | 5,232 |



### Aelodau eraill

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| Stella Everingham | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 7/9 | 5,232 | 5,232 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig (o 19 Gorffennaf 2017) | 3/4 | - | - |
| Iain Gordon | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 6/9 | 5,232 | 5,232 |
| Shalani Raghavan | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 8 Mawrth 2018) | 8/8 | 4,796 | 5,232 |
| Lindsay Graham | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 12 Mawrth 2018) | 1/1 | 436 | - |
| Aaliya Seyal | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 12 Mawrth 2018) | 1/1 | 436 | - |
| Martin Johnstone | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 12 Mawrth 2018) | 0/1 | - | - |
| Deirdre Robertson | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 8 Mawrth 2018) | 4/8 | 4,796 | 5,232 |
| John Watt | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 8 Mawrth 2018) | 8/8 | 4,796 | 5,232 |
| **Pwyllgor Cymru** | | | | |
| Rona Aldrich | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5,232 | 5,232 |
| Sian Callaghan | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5,232 | 5,232 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig | 4/4 | - | - |
| Simon Jones | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 1 Mehefin 2017) | - | - | 5,232 |
| Rob Pickford OBE | Aelod, Pwyllgor Cymru | 3/4 | 5,232 | 5,232 |
| Gaynor Richards | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 1 Awst 2017) | 0/1 | 2,180 | 5,232 |
| Rita Singh | Aelod, Pwyllgor Cymru (tan 31 Ionawr 2018) | 3/3 | 4,360 | 5,232 |
| Helen Wilkinson | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 1 Chwefror 2018) | 1/1 | 436 | - |
| Nicola Russell-Brooks | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 1 Chwefror 2018) | 1/1 | 872 | - |
| **Pwyllgor Gogledd Iwerddon** | | | | |
| Dr Michael Dobbins | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 4/5 | 5,232 | 5,232 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu Deyrnas Unedig | 2/4 | - | - |

**Aelodau eraill**

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2017/18 | Tâl cydnabyddiaeth 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| **Tony Doherty** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 3/5 | 5,232 | 5,232 |
| **Charles Mack** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 4/5 | 5,232 | 5,232 |
| **Sandra MacNamee** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 5/5 | 5,232 | 5,232 |
| **Eileen Mullan** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 5/5 | 5,232 | 5,232 |
| **Pwyllgor Archwilio a Risg** | | | | |
| **Linda Farrant** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 30 Mehefin 2017) | 1/1 | 436 | 1,744 |
| **Ruth Marchington** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 1 Gorffennaf 2017) | 3/3 | 1,308 | - |
| **Charlotte Moar** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 1 Gorffennaf 2017) | 3/3 | 1,308 | - |

## Cofrestr buddiannau

Mae'n rhaid i holl aelodau ein Bwrdd a'n Pwyllgorau, ein haseswyr, ein hymgynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghorol, a'n staff, ddatgan buddiannau perthnasol o dan ein côd moeseg. Mae'r côd hwn yn cydymffurfio â chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae buddiannau sydd wedi'u datgan gan aelodau Bwrdd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Mae manylion y cyfryw fuddiannau ar gyfer yr holl aelodau pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau ar gael trwy ysgrifennu at y Pennaeth Llywodraethu.

Os yw'r Bwrdd neu bwyllgor yn ystyried unrhyw faterion y gellir tybio'n rhesymol eu bod yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran penderfyniadau ar grantiau i fudiadau ond hefyd unrhyw berthnasoedd masnachol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod y datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod yn gadael pan drafodir yr eitem berthnasol.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi manylion y dyfarniadau a wnaed i fudiadau y mae aelodau'r Bwrdd neu bwyllgorau gwlad wedi datgan buddiant ynddynt o fewn y flwyddyn ariannol bresennol neu pan ddatgelir buddiannau eraill o ran mudiadau a ariannwyd.



| Enw | Enw'r Mudiad | Natur y berthynas | Dyfarniadau a wnaed yn 2016/17 Nifer | Dyfarniadau a wnaed yn 2016/17 £ | Tynnu'n ôl o'r penderfyniad[1] | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2017 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aaliya Seyal** | Parent Network Scotland | Aelod Bwrdd | 1 | 9,620 | Dd/B | - |
| | Fresh Start NL | Aelod Bwrdd | 1 | 9,590 | Dd/B | - |
| **Adrian Webb** | ACE Caerdydd | Cyswllt Perthynas Agos | 1 | 10,000 | Dd/B | - |
| | Cyngor Sgowtiaid Ardal Morgannwg Ganol | Cyswllt Perthynas Agos | 1 | 8,972 | Dd/B | - |
| | Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru | Cadeirydd | 1 | 5,000 | Dd/B | - |
| | Prifysgol De Cymru | Athro Emeritws | 1 | 6,754 | Dd/B | - |
| **David Isaac** | 14-18 Now | Aelod Bwrdd | 1 | 300,000 | Dd/B | 100,000 |
| | Stonewall | Cadeirydd | 1 | 7,870 | Dd/B | - |
| **Eileen Mullan** | Age NI | Cadeirydd | 1 | 49,999 | Dd/B | 86,288 |
| **Gaynor Richards** | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot Cyf | Cyfarwyddwr | 1 | 393,792 | Ydy | 326,328 |
| **Geeta Gopalan** | Beyond Youth CIC | Mentor | 1 | 9,890 | Dd/B | 9,890 |
| | Virgin Money Holdings (UK) Plc | Aelod Bwrdd | - | - | Dd/B | 450,000 |
| **Grant Carson** | Glasgow Disability Alliance | Cyswllt â mudiad cysylltiedig | 1 | 500,000 | Ydy | 333,333 |
| **Helen Wilkinson** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Cyflogai | - | - | Dd/B | 187 |
| **Iain Gordon** | Scottish Council for Voluntary Organisations | Aelod & Cyflogai | - | - | Dd/B | 125,000 |
| | Parkhead Housing Association Limited | Cyswllt â mudiad cysylltiedig | 2 | 409,110 | Ydy | 400,000 |
| **John McDonald** | Perth & Kinross Association of Voluntary Service | Aelod Bwrdd | 1 | 10,000 | Dd/B | 320,142 |
| | Pain Association Scotland | Cyswllt Perthynas Agos | - | - | Dd/B | 21,446 |
| **Lindsay Graham** | TLG The Education Charity | Noddwr | - | - | Dd/B | 40,478 |
| | The Mayor's Fund for London | Ymgynghorydd | 1 | 175,000 | Dd/B | 156,250 |

| Enw | Enw'r Mudiad | Natur y berthynas | Dyfarniadau a wnaed yn 2016/17 Nifer | Dyfarniadau a wnaed yn 2016/17 £ | Tynnu'n ôl o'r pend-erfyniad[1] | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2017 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maggie Jones** | Foundation | Prif Weithredwr | – | – | Dd/B | 49,712 |
| | The Youth Association | Cadeirydd | – | – | Dd/B | 168,255 |
| | PossAbilities C.I.C | Cyfarwyddwr | 1 | 10,000 | Dd/B | 76,050 |
| | The Coalfields Regeneration Trust | Cyswllt Perthynas Agos | – | – | Dd/B | 38,294 |
| | Womens Health Matters | Cyswllt Perthynas Agos | – | – | Dd/B | 192,387 |
| | Your Consortium Limited | Cyswllt â mudiad cysylltiedig | – | – | Dd/B | 4,415,141 |
| **Martin Johnstone** | theGKexperience SCIO | Cadeirydd ac Ymddiriedolwr | 1 | 10,000 | Dd/B | – |
| | Wevolution | Ymgynghorydd | 1 | 450,000 | Dd/B | 300,000 |
| | Home-Start Glasgow South | Cyflogai | 2 | 639,328 | Dd/B | 623,039 |
| **Maureen McGinn** | Broomhouse Centre | Cyswllt Perthynas Agos | 1 | 8,882 | Dd/B | 1,255,998 |
| | Clore Social Leadership | Cyswllt Perthynas Agos | 1 | 498,744 | Dd/B | 364,459 |
| | Evaluation Support Scotland | Aelod Bwrdd | 1 | 299,708 | Dd/B | 284,715 |
| | Paul Hamlyn Foundation | Ymgynghorydd | 2 | 2,000,000 | Dd/B | 1,950,000 |
| **Michael Dobbins** | Liberty Consortium | Cadeirydd | – | – | Dd/B | 340,354 |
| **Nat Sloane** | Catch 22 Charity Limited | Cadeirydd | 1 | 447,934 | Dd/B | 447,934 |
| | Social Finance Limited | Aelod | 1 | 2,025,000 | Dd/B | 1,820,000 |
| **Natalie Campbell** | UNLTD – The Foundation for Social Entrepreneurs | Ymddiriedolwr | 1 | 283,500 | Dd/B | 298,083 |
| **Perdita Fraser** | Ashoka UK | Ymgynghorydd | – | – | Dd/B | 12,536 |
| **Rob Pickford** | Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar | Aelod | – | – | Dd/B | 399,341 |
| | Headway Cardiff and South East Wales Limited | Cyswllt Perthynas Agos | – | – | Dd/B | 32,435 |
| **Sandra McNamee** | Northern Ireland Women's Aid Federation | Ymgynghorydd | 1 | 10,000 | Dd/B | – |
| | Women's Aid ABCLN | Ymgynghorydd | – | – | Dd/B | 816,883 |
| | Gap Project, Greenlight Gateway | Ymgynghorydd | – | – | Dd/B | 37,112,689 |
| **Shalani Raghavan** | Neighbourhood Networks in Scotland Limited | Ymddiriedolwr | 1 | 92,500 | Dd/B | 92,500 |
| **Sian Callaghan** | Cymdeithas Tai Cadwyn Cyfyngedig | Cyfranddeiliad | 1 | 3,100 | Dd/B | 3,242 |
| | Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar | Cyswllt Perthynas Agos | – | – | Dd/B | 399,341 |
| **Simon Jones** | Cadwch Gymru'n Daclus | Cyswllt Perthynas Agos | 1 | 7,252 | Dd/B | 7,252 |
| | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Aelod Bwrdd | – | – | Dd/B | 187 |
| **Stella Everingham** | Children 1st | Aelod Bwrdd | 1 | 10,000 | Dd/B | – |
| | Children in Scotland Ltd | Ymgynghorydd | – | – | Dd/B | 190,691 |
| **Tarn Lamb** | The Learning Partnership for Cornwall and the Isles of Scilly Limited | Cyfarwyddwr | – | – | Dd/B | 511,322 |
| | Design Council | Ymgynghorydd | – | – | Dd/B | 1,828,297 |
| **Tony Burton** | Renaisi Limited | Ymgynghorydd | 1 | 10,000 | Dd/B | 653,014 |
| | The Conservation Volunteers | Ymddiriedolwr | 2 | 1,056,512 | Dd/B | 847,551 |
| | Wandle Valley Regional Park Trust | Ymddiriedolwr | 1 | 9,993 | Dd/B | – |

Nodiadau: 1. Pan gaiff ei gofnodi fel ddim yn berthnasol ("Dd/B") mae'r unigolyn wedi datgan cysylltiad â'r mudiad ond ni fu'n rhan o unrhyw benderfyniad mewn perthynas â grantiau cysylltiedig.

## Yr uwch dîm rheoli

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr

**Gemma Bull**
Cyfarwyddwr Datblygu Portffolio, Lloegr

**Martin Cawley**
Cyfarwyddwr, Yr Alban

**Joe Ferns**
Cyfarwyddwr Gwybodaeth a Phortffolio Deyrnas Unedig

**James Harcourt**
Cyfarwyddwr, Gwneud Grantiau Lloegr

**Ben Harrison**
Cyfarwyddwr Ymgysylltu

**Ian Hughes**
Cyfarwyddwr Cyllid

**Joanne McDowell**
Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon

**John Rose**
Cyfarwyddwr, Cymru

Mae'r canlynol yn aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ond yn adrodd i gyfarwyddwr a enwir uchod:

**Dianne Hughes**
Cyfarwyddwr AD

**Beth Lawton**
Cyfarwyddwr Technoleg (tan Rhagfyr 2017)


Silverline Memories

# Ein hadroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

**Llywodraethu**
Mae gan Bwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth y Bwrdd gyfrifoldeb i:

- gytuno ar amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a thâl cysylltiedig y Prif Weithredwr
- pennu tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr
- cymeradwyo arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig cyfarwyddwyr, a
- phenderfynu ar delerau diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr.

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol neu swyddogion eraill yn dod i gyfarfodydd ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.

Mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn amodol ar:

- gydymffurfio â'r arweiniad tâl a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet/Trysorlys EM sy'n berthnasol i dâl cydnabyddiaeth staff yn gyffredinol
- cymeradwyaeth gan DCMS o amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- cymeradwyaeth gan DCMS o unrhyw daliadau terfynu i'r Prif Weithredwr.

**Polisi tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol**
Mae ein polisi yn cynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi'r Gronfa Loteri Fawr i ddenu, cadw a symbylu unigolion hynod alluog sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r mudiad. Wrth wneud hyn, mae'r polisi'n ceisio darparu tâl cydnabyddiaeth teg ar gyfer cyfraniadau a chyfrifoldeb unigol, gan ddarparu elfen o dal ar sail perfformiad.

Mae Cyfarwyddwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn derbyn cyflog sylfaenol a thâl ar sail perfformiad (ac eithrio mewn perthynas ag un Cyfarwyddwr). Mae eu hamodau a thelerau cyflogaeth eraill yr un â chyflogeion eraill y Gronfa. Mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r holl gyfarwyddwyr ar gontractau parhaol (ac eithrio pan fônt yn destun trefniadau dros dro neu interim) yn amodol ar dri mis o rybudd. Telir unrhyw daliadau terfynu yn unol â chynllun iawndal y gwasanaeth sifil.

Pennir unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth; yn 2017/18 roedd hwn yn 1 y cant. Cymeradwyir unrhyw gynnydd blynyddol yng nghyflogau'r Cyfarwyddwyr eraill gan y Prif Weithredwr, gan adlewyrchu canlyniad dyfarniad tâl y staff yn gyffredinol. Mae'r Gronfa wedi cynnal adolygiad sylweddol o ddyluniad y mudiad a'i fframwaith cyflogaeth yn ystod y flwyddyn. Mae gan yr holl staff, gan gynnwys cyfarwyddwyr, broffiliau rôl newydd ac mae'r holl rolau wedi cael eu gwerthuso gan ddefnyddio methodolegau a ddefnyddir yn helaeth i ddilysu'r cyflogau priodol. O ganlyniad i hyn mae nifer o rolau ar draws y Gronfa wedi derbyn cynnydd mewn cyflog y tu allan i'r adolygiad tâl blynyddol ac mae tâl nifer o staff wedi'i diogelu pan cafodd rolau dâl uwch na'r hyn a aseswyd yn y gwerthusiad.

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i daliad ar sail perfformiad gwerth hyd at 12 y cant o'i chyflog sylfaenol. Mae gan y Cyfarwyddwyr eraill hawl i daliad gwerth hyd at 8 y cant o'i chyflog sylfaenol. Mae taliadau ar sail perfformiad yn anghyfunedig (hynny yw, nid ydynt yn cael eu hychwanegu at y cyflog sylfaenol, ac mae'n rhaid eu hennill eto bob blwyddyn). Nid ydynt wedi'u cynnwys mewn tâl pensiynadwy. Mae'r Prif Weithredwr wedi penderfynu rhoi elfennau tâl ar sail perfformiad ei thâl cydnabyddiaeth i elusen.

Nid oes unrhyw un o'r cyfarwyddwyr yn derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da. Ad-delir treuliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau i gyfarwyddwyr ar yr yn sail â holl gyflogeion eraill y Gronfa Loteri Fawr.

Gadawodd un aelod o'r Uwch Dîm Rheoli nad oedd yn gyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn. Nid oedd talid terfynu'n berthnasol.

Mae manylion cyflog sylfaenol, taliadau ar sail perfformiad a buddiannau pensiwn cyfarwyddwyr wedi'u hamlinellu yn y tabl ar dudalennau 84 i 86 . Gellir dod o hyd i fanylion eu treuliau ar y wefan: biglotteryfund.org.uk/welsh/management-expenses

**Swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol**
Penododd y Gronfa 21 o aelodau Bwrdd neu aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli y pennwyd bod ganddynt gyfrifoldeb ariannol sylweddol. Talwyd am yr holl benodiadau hyn trwy gyflogres y Gronfa.

**Lluosrifau tâl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)**
Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf yn eu mudiad (sef y Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth canolrif cyflogeion y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad A buddiannau mewn da; Mae'n eithrio taliadau terfynu. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Band cyfanswm cyflog plws dyfarniad perfformiad y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf eleni oedd £155,000 i £160,000 (2016/17 £155,000 i £160,000), cyflog canolrif cyflogeion y Gronfa Loteri Fawr oedd £28,000 (2016/17 £27,343). Mae cymhareb y sawl â'r tâl uchaf a'r canolrif wedi newid i 5.6:1 o 5.8:1 yn 2016/17. Yn 2017/18, doedd dim (2016/17 dim) cyflogeion a dderbyniodd tâl cydnabyddiaeth sy'n fwy na'r cyfarwyddwr â'r tâl uchaf. Mae'r ystod tâl cydnabyddiaeth yn amrywio o'r ystod £10,000 - £15,000 i'r ystod £155,000 - £160,000.

**Staff**
Dangosir manylion nifer y staff, eu cyfansoddiad ac unrhyw becynnau ymadael yn nodyn 7 y datganiadau ariannol.

**Cydraddoldeb mewn cyflogaeth**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio bod yn gyflogwr amrywiol a chynhwysol. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein staff yn adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu cefnogi'n briodol. Mae ein dull recriwtio'n sicrhau ein bod yn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr ac rydym yn defnyddio ffynonellau, cysylltiadau, asiantaethau a dulliau hysbysebu priodol i gefnogi hyn.

Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r holl staff i fwyafu eu gallu i ymgymryd â rolau dros y Gronfa. Rydym yn cefnogi ystod o gyfleoedd hyfforddi sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol, ac yn unigryw, i sgiliau y mae eu hangen i gyflawni'r rôl gan gynnwys datblygu arweinwyr a rheolwyr. Pan fydd staff yn datblygu problemau mynediad yn ystod eu cyflogaeth rydym yn ceisio sicrhau y gallant barhau i fodloni gofynion eu rôl gan gynnwys darparu cefnogaeth a hyfforddiant ychwanegol fel y bo angen. Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hadroddiad monitro cydraddoldeb ar gyfer 2017/18.

| Statws anabledd | Cronfa Loteri Fawr % | Gwasanaeth Sifil % | Poblogaeth Deyrnas Unedig sy'n weithgar yn economaidd % |
|---|---|---|---|
| Staff sydd wedi datgan anabledd | 6.5 | 4.0 | 13.0 |
| Staff nad ydynt wedi datgan anabledd | 93.5 | 96.0 | 87.0 |

| Rhyw | Cronfa Loteri Fawr % | Gwasanaeth Sifil % | Poblogaeth Deyrnas Unedig sy'n weithgar yn economaidd % |
|---|---|---|---|
| Benywaidd | 65.4 | 52.0 | 44.0 |
| Gwrywaidd | 34.6 | 48.0 | 56.0 |

| Gender | Bwrdd % | Cyfarwyddwr % | Uwch Staff y Gronfa % |
|---|---|---|---|
| Benywaidd | 65.0 | 33.0 | 61.0 |
| Gwrywaidd | 35.0 | 67.0 | 39.0 |

| Grŵp Ethnig | Cronfa Loteri Fawr % | Poblogaeth Deyrnas Unedig sy'n weithgar yn economaidd % |
|---|---|---|
| Asiaidd | 5.4 | 3.0 |
| Du | 4.1 | 1.4 |
| Tsieineaidd | - | 0.3 |
| Cymysg | 1.6 | 1.5 |
| Arall | 0.7 | 0.4 |
| Gwyn Arall | 7.2 | 3.4 |
| Gwyn Deyrnas Unedig | 79.8 | 90.0 |
| Dim Gwybodaeth | 0.5 | - |
| Ddim eisiau datgan | 0.7 | - |

**Absenoldeb salwch staff**
Rydym yn ymroddedig i iechyd a lles ein staff. Mae gan y Gronfa bolisi absenoldeb salwch staff cynhwysfawr ac mae'n gweithredu gweithgareddau lles a arweinir gan gyflogeion hefyd. Yn ystod 2017/18, y nifer cyfartalog o ddiwrnodau absenoldeb salwch oedd 8.4 diwrnod fesul cyflogai (9.1 diwrnod yn 2016/17).

**Cyfranogiad cyflogeion**
Mae gan y Gronfa Loteri Fawr berthynas adeiladol gyda'n hundebau cydnabyddedig ar y cyd, Prospect ac Unite, ac mae'n ceisio annog a dod o hyd i gyfleoedd cynnwys ac ymgynghori â chyflogeion. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cywain barn ei staff yn rheolaidd trwy ddeialog anffurfiol a thrwy arolygon cyswllt cyflogeion blynyddol ffurfiol.

**Iechyd a Diogelwch**
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn trin ei chyfrifoldebau dros Iechyd a Diogelwch ei staff, contractwyr a deiliaid grant fel mater o ddifrif. Rydym yn ceisio mabwysiadu arfer gorau wrth reoli ac adrodd ar risg. Mae newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio, gyda mwy o'n staff yn gweithio i ffwrdd o swyddfeydd penodol, wedi achosi i ni ymdrin ag unrhyw risgiau ychwanegol a allai godi.

**Penodiadau ac Ymgynghoriaeth Oddi Ar y Gyflogres**
Yn ystod y flwyddyn mae'r Gronfa wedi penodi chwech (2016/17 un ar ddeg) o unigolion trwy gontractau oddi ar y gyflogres. Roedd dau o'r rhain mewn perthynas â chyflenwi swyddi gwag dros dro ac roedd y gweddill ar gyfer gwasanaethau arbenigol nad yw'r Gronfa'n eu defnyddio'n gyffredinol. Mae'r Gronfa'n gweithredu profion llymion i sicrhau yr asesir natur pob penodiad yn briodol a bod contractau'n cael eu gosod ym mhob achos i sicrhau y bodlonir y rhwymedigaethau treth ac Yswiriant Gwladol priodol. Cyfanswm cost y trefniadau hyn oedd £411,097 (2016/17 £483,969)

Roedd tri o'r contractau oddi ar y gyflogres yn gontractau newydd yn y flwyddyn neu wedi cyrraedd cyfnod penodi o chwe mis yn ystod y flwyddyn. Pennwyd bod un o'r rhai'n rôl sy'n gyflogaeth ei natur tra y pennwyd bod dau'n rolau nad ydynt yn gyflogaeth eu natur. Ceisiwyd sicrwydd mewn perthynas â didyniadau treth ac yswiriant gwladol ac fe'i darparwyd ym mhob achos. Ni chyflogwyd unrhyw un ohonynt yn uniongyrchol trwy gyflogres y Gronfa ac nid oedd yr un yn destun newid statws.

Mae'r Gronfa wedi talu costau ymgynghori o £386,220 (2016/17 £465,936) yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu cyngor ac arbenigedd na fyddem yn eu caffael fel mater o drefn i gefnogi ein gweithgareddau parhaus.

**Ardoll Brentisiaethau**
Mae'r ardoll brentisiaethau'n berthnasol i bob mudiad sydd â bil cyflogau dros £3 miliwn. Mae cyfraniadau at y cyfrif ardoll brentisiaethau'n 0.5% o'r cyfanswm bil cyflogau ar ôl didynnu lwfans £15,000. Mae'r llywodraeth yn cyfrannu hyd at 10% at y cyfrif mewn perthynas â symiau sy'n gysylltiedig â Lloegr. Gall cyflogwyr ddefnyddio'r cyfrif i dalu am weithgareddau hyfforddiant cymwys. Mae trefniadau prentisiaeth mewn perthynas â Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon heb eu newid.

Mae'r Gronfa wedi gwneud cyfanswm cyfraniad o £120,095 at y cynllun yn ystod y flwyddyn ac yn unol ag arweiniad cyfrifyddu'r llywodraeth mae wedi dileu hwn fel cost staff o dan drethi.

Mae'r Gronfa wedi hawlio cyfanswm o £5,280 yn ôl mewn costau hyfforddi gan ddarparwyr priodol. Dangosir y costau hyn fel costau hyfforddi mewn costau gweithredu gyda mantais tynnu i lawr o'r cyfrif ardoll brentisiaethau wedi'i ddangos mewn incwm fel grant gan y llywodraeth.



**Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau**
Mae'n ofynnol i'r Gronfa adrodd ar ei pherfformiad i'r llywodraeth o dan y rheoliadau Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Mae manylion llawn ar gael ar borth bwlch cyflog rhwng y rhywiau gov.uk ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan. Ar draws y Gronfa'n gyffredinol rydym yn adrodd am fwlch cyflog rhwng y rhywiau o 3.2 y cant ar gyfer tâl cymedrig ac mae'r gyfradd yn 0.2% ar gyfer tâl canolrif ond gyda staff benywaidd yn derbyn cyfradd dâl uwch na staff gwrywaidd. Mae pob un o'r rhain yn cymharu'n ffafriol â'r rhan fwyaf o fudiadau tebyg ac yn benodol mewn cymhariaeth â bwlch cyflog cyffredinol y Gwasanaeth Sifil.

**Amser Hwyluso Undebau Llafur**

| | |
|---|---|
| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion perthnasol yr undeb yn ystod y flwyddyn ariannol | 5 |
| Nifer y cyflogeion cyfwerth ac amser llawn | 4.6 |
| Canran yr amser sy'n cael ei dreulio ar amser hwyluso gan swyddogion perthnasol yr undeb: | |
| 0% | - |
| 1-50% | - |
| 51-99% | 4 |
| 100% | 1 |
| Cyfanswm cost yr amser hwyluso | £87,212 |
| Cyfanswm cost y bil cyflogau | £32,796,000 |
| Canran y bil cyflogau sy'n cael ei threulio ar amser hwyluso | 0.30% |
| Oriau a dreulir ar weithgareddau undeb llafur â thâl | 180 |
| Oriau a dreulir ar amser hwyluso â thâl | 6218 |
| Canran | 2.9% |

## Tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr – cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth unigol (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| Gweithredwyr | 2017/18 Cyflog £000 | 2017/18 Taliadau ar sail perfformiad £000 | 2017/18 Gwerth buddiannau pensiwn £000 | 2017/18 Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth sengl £000 | 2016/17 Cyflog £000 | 2016/17 Taliadau ar sail perfformiad £000 | 2016/17 Gwerth buddiannau pensiwn £000 | 2016/17 Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth sengl £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dawn Austwick (Prif Weithredwr) | 145-150 | 10-15 | 57 | 215-220 | 140-145 | 10-15 | 56 | 210-215 |
| Gemma Bull (Cyfarwyddwr, Datblygu Portffolio Lloegr) | 80-85 | 5-10 | 33 | 120-125 | 80-85 | 0-5 | 32 | 110-115 |
| Martin Cawley (Cyfarwyddwr, Yr Alban) o 1 Medi 2016 | 85-90 | 0-5 | 34 | 120-125 | 45-50 (Cyfwerth blynyddol 80-85) | 0-5 | 19 | 65-70 |
| Lyn Cole (Cyfarwyddwr, Gwneud Grantiau Lloegr) tan 28 Chwefror 2017 | - | - | - | - | 80-85 (Cyfwerth blynyddol 85-90) | 0-5 | 30 | 115-120 |
| Joe Ferns (Cyfarwyddwr Gwybodaeth a Phortffolio Deyrnas Unedig) o 1 Rhagfyr 2016 | 85-90 | Dd/B | 13 | 100-105 | 85-90 (Enillion blwyddyn gyfan) | Dd/B | 13 | 100-105 |
| James Harcourt (Cyfarwyddwr, Gwneud Grantiau Lloegr) o 1 Mawrth 2017 | 80-85 | 0-5 | 33 | 115-120 | 70-75 (Cyfwerth blynyddol 80-85) | 0-5 | 3 | 75-80 |
| Ben Harrison (Cyfarwyddwr Ymgysylltu) o 14 Tachwedd 2016 | 80-85 | 0-5 | 31 | 110-115 | 30-35 (Cyfwerth blynyddol 75-80) | 0-5 | 12 | 40-45 |



| Gweithredwyr | 2017/18 Cyflog £000 | 2017/18 Taliadau ar sail perfformiad £000 | 2017/18 Gwerth buddiannau pensiwn £000 | 2017/18 Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth sengl £000 | 2016/17 Cyflog £000 | 2016/17 Taliadau ar sail perfformiad £000 | 2016/17 Gwerth buddiannau pensiwn £000 | 2016/17 Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth sengl £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Danny Homan (Pennaeth Staff) tan 30 Tachwedd 2016 | - | - | - | - | 65-70 (Cyfwerth blynyddol 100-105) | 0-5 | 27 | 100-105 |
| Ian Hughes (Cyfarwyddwr Cyllid) | 105-110 | 5-10 | 42 | 155-160 | 105-110 | 5-10 | 41 | 150-155 |
| Jackie Killeen (Cyfarwyddwr, Yr Alban) tan 29 Ebrill 2016 | - | - | - | - | 5-10 (Cyfwerth blynyddol 70-75) | 0-5 | 2 | 10-15 |
| Joanne McDowell (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) | 70-75 | 0-5 | 25 | 100-105 | 70-75 | 0-5 | 27 | 100-105 |
| John Rose (Cyfarwyddwr, Cymru) | 75-80 | 0-5 | 27 | 105-110 | 75-80 | 0-5 | 28 | 105-110 |

## Tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr – pensiynau (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| Gweithredwyr | Pensiwn cronnus ar oedran pensiynadwy fel ar 31/03/18 a chyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn £000 | Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/2018 £000 | Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/2017 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dawn Austwick (Prif Weithredwr)** | 15-20 plws 0 cyfandaliad | 2.5-5 plws 0 cyfandaliad | 213 | 161 | 36 |
| **Gemma Bull (Cyfarwyddwr, Datblygu Portffolio Lloegr)** | 5-10 plws 0 cyfandaliad | 5-7.5 plws 0 cyfandaliad | 56 | 19 | 7 |
| **Martin Cawley (Cyfarwyddwr, Yr Alban) o 1 Medi 2016** | 0-5 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 38 | 13 | 17 |
| **Lyn Cole (Cyfarwyddwr, Gwneud Grantiau Lloegr) tan 28 Chwefror 2017** | - | - | - | 393 | Dd/B |
| **Joe Ferns (Cyfarwyddwr Gwybodaeth a Phortffolio Deyrnas Unedig) o 1 Rhagfyr 2016** | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| **James Harcourt (Cyfarwyddwr, Gwneud Grantiau Lloegr) o 1 Mawrth 2017** | 0-5 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 32 | 14 | 11 |
| **Ben Harrison (Cyfarwyddwr Ymgysylltu) o 14 Tachwedd 2016** | 0-5 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 18 | 5 | 7 |
| **Danny Homan (Pennaeth Staff) tan 30 Tachwedd 2016** | - | - | - | 66 | Dd/B |
| **Ian Hughes (Cyfarwyddwr Cyllid)** | 5-10 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 110 | 70 | 29 |
| **Jackie Killeen (Cyfarwyddwr, Yr Alban) tan 29 Ebrill 2016** | - | - | - | 224 | Dd/B |
| **Joanne McDowell (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon)** | 25-30 plus 20-25 lump sum | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 422 | 384 | 10 |
| **John Rose (Cyfarwyddwr, Cymru)** | 15-20 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 290 | 258 | 12 |



## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV)

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn fel yr aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Mae'r buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau pensiwn galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan ystyrir buddiannau pensiwn.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau

Mae tâl cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd a Phwyllgorau'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i bennu gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddigidol, Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae Cadeiryddion y Bwrdd Deyrnas Unedig a'r pwyllgorau gwlad yn derbyn cyflog blynyddol yn seiliedig ar nifer y diwrnodau y mae disgwyl iddynt eu hymroi i waith y Gronfa Loteri Fawr. Disgrifiwyd y rhain yn eu llythyr penodi.

Mae'r cyfansymiau a dderbyniant wedi'u dangos yn y tabl ar dudalennau 71 i 74.

Nid yw aelodau Bwrdd a phwyllgorau'n derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da neu fuddiannau pensiwn. Ad-delir treuliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau iddynt ar yr un sail â chyflogeion y Gronfa.

Dawn Austwick
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
4 Gorffennaf 2018

# Ein hadroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I SENEDD Y DEYRNAS UNEDIG**

**Barn am ddatganiadau ariannol**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau Incwm Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau mewn Ecwiti a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o fewn y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd y tu mewn iddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y mae'r adroddiad yn disgrifio ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2018 ac o'i gwarged cyn treth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddir oddi tanynt.

**Barn am Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (ISA) (Deyrnas Unedig) a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol 2016 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm archwiliad a'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

**Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol, fel y Swyddog Cyfrifyddu, am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn  darparu barn wir a theg.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008.

Mae archwiliad yn ymwneud â dod o hyd i dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrhad rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'r gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISA bob amser yn datgelu



camddatgan materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatgan ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir ei fod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, gellir disgwyl yn rhesymol eu bod yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISA, gweithredaf farn broffesiynol ac yn cynnal sgeptigaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- adnabod ac yn asesu risgiau camddatgan materol y datganiadau ariannol, p'un ai drwy dwyll neu wall, dylunio ac yn perfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn dod o hyd i dystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn. Mae'r risg o beidio â datgelu camddatgan materol o ganlyniad i dwyll yn uwch nag un o ganlyniad i wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgorion bwriadol, camgynrychioli neu drechu mesurau rheoli mewnol.
- datblygu dealltwriaeth o reoli mewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn am effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol y Gronfa Loteri Fawr.
- gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wneir gan reolwyr.
- dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd rheolwyr o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, p'un a oes ansicrwydd materol yn bodoli mewn perthynas â digwyddiadau neu achosion a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Gronfa Loteri Fawr  i barhau fel busnes gweithredol. Os dof i'r casgliad fod ansicrwydd materol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r cyfryw ddatgeliadau'n annigonol, i addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilydd. Er hynny, gallai digwyddiadau neu gyflyrau yn y dyfodol achosi i'r endid ddod i ben fel busnes gweithredol.
- gwerthuso'r cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau a pha un a yw'r datganiadau ariannol cyfunedig yn cynrychioli'r trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg pethau eraill cwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

At hynny mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol bod yr incwm a gwariant yr adroddir amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y Deyrnas Unedig a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Gwybodaeth Arall**
Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd y disgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol ac fy adroddiad archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad ynghylch sicrwydd mewn perthynas â hi. Mewn perthynas â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld fel cael ei chamddatgan yn faterol. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993 a'r Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur;
- yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gronfa Loteri Fawr a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod unrhyw gamddatgan materol yn yr Adroddiad Blynyddol; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cydweddu â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad**
Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ddychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a'r Adroddiad Staff sydd i'w harchwilio'n cyfateb i'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**
Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse** **9 Gorffennaf 2018**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road Victoria
Llundain SW1W 9SP



## Datganiad incwm cynhwysfawr

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Incwm Loteri** | | | |
| Enillion gan y Loteri Genedlaethol | 13 | 654,033 | 651,977 |
| Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 1,890 | 2,125 |
| Llog banc a llog arall a dderbynnir | 2 | 82 | 65 |
| Adennill grantiau | 2 | 2,892 | 2,282 |
| | | 658,897 | 656,449 |
| **Incwm arian cyfrifon segur** | | | |
| Derbyniwyd/Derbynadwy gan Reclaim Fund Ltd | 30 | 152,800 | 94,450 |
| Llog banc a dderbynnir ar arian cyfrifon segur | 30 | 103 | 162 |
| | | 152,903 | 94,612 |
| **Incwm arall** | 2 | 10,732 | 10,995 |
| **CYFANSWM INCWM** | | **822,532** | **762,056** |
| **Gwariant** | | | |
| **Gwariant ar raglenni Loteri** | | | |
| Gwariant grant | 3 | 519,878 | 717,377 |
| Llai gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu | 3 | (11,413) | (4,486) |
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni | 4 | 18,179 | 20,857 |
| | | 526,644 | 733,748 |
| **Gwariant ar y rhaglen arian cyfrifon segur** | | | |
| Gwariant ar grantiau | 30 | 63,590 | 85,909 |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | 5 | 50,891 | 51,508 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur | 5 | 349 | 294 |
| Costau gweithredu a ailgodir | 5 | 3,168 | 3,558 |
| | | 54,408 | 55,360 |
| **Costau ailstrwythuro** | 8 | 4,915 | 1,299 |
| | | 59,323 | 56,659 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | | **649,557** | **876,316** |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth** | | 172,975 | (114,260) |
| Treth | 9 | (16) | (14) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr net** | | 172,959 | (114,274) |

Mae'r holl incwm a gwariant yn berthnasol i weithgareddau parhaus.

## Datganiad newidiadau mewn ecwiti

| Cyfanswm wrth gefn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 Cyfrifon Loteri £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 Cyfrifon Segur £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 Cyfanswm £000 | Wedi'i ailddatgan* Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 Lottery Accounts £000 | Wedi'i ailddatgan* Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 Cyfrifon Segur £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sefyllfa swm wrth gefn gychwynnol | (913,087) | 12,046 | (901,041) | (790,404) | 3,637 | (786,767) |
| Trosglwyddwyd o'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net | 83,994 | 88,964 | 172,958 | (122,683) | 8,409 | (114,274) |
| Sefyllfa swm wrth gefn derfynol | (829,093) | 101,010 | (728,083) | (913,087) | 12,046 | (901,041) |

*Rydym wedi ailddatgan y sefyllfa symiau wrth gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 mewn perthynas â 'r dadansoddiad rhwng cyfrifon Loteri a chyfrifon Segur. Nid yw'r cyfanswm wedi newid.



## Datganiad sefyllfa ariannol

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | 4,524 | 4,414 |
| Asedau anniriaethol | 11 | 3,979 | 5,883 |
| | | 8,503 | 10,297 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a dderbynnir | 12 | 214,440 | 24,031 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 45,646 | 40,508 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 310,905 | 398,756 |
| | | 570,991 | 463,295 |
| **Cyfanswm asedau** | | **579,494** | **473,592** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a delir | 14 | (588,299) | (556,848) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau net cyfredol** | | (8,805) | (83,256) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Masnach ac arian arall a delir | 14 | (657,323) | (816,346) |
| Darpariaethau | 15 | (61,955) | (1,439) |
| **Rhwymedigaethau net** | | **(728,083)** | **(901,041)** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Arian wrth gefn y Loteri | | (829,093) | (913,087) |
| Arian cyfrifon segur wrth gefn | | 101,010 | 12,046 |
| | | **(728,083)** | **(901,041)** |

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 4 Gorffennaf 2018.

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

**Peter Ainsworth**
Cadeirydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 95 i 124 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad llifoedd arian

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o NLDF | 13 | 743,774 | 669,379 |
| Arian a dderbyniwyd mewn perthynas â chyfrifon segur | | 103 | 94,612 |
| Taliadau mewn perthynas ag arian cyfrifon segur | | (6,646) | (85,292) |
| Adennill grantiau ac arian o ffynonellau eraill | | 2,892 | 2,282 |
| Incwm arall | | 10,299 | 9,371 |
| Llog a dderbyniwyd | | 82 | 65 |
| Taliadau i gyflenwyr | | (22,450) | (22,471) |
| Taliadau i gyflogeion ac ar eu rhan | | (32,436) | (34,236) |
| Taliadau i dderbynyddion grantiau | | (654,737) | (624,693) |
| Arian a dalwyd ac a ddelir gan drydydd partïon | | (34,657) | (13,989) |
| Treth a dalwyd ar log a dderbyniwyd | | (13) | (19) |
| Llif arian net o weithgareddau gweithredu | 19 | 6,211 | (4,991) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (1,073) | (1,660) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod** | | **5,138** | **(6,651)** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | | |
| Balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | 45,646 | 40,508 |
| Llai balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | (40,508) | (47,159) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod** | | **5,138** | **(6,651)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 95 i 124 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn



# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2017/18 a gyhoeddir gan Drysorlys EM a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag Adran 36A (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006) a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Gronfa Loteri Fawr at ddiben darparu barn wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer 2017/18 isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon. Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu pan fo'n briodol er gwerth teg. Ac eithrio rhai asedau penodol a ailbrisiwyd, rydym yn credu nad yw cost hanesyddol yn wahanol yn faterol i werth teg.

Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau, FReM a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

### 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes cyfredol. Ymgymerwyd â rhwymedigaethau grant ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar ôl ystyried gofynion arian parod derbynyddion grantiau (gall y rhain ymestyn hyd at saith mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagamcaniadau incwm a baratowyd fel rhan o'r broses cynllunio busnes. Wrth fabwysiadu'r agwedd hon at incwm y dyfodol, mae'r Bwrdd yn tybio fel mater o bolisi cyhoeddus y bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu.

### 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Erys balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y balans hwn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Loteri Fawr i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar 31 Mawrth 2018, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan y Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas â rhwymedigaethau presennol a'r rhai yn y dyfodol.

### 1.4 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannu a chyfarpar wedi'u cydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu dibrisio i'r Datganiad incwm cynhwysfawr ym mlwyddyn eu caffael.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad yn ystod amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gwelliannau prydles** | Dros gyfnod y les |
| **Cyfarpar TG** | 3 blynedd |
| **Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfa** | 3 blynedd |

## 1.5 Asedau anniriaethol

Yn unol ag IAS 38 'Asedau Anniriaethol', cydnabyddir costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi'r meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw fel ased anniriaethol. Mae costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn cynnwys ffioedd contractwyr allanol a chostau cyflogeion. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol o'r asedau rydym yn amorteiddio ar sail linol dros y bywyd defnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Meddalwedd system ariannu** | 10 mlynedd neu fywyd economaidd defnyddiol sy'n weddill pan fydd wedi'i ddiwygio |
| **Gwefan** | 5 blynedd |

Nid ydym yn amorteiddio costau mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu.

Mae asedau anniriaethol wedi bod yn destun adolygiad gwerth gostyngol o dan IAS 36 (nodyn 11).

## 1.6 Cronfa bensiwn

Mae gweithwyr yn rhan o ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n cynllun pensiwn amlgyflogwr heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio. Fel arall gallant ymuno â Chynllun Pensiwn Partneriaeth y Gwasanaeth Sifil - pensiwn budd-ddeiliad. Telir buddiannau pensiwn gan PCSPS. Mae ein rhwymedigaethau wedi'u cyfyngu i gost, sydd wedi'i osod gan Brif Actwari'r Llywodraeth, mewn perthynas â chyflogau a delir ym mhob blwyddyn Prisiwyd y cynllun ddiwethaf ar 31 Mawrth 2012 (nodyn 22).

## 1.7 Lesi gweithredol

**Lesai**

Rydym yn dosbarthu lesi nad oes gennym naill ai risgiau na gwobrau perchnogaeth i raddau helaeth fel lesi gweithredol yn unol ag IAS 17 'Lesi'. Codir costau lesi gweithredol a ddelir gan y Gronfa Loteri Fawr ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr (net o gyfnodau di-rent) dros y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Dosrennir buddion cyfnod di-rent ar brydlesi dros y cyfnod hyd at y cynharaf o'r pwynt torri rhent neu ddyddiad dod i ben y les ar sail linol.

Ar 31 Mawrth 2018 dosbarthir holl lesi eiddo'r Gronfa fel lesi gweithredol. Ni ellir gwahanu taliadau les am eiddo'n ddibynadwy rhwng y cydrannau tir ac adeilad. Er hynny, mae'n glir nad yw dwy elfen y trefniadau les yn trosglwyddo holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yn sylweddol i'r Gronfa Loteri Fawr ac felly mae'r ddwy elfen wedi'u dosbarthu'n lesi gweithredol.

**Leswr**

Pan fyddwn wedi darparu cyfnod di-rent neu gymhelliad arall i denant, mae cost y cymhelliad hwn wedi'i dosrannu dros y cyfnod i ba un bynnag yw'r cynharaf o'r dyddiad adolygu rhent neu ddyddiad dod i ben y les ar sail linol.

## 1.8 Gwariant ar raglenni

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa Loteri Fawr ddosbarthu grantiau i ariannu neu gynorthwyo ariannu prosiectau a gwneud neu gychwyn trefniadau sydd â'r nod o dalu am wariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Dyfarniadau grant**

Cyfrifir dyfarniadau grant fel gwariant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a, hyd nes y cânt eu talu, fel rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol os ydynt yn gweddu i ddiffiniad rhwymedigaethau yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, p'un a ydynt yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol. Cydnabyddir dyfarniadau grant fel gwariant a chyfrifir am rwymedigaethau pan:



1. fo'r Gronfa wedi dod i benderfyniad pendant ar y dyfarniad; ac
2. mae derbynnydd arfaethedig y dyfarniad wedi'i hysbysu amdano; ac
3. mae'r dyfarniad yn rhydd rhag unrhyw amodau o dan reolaeth y Gronfa.

Nid yw dyfarniadau grant y gwnaed penderfyniad ffurfiol arnynt gan y Gronfa nad ydynt yn bodloni diffiniad technegol rhwymedigaethau (naill ai oherwydd nad ydynt wedi'u cyfathrebu i'r derbynnydd, neu gan nad ydynt yn bodloni meini prawf llym mewn perthynas â naill ai amodau penodol neu fathau o ddyfarniadau (gweler isod) wedi'u cynnwys mewn gwariant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr neu fel rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ond yn cael eu datgelu fel rhwymedigaethau amodol yn Nodyn 17.

**Dyfarniadau datblygu**

Pan fydd y Gronfa'n cadw'r disgresiwn i wneud dyfarniadau dilynol yn dilyn cam datblygu a ariannwyd, nid yw'r dyfarniad dilynol posib yn cael ei drin fel rhwymedigaeth hyd nes bod y Gronfa wedi gwneud penderfyniad ffurfiol pellach i symud ymlaen ag ef.

**Dyfarniadau ar sail perfformiad**

Pan fydd talu dyfarniad cyfan neu ran ohono'n amodol ar amod perfformiad, nid yw'r rhan o'r dyfarniad sy'n destun yr amod yn cael ei drin fel rhwymedigaeth hyd nes bod yr amod yn cael ei fodloni.

**Dyfarniadau cam lluosog**

Pan wneir dyfarniad sy'n daladwy dros gamau lluosog ac mae parhau â'r dyfarniad yn dibynnu ar ganlyniad adolygiadau ffurfiol gan y Gronfa, bydd camau diweddarach y dyfarniad yn cael eu trin fel rhwymedigaeth naill ai os mai natur yr adolygiad yw cadarnhau cynnydd, neu os mai canlyniad yr adolygiad yw bod y Gronfa'n parhau â'r dyfarniad.

**Dosbarthu rhwymedigaethau**

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol wedi'u dosbarthu'n groniadau oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol.

**Grantiau sy'n cael eu had-dalu a'u hadennill**

Mae ein hamodau grant yn caniatáu adennill ac ad-dalu grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd pan fydd y deiliad grant yn methu â chydymffurfio ag amodau a thelerau neu pan fydd gwariant gwirioneddol derbynnydd yn is na'r grant a dalwyd yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau.

Mae arian sy'n cael ei adennill yn cael ei gydnabod fel incwm ar ôl derbyn yr ad-daliad.

**Gwariant uniongyrchol ar raglenni**

Rydym yn cofnodi 'gwariant uniongyrchol ar raglenni' fel y costau hynny a geir wrth gyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol i fuddiolwyr neu dderbynyddion grant o dan a36B Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. Er enghraifft, darparu strwythurau cefnogi ymgeiswyr a deiliaid grant a sicrhau ansawdd er budd uniongyrchol derbynyddion grant.

**Gwariant ar grantiau wedi darfod neu eu diddymu**

Rydym yn cofnodi 'gwariant grantiau wedi darfod neu eu diddymu' pan fydd y deiliad grant wedi dewis dychwelyd arian grant nas defnyddiwyd i'r Gronfa neu pan fyddwn wedi dewis diddymu arian grant nas defnyddiwyd gan y deiliad grant. Ym mhob achos mae hyn yn gysylltiedig â symiau a gofnodwyd yn flaenorol fel rhwymedigaethau.

## 1.9 Treth

Codir treth gorfforaethol ar sail y gyfraith dreth sydd mewn grym ar ddyddiad y sefyllfa ariannol. Mae'r dreth hon ar log a dderbyniwyd ar falansau arian a ddelir mewn cyfrifon banc masnachol.

Rydym yn gofrestredig ar gyfer treth ar werth (TAW). Codir ac adferir TAW ar ein gweithgareddau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o weithgareddau busnes a ddisgrifir mewn deddfwriaeth TAW. Mae hyn yn cynnwys llawer o'n gweithgareddau Trydydd Parti.

Codir TAW anadferadwy ar wariant neu wedi'i gyfalafu yng nghost asedau sefydlog.

## 1.10 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon a ddelir ar alwad gyda banciau masnachol.

## 1.11 Darpariaethau

Mae'r Gronfa'n cydnabod darpariaeth pan fydd:

1. rhwymedigaeth gyfreithiol o ganlyniad i benderfyniad yn y gorffennol
2. yn debygol y bydd angen adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth, a
3. phan ellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Ar hyn o bryd mae gennym ddarpariaethau ar gyfer ailstrwythuro costau, trafodion les beichus a throsglwyddi arian cyfrifon segur i Big Society Trust.

## 1.12 Rheoli grantiau

**Partneriaid dirprwyedig**

Rydym wedi ymgymryd â chytundebau sy'n bwriadu i nifer o gyrff dirprwyedig weithredu fel mudiadau arweiniol wrth gyflwyno cynlluniau grant. Wrth wneud hyn rydym wedi dirprwyo'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau am grantiau statudol i fudiadau eraill. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i bartneriaid dirprwyedig er mwyn talu am rwymedigaethau grant nad yw eu hamodau wedi'u bodloni ar ddiwedd y flwyddyn fel ased cyfredol hyd nes ein bod yn derbyn cadarnhad bod rhwymedigaethau grant wedi'u bodloni.

**Ymddiriedolaethau**

Mae'r Gronfa wedi gwneud dyfarniadau i gwmnïau cyfyngedig trwy warant newydd sy'n gweithredu fel unig ymddiriedolwr mewn ymddiriedolaethau elusennol newydd. Cofnodir arian a ddyfernir i'r ymddiriedolaethau hyn fel rhwymedigaeth hyd nes ein bod yn gwneud taliadau i'r ymddiriedolaethau. Nid yw'r symiau a ddelir gan yr ymddiriedolaeth wedi'u dangos fel asedau.

**Cynlluniau ar y cyd**

Os ydym wedi ymrwymo i gynllun ar y cyd, fel a ddiffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir rhwymedigaethau grant a wneir trwy'r cynllun ar y cyd ar sail ein cyfran yn y cynllun. Cofnodir arian a anfonir ymlaen at y cynllun ar y cyd at ddiben talu rhwymedigaethau grant fel ased cyfredol hyd nes i ni dderbyn cadarnhad bod y taliadau mewn perthynas â'r rhwymedigaethau hynny wedi'u gwneud. Mae costau gweinyddu wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn unol â'r swm a godir ar y Gronfa.

## 1.13 Asedau trydydd parti

Mae'r Gronfa'n geidwad rhai asedau penodol sy'n perthyn i drydydd partïon. Nid yw'r rhain wedi'u cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gennym unrhyw fuddiant uniongyrchol ynddynt. Dangosir y balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yn nodyn 25.



## 1.14 Offerynnau ariannol

Mae'r Gronfa'n adolygu pob contract yn erbyn IAS 39 mewn perthynas â chydnabod a mesur offerynnau ariannol. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yr ystyrir eu bod yn ariannol eu natur wedi'u hamlinellu yn nodyn 20. Nid ydym yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth.

## 1.15 Adrodd cylchrannol

Yn unol ag IFRS 8 mae Bwrdd y Gronfa, fel 'Prif Gorff Gwneud Penderfyniadau Gweithredol', wedi pennu ein bod yn gweithredu mewn pum segment daearyddol materol – y Deyrnas Unedig, Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gennym ffynhonnell incwm sylweddol unigol gan y Loteri, ac mae'r fformat adrodd cylchrannol yn adlewyrchu'n strwythur rheoli ac adrodd mewnol. Gweithredir rhai rhaglenni ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ac adroddir ar y rhain yn annibynnol i'r pedair gwlad.

## 1.16 Arian cyfrifon segur

Cyfrifwyd am arian cyfrifon segur o dan yr un polisïau ag arian Loteri, gyda'r symiau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn a bod yn destun barn archwilio. Er eglurder, mae datganiadau ariannol ffurf fer sy'n ymwneud ag arian cyfrifon segur yn unig wedi'u cynnwys yn nodyn 30.

## 1.17 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Nid yw'r FReM a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn mynnu bod y Safonau a'r Dehongliadau a ganlyn yn cael eu cymhwyso yn 2017/18. Ni fyddai cymhwyso'r safonau fel y'u diwygir yn cael effaith faterol ar y cyfrifon ar gyfer 2017/18 ac ni ddisgwylir iddynt gael effaith faterol pan gânt eu cymhwyso. Mae asesu gwerth teg o dan IFRS 9 wedi'i liniaru ar gyfer y Gronfa gan fod ei gynhwysiad yn eithrio asesu balansau a ddelir gydag adrannau llywodraeth ganolog. Ar gyfer IFRS 15 rydym yn asesu bod cydnabod incwm gan y Loteri Genedlaethol a Chyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur heb ei effeithio gan fod yr incwm wedi'i gyfeirio gan ddeddfwriaeth. Bydd nifer bach o gontractau ar gyfer darparu gwasanaethau sydd wedi'u cydnabod o fewn Incwm Arall yn cael ei adolygu i sicrhau bod cydnabyddiaeth incwm yn cyfateb i gyflwyno gwasanaethau o dan y contract. Mae'n bosib y caiff y pwynt cydnabyddiaeth ar gyfer incwm ar nifer bach o gontractau ei effeithio ond mae'r effaith ar werth yn debygol o fod yn fach.

| | |
|---|---|
| IFRS 9 | Offerynnau Ariannol – yn effeithiol 2018/19 |
| IFRS 15 | Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid yn effeithiol 2018/19 |
| IFRS 16 | Lesi yn effeithiol 2019/20 |

## 1.18 Amcangyfrifon a barn cyfrifyddu

Mae paratoi datganiadau ariannol yn mynnu bod rheolwyr yn ffurfio barn, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar symiau yr adroddir amdanynt o ran asedau, rhwymedigaethau, incwm a threuliau.

Gwerthusir a diweddarir amcangyfrifon a barn yn rheolaidd ac mae unrhyw newidiadau wedi'u hadlewyrchu yn y cyfnod pan gaiff y rhain eu hadolygu.

Mae'r polisïau cyfrifyddu'n disgrifio meysydd sy'n ymwneud â gradd uchaf o dechnegau ffurfio barn, tybiaethau neu amcangyfrif, megis nodyn 1.5 (Asedau anniriaethol), nodyn 1.8 (Gwariant ar raglenni) a nodyn 1.11 (Darpariaethau).

Y barnau mwyaf arwyddocaol yw:

- Gostwng gwerth ased anniriaethol – Gostyngodd y Gronfa werth yr ased anniriaethol mewn perthynas â'i System Rheoli Ariannu yn 2015/16. Adolygiadau y farn a ffurfiwyd wrth bennu'r gwerth gostyngol hwn yn rheolaidd. Ni thybiwyd bod angen unrhyw ddiwygiad pellach yn ystod 2017/18.

- Gwariant ar raglenni – mae'r Gronfa'n cydnabod gwerth dyfarniadau sy'n destun amodau perfformiad fel rhwymedigaethau amodol yn hytrach na chroniadau grant. Mae'r farn yn seiliedig ar amodau a thelerau'r contractau dyfarnu.

Yr amcangyfrifon mwyaf arwyddocaol yw:

- Darpariaethau – Rydym wedi amcangyfrif cronfeydd cyfrifon segur sy'n daladwy i Big Society Trust ar sail cyhoeddiadau a wnaed gan DCMS mewn perthynas â Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008.
- Bywyd economaidd defnyddiol yr ased anniriaethol – Rydym yn amcangyfrif bywyd sy'n weddill ein System Rheoli Ariannu a allai arwain at amrywiadau mewn costau amorteiddio. Rydym wedi pennu nad oedd angen unrhyw newid i'r amcangyfrif hwn yn ystod 2017/18.

## 2. Incwm

Isod mae dadansoddiad o incwm arall nad yw wedi'i adnabod ar wahân yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| **Llog banc a llog arall a dderbynnir** | | |
| Llog banc derbynadwy | 82 | 65 |
| | **82** | **65** |
| **Gwerthu tir ar Benrhyn Greenwich** | | |
| Gwerthu tir ar Benrhyn Greenwich (Nodyn 6) | 3,832 | 4,041 |
| | **3,832** | **4,041** |
| **Incwm arall** | | |
| Incwm o gyflwyno arian nad yw'n dod o'r Loteri | 4,043 | 3,414 |
| Incwm o gyflwyno arian y Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | 71 | 144 |
| Incwm rhent | 2,656 | 2,515 |
| Mân incwm | 130 | 881 |
| | **6,900** | **6,954** |
| **Adennill grantiau gan ddeiliaid grant** | | |
| Adennill grantiau | 2,892 | 2,282 |
| | **2,892** | **2,282** |



## 3. Gwariant ar raglenni Loteri

Mae IFRS 8 yn mynnu datgelu data ariannol fesul cylchran adroddadwy. Mae'r Gronfa'n rheoli ac yn adrodd am weithgareddau dyfarnu grantiau fesul cylchrannau daearyddol. Er hynny, nid yw costau gweithredu'n cael eu rheoli a'u hadrodd ar sail gylchrannol.

Nid ydym yn dyrannu incwm i gylchrannau daearyddol ond yn pennu cyllidebau grant tymor canolig ar gyfer pob cylchran daearyddol yn seiliedig ar ddisgwyliadau tymor canolig o incwm net. Fel yr amlinellir yn adran pedwar yr adroddiad blynyddol, pennir cyllidebau grant yn seiliedig ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae'r Bwrdd wedi pennu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynllun strategol 2015-2021 ynghyd â chyllid dangosol ar gyfer y cyfnod hyd at 2022/23 i bob gwlad ar ôl i gyfran o'r gyllideb, hyd at 10 y cant, cael ei dyrannu ar gyfer rhaglenni Deyrnas Unedig gyfan. Pennir cyfrannau rhwng pob portffolio gwlad gan Fformiwla Dyrannu Cyllideb. Mae hyn yn seiliedig ar boblogaeth wedi'i haddasu yn ôl nifer o ffactorau mewn perthynas ag amddifadedd cymharol ac argaeledd cymharol adnoddau. Mae'r cyfrannau wedi cael eu haddasu'n ddiweddar i ystyried y data poblogaeth o Gyfrifiad 2011 ac asesiadau diweddar o amddifadedd cymharol a'r adnoddau cymharol sydd ar gael.

Dros gyfnod y cynllun mae gan bob pwyllgor gwlad y disgresiwn, o fewn terfynau penodol, dros wneud dyfarniadau grant cam wrth gam. Mae'r tabl isod yn amlinellu gwariant grant a godir ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

| | Deyrnas Unedig £000 | Lloegr £000 | Yr Alban £000 | Cymru £000 | Gogledd Iwerddon £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant grant a wnaed | 51,853 | 360,613 | 59,204 | 28,469 | 19,739 | 519,878 |
| Llai gwariant grant wedi darfod a'i ddiddymu | (3,366) | (7,434) | (201) | (115) | (297) | (11,413) |
| Gwariant grant net a wnaed 2017/18 | **48,487** | **353,179** | **59,003** | **28,354** | **19,442** | **508,465** |
| Gwariant grant net a wnaed 2016/17 | 56,118 | 509,566 | 75,803 | 44,372 | 27,032 | 712,891 |

## 4. Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni

Costau yn ymwneud â gwariant er budd uniongyrchol derbynyddion grant a'u buddiolwyr a wnaed fel rhan o gontract yn hytrach na dyfarniad grant.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| Cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol i dderbynyddion a buddiolwyr grant | 18,179 | 20,857 |
| | **18,179** | **20,857** |

## 5. Costau Gweithredu

| | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | Costau gweithredu a ailgodir | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 Cyfanswm costau gweithredu | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 Cyfanswm costau gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Tâl cydnabyddiaeth cyflogeion | 30,640 | 2,920 | 198 | 33,758 | 33,540 |
| Teithio a Threuliau | | | | | |
| - Staff | 1,847 | 141 | 3 | 1,991 | 1,733 |
| - Bwrdd a Phwyllgor | 32 | - | - | 32 | 6 |
| Taliadau o dan lesi gweithredol: | | | | | |
| - Eiddo | 3,951 | - | - | 3,951 | 3,788 |
| - Arall | 231 | - | - | 231 | 336 |
| Costau llety eraill | 2,465 | - | - | 2,465 | 2,735 |
| Costau cyfathrebu | 745 | 24 | 5 | 774 | 920 |
| Cefnogaeth allanol ar gyfer rhaglenni grant | 434 | 49 | - | 483 | 713 |
| Gwerthuso Rhaglenni | 122 | - | 16 | 138 | 245 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 1,222 | 5 | 7 | 1,234 | 1,254 |
| Ffioedd proffesiynol | 259 | 7 | - | 266 | 608 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith archwilio* | 112 | - | - | 112 | 112 |
| Costau isadeiledd | 3,517 | 2 | - | 3,519 | 3,918 |
| Costau eraill | 648 | 5 | 115 | 768 | 743 |
| TAW | 1,800 | 15 | 5 | 1,820 | 2,283 |
| Eitemau anariannol | | | | | |
| - Dibrisio | 2,866 | - | - | 2,866 | 2,426 |
| | **50,891** | **3,168** | **349** | **54,408** | **55,360** |

* Nid oedd unrhyw ffioedd ar gyfer gwasanaethau nad oeddent yn ymwneud ag archwilio gan archwilwyr allanol



## 6. Dangosydd perfformiad ariannol

Ein dangosydd perfformiad ariannol yw'r gyfran o incwm y Loteri a wariwn ar ddosbarthu. O'r mesur hwn rydym yn hepgor costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri dros fudiadau eraill, isosod eiddo a gwariant anghymhwysol fel trethi busnes. Rydym hefyd yn eithrio costau unigol buddsoddi i gyflawni mesurau effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Fel olynydd i Gomisiwn y Mileniwm, mae gan y Gronfa hawl i gyfran o'r elw o werthu tir ar Benrhyn Greenwich a wnaed gan Awdurdod Llundain Fawr, wedi i gostau penodol gael eu talu. Derbyniwyd yr ail daliad o £3.8 miliwn yn 2017/18 (derbyniwyd £4.0m yn 2016/17) sydd wedi'i gydnabod fel incwm at ddibenion mesur perfformiad.

Derbyniwyd incwm gwerth £59.4 miliwn yn 2014/15 mewn perthynas â'r ad-daliad o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd (OLDF) ar gyfer arian a gollwyd yn flaenorol i dalu costau Llundain 2012. Mae'r ad-daliad hwn wedi'i ohirio dros bedair blynedd at ddibenion mesur perfformiad. 2017/18 yw'r olaf o'r pedair blynedd hynny. Ar y sail hon, cost dosbarthu ein cyfran o incwm y Loteri oedd 7.0 y cant o'r incwm hwnnw (2017/17 7.0 y cant).

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri (yn unol â Nodyn 5) | 50,891 | 51,508 |
| Llai incwm rhent (yn unol â Nodyn 2) | (2,656) | (2,515) |
| Llai mân incwm | (125) | (881) |
| Llai trethi busnes | (678) | (1,112) |
| **Cyfanswm gwariant cymwys** | **47,432** | **47,000** |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol (yn unol â Nodyn 13) | 654,033 | 651,977 |
| Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (yn unol â Nodyn 13) | 1,890 | 2,125 |
| Plws gwerthu tir ar Benrhyn Greenwich (yn unol â Nodyn 2) | 3,832 | 4,041 |
| Plws incwm fesul cam o ddargyfeiriad y Loteri Olympaidd | 15,000 | 15,000 |
| **Cyfanswm incwm cymwys** | **674,755** | **673,143** |
| **Canran** | 7.0% | 7.0% |

## 7. Niferoedd a chostau staff

Roedd cyfanswm cost y staff, gan gynnwys tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 25,143 | 25,431 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,689 | 2,532 |
| Costau pensiwn eraill | 4,964 | 4,907 |
| Costau ardoll brentisiaethau | 120 | - |
| Costau staff asiantaeth | 842 | 670 |
| | **33,758** | **33,540** |

Secondiwyd nifer o staff sydd wedi'u cynnwys uchod i fudiadau eraill, y mae ad-daliadau o £215,113 wedi'u cynnwys mewn incwm arall. Mae cyflog a hawliau pensiwn aelodau uwch dîm rheoli a Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr wedi'u cynnwys uchod ac mae'r manylion wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff. Nid yw'n bosib adnabod nifer a chost yr aelodau staff o fewn y cyfanswm nad ydynt wedi'u cyflogi ar sail barhaol ac eithrio'r rhai a gyflogir trwy asiantaethau.

Roedd nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a staff dros dro sy'n gweithio i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Nifer y staff dros dro ar 31 Mawrth 2018 (FTE) | Nifer y cyflogeion ar 31 Mawrth 2018 (FTE) | Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2018 (FTE) | Cyfanswm nifer y staff ar 31 Mawrth 2017 (FTE) |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud grantiau | 30 | 476 | 506 | 498 |
| Cefnogi cwsmeriaid a budd-ddeiliaid | - | 117 | 117 | 175 |
| Llywodraethu a gweinyddu | 4 | 214 | 218 | 178 |
| Staff sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf | - | - | - | - |
| | **34** | **807** | **841** | **851** |

Ar 31 Mawrth 2018, cyflogodd y Gronfa 841 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2017 851). Roedd hyn yn cynnwys 34 o gyflogeion dros dro cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2017 15).

Wedi'i gynnwys yn y rhifau hyn mae CaALl o 50.7 a adawodd y mudiad ym mis Mawrth 2018 o ganlyniad i ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.



**Pecynnau ymadael**

Er nad yw cyflogeion y Gronfa'n weision sifil, mae eu telerau cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliadau terfynu a phensiynau ymddeol yn gynnar a gyfrifir yn yr un modd â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Telir costau'r buddiannau hyn gan y Gronfa ac nid gan y Gwasanaeth Sifil neu gronfeydd y Trysorlys.

| Band costau'r pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Nifer y diswyddiadau gwirfoddol Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Cyfanswm y diswyddiadau Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Nifer y diswyddiadau Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | 1 | 40 | 41 | 5 |
| £10,000 - £25,000 | 1 | 79 | 80 | 28 |
| £25,001 - £50,000 | - | 44 | 44 | 20 |
| £50,001 - £100,000 | - | 4 | 4 | 6 |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul math | 2 | 167 | 169 | 59 |
| **Cyfanswm cost £000** | **27** | **3,262** | **3,289** | **1,722** |

## 8. Costau ailstrwythuro

Rydym yn adolygu'r ffordd yr ydym wedi'n strwythuro'n rheolaidd ac yn gwneud newidiadau i gyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n addas i'r diben. Yn ystod 2017/18 ailstrwythurwyd ein timau portffolios ariannu'n sylweddol er mwyn cysylltu ein timau'n well â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Roedd costau'r ailstrwythuro hwn yn cynnwys taliadau terfynu a thrafodion eiddo, gan gynnwys newidiadau i ddarpariaethau lesi beichus.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau terfynu | 4,609 | 1,736 |
| Rhesymoli eiddo | 42 | 398 |
| Taliadau prydles anochel | 264 | (835) |
| | **4,915** | **1,299** |

## 9. Treth

Mae'r Gronfa'n talu treth gorfforaethol ar log banc ac unrhyw log arall a dderbynnir. Mae cost dreth net o £16,430 (2016/17 £14,245) ar gyfer y flwyddyn.

Nid yw incwm buddsoddi a gynhyrchir ar falansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn destun treth gorfforaethol y Deyrnas Unedig.

## 10. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau prydlesol | TG | Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 8,477 | 1,530 | 518 | 10,525 |
| Ychwanegiadau | 880 | 114 | 79 | 1,073 |
| Gwarediadau | – | (18) | (18) | (36) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **9,357** | **1,626** | **579** | **11,562** |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 4,711 | 1,171 | 229 | 6,111 |
| Tâl am y flwyddyn | 840 | 13 | 110 | 963 |
| Gwarediadau | – | (18) | (18) | (36) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **5,551** | **1,166** | **321** | **7,038** |
| **Llyfrwerth net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **3,806** | **460** | **258** | **4,524** |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 7,111 | 1,530 | 261 | 8,902 |
| Ychwanegiadau | 1,366 | – | 294 | 1,660 |
| Gwarediadau | – | – | (37) | (37) |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **8,477** | **1,530** | **518** | **10,525** |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 4,233 | 1,161 | 230 | 5,624 |
| Tâl am y flwyddyn | 478 | 10 | 36 | 524 |
| Gwarediadau | – | – | (37) | (37) |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **4,711** | **1,171** | **229** | **6,111** |
| **Llyfrwerth net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **3,766** | **359** | **289** | **4,414** |

Mae'r holl welliannau prydlesol ar eiddo prydles fer gyda phrydles sy'n dod i ben mewn llai nag 20 mlynedd.

## 11. Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd system ariannu | Gwefan | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Cost** | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 9,900 | 358 | 10,258 |
| Ychwanegiadau | – | – | – |
| Gwerth gostyngol | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **9,900** | **358** | **10,258** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 4,159 | 216 | 4,375 |
| Tâl am y flwyddyn | 1,831 | 72 | 1,903 |
| Gwerth gostyngol | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **5,991** | **288** | **6,279** |
| **Llyfrwerth net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **3,909** | **70** | **3,979** |
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 9,900 | 358 | 10,258 |
| Ychwanegiadau | – | – | – |
| Gwerth gostyngol | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **9,900** | **358** | **10,258** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 2,329 | 144 | 2,473 |
| Tâl am y flwyddyn | 1,830 | 72 | 1,902 |
| Gwerth gostyngol | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **4,159** | **216** | **4,375** |
| **Llyfrwerth net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **5,741** | **142** | **5,883** |

Cynhaliwyd adolygiad gwerth gostyngol mewn perthynas â'r System Rheoli Ariannu yn ystod 2015/16 i asesu ei gwerth mewn defnydd. Roedd hyn o ganlyniad i gymeradwyo'r strategaeth galluogi gwneud grantiau o dan y Fframwaith Strategol yn ystod y flwyddyn honno. Ar sail hwn, daethpwyd i'r casgliad nad yw'r system fel y'i dylunnir ar hyn o bryd yn darparu'n llawn ar gyfer y dulliau y dymunwn eu defnyddio i gysylltu â'n hymgeiswyr a deiliaid grant. Yn unol ag IAS 36, rydym wedi asesu prisiad diwygiedig ym mis Mawrth 2016 ar y fethodoleg cost gyfnewid wedi'i dibrisio sydd wedi arwain at golled gwerth gostyngol o £9.5 miliwn. Rydym wedi adolygu'r ased â'r gwerth gostyngol eleni ac wedi dod i'r casgliad nad oes angen addasu'r gwerth gostyngol ymhellach. Gan hynny, ni chodir tâl yn y flwyddyn ariannol hon.

## 12. Masnach ac arian arall a dderbynnir

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Yn cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu rhwymedigaethau grantiau | 3,265 | 1,265 |
| Adneuon a blaensymiau | 1,421 | 808 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 6,317 | 6,678 |
| Arian cyfatebol Ewropeaidd | 47,521 | 13,700 |
| Reclaim Fund Ltd mewn perthynas ag arian cyfrifon segur | 152,800 | - |
| Arian derbynadwy arall | 3,116 | 1,580 |
| | **214,440** | **24,031** |

## 13. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2017** | | 398,756 |
| Enillion gan y Loteri Genedlaethol | 654,033 | |
| Incwm buddsoddi o NLDF | 1,890 | |
| Arian a dynnwyd i lawr o NLDF | (743,774) | |
| Gostyngiad net yn y balans | | (87,851) |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2018** | | **310,905** |

Mae'r Gronfa'n derbyn cyfran o'r arian a delir gan Grŵp Camelot plc i NLDF ar ôl didyniad ar gyfer costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth weithredu ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri, costau'r rheoleiddiwr (y Comisiwn Hapchwarae), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyled Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.



## 14. Masnach ac arian arall a delir

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| TAW | 276 | 222 |
| Treth a nawdd cymdeithasol arall | 923 | 556 |
| Masnach daladwy | 292 | 353 |
| Yn ddyledus i bartner ar y cyd ar gyfer talu rhwymedigaethau grant | 2,514 | 1,711 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 3,405 | 3,200 |
| Symiau taladwy eraill | 1,147 | 707 |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 579,742 | 550,099 |
| | **588,299** | **556,848** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 657,323 | 816,346 |
| | **657,323** | **816,346** |

### Rhwymedigaethau Grant

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol wedi'u dosbarthu'n ddarpariaethau os byddant yn bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, neu, os na fyddant, fel croniadau.

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau £000 | Taliadau Ies anochel £000 | Cyfraniadau ymddeol yn gynnar £000 | Darpariaethau diswydd £000 | Trosglwyddo cyfrifon segur £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2017 | 152 | 1,175 | 17 | 95 | - | 1,439 |
| Darpariaethau newydd a grëwyd | - | 274 | - | 1,109 | 59,700 | 61,083 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | - | (309) | (11) | (80) | - | (400) |
| Darpariaethau a ryddhawyd | (152) | - | - | (15) | - | (167) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2018** | **-** | **1,140** | **6** | **1,109** | **59,700** | **61,955** |

**Taliadau prydles anochel**
Rydym wedi isosod rhan o'n hadeilad yn Llundain i bedwar o denantiaid. Mae rhan o'r ddarpariaeth yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y rhent a godir ar ein tenantiaid a'r hyn y mae'r Gronfa o dan gontract i'w dalu i'w landlordiaid. Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer y gwahaniaeth yn rhent y farchnad gan ddefnyddio cyfradd log dybiedig o 3 y cant.

Ailgontractiom ar gyfer gofod yn ein hadeilad yn Birmingham yn ystod 2016/17 gan leihau'r gofod yr ydym yn ei feddiannu. Yn ystod 2017/18 mae'r ail lawr wedi cael ei rannu i fyny, gan greu lle i'w is-osod. Gan hynny, rydym wedi creu darpariaeth newydd ar gyfer y golled ar y les.

Ar 31 Mawrth 2018, rydym wedi disgowntio'r ddarpariaeth ar gyfer taliadau prydles anochel gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a gynghorwyd gan Drysorlys EM, sef 2.2 y cant.

**Ailstrwythuro: ymddeol yn gynnar, diswyddo a chefnogaeth arall**
O ganlyniad i ailstrwythuro yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd blaenorol, adnabuwyd swyddi penodol fel rhai nad oes eu hangen bellach. O ganlyniad i hyn, mae staff wedi cael eu diswyddo neu wedi ymddeol yn gynnar.

Pan fydd staff cymwys yn ymddeol yn gynnar, mae'r Gronfa o dan rwymedigaeth gontract i fodloni cyfraniadau pensiwn penodol hyd nes y bydd y staff hyn yn cyrraedd y dyddiad ymddeol statudol. Darperir amcangyfrif o'r cyfraniadau hyn yn y dyfodol. Bydd taliadau yn erbyn y ddarpariaeth hon yn parhau am hyd at ddeng mlynedd.

Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer costau diswyddo amcangyfrifedig y staff hynny y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi dechrau ymgynghori â hwy cyn 31 Mawrth 2018. Gwneir taliadau diswyddo'n unol â threfniadau a thelerau cytundebol a amlinellir yn nhrefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

**Dadfeiliadau**
Sefydlom ddarpariaethau dadfeiliadau yn 2015/16 mewn perthynas â'n swyddfa yn Glasgow yn dilyn adleoli o dan les newydd. Rydym bellach wedi rhyddhau'r ddarpariaeth hon gan nad ydym yn disgwyl unrhyw gostau mwyach.

**Trosglwyddo cyfrifon segur**
Mae Reclaim Fund Ltd wedi adnabod £152.8m sydd ar gael i'w ddosbarthu i'r Gronfa Loteri Fawr yn ei blwyddyn ariannol hyd at fis Rhagfyr 2017 ac wedi cofnodi hwn fel credydwr. Gan hynny mae'r Gronfa wedi cofnodi hwn fel incwm derbynadwy a bydd yn tynnu'r arian i lawr fel y bo angen i gefnogi'r rhaglenni cysylltiedig. Mae dyfarniadau ar gyfer Cymru a'r Alban yn cael eu gwneud o dan raglenni presennol a bydd dyfarniadau ar gyfer Lloegr yn dechrau cael eu gwneud yn ystod 2019/19 ynghyd â dosbarthiadau i Big Society Trust (BST). Rydym wedi gwneud darpariaeth ar gyfer y dosbarthiad disgwyliedig hwn o £59.7m i BST yn 2018/19. Rydym wedi'i asesu'n seiliedig ar y gyfran o'r cyfanswm y disgwylir y caiff ei aseinio i BST dros dair blynedd yn unol â chyhoeddiad DCMS ym mis Ionawr 2018.



## 16. Croniadau grant

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 |
|---|---|
| **Symud croniadau grant** | |
| Rhwymedigaethau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2017 | 1,366,445 |
| Rhwymedigaethau grant a wnaed | 523,781 |
| Rhwymedigaethau wedi darfod a'u diddymu | (11,428) |
| Rhwymedigaethau grant a fodlonwyd | (641,733) |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2018** | **1,237,065** |

| | Ar 31 Mawrth 2018 £000 | Ar 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| **Dosbarthiad croniadau grant ar ddiwedd y flwyddyn** | | |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 579,742 | 550,099 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 657,323 | 816,346 |
| Cyfanswm croniadau grant | 1,237,065 | 1,366,445 |
| **Croniadau grant sy'n heneiddio** | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 579,742 | 550,099 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | 338,175 | 377,762 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | 158,537 | 213,296 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | 69,907 | 103,162 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | 31,720 | 46,016 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | 58,984 | 76,110 |
| | 1,237,065 | 1,366,445 |

## 17. Rhwymedigaethau Amodol
Datgelir grantiau fel rhwymedigaethau amodol os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu trin fel rhwymedigaethau.

| | Ar 31 Mawrth 2018 £000 | At 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| Dyfarniadau grant a wneir gan y Gronfa nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu trin fel rhwymedigaethau | (36,876) | (108,700) |
| Cyfanswm rhwymedigaethau grant amodol | **(36,876)** | **(108,700)** |

Nid oes unrhyw rwymedigaethau amodol eraill, pell neu fel arall

## 18. Cynlluniau ar y cyd

### Parks for People

Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Rydym wedi cytuno i gyfrannu hyd at £157 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £384 miliwn. Wedi'i gynnwys o fewn rhwymedigaethau grant mae £11.3 miliwn o rwymedigaethau grant a rhwymedigaethau amodol o £18.3 miliwn gan gynrychioli ein cyfraniad at y cynllun Parks for People ar y cyd. Mae ffigur y credydwyr yn cynnwys £2.5m sy'n ddyledus i National Heritage Memorial Fund mewn perthynas â'n cyfraniad i daliadau y maent wedi'u gwneud i dderbynyddion grant.

### Rethinking Parks

Gweinyddir y cynllun hwn gan Nesta ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Rydym wedi cytuno i gyfrannu hyd at £1.67 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £2 miliwn. Nid oes unrhyw rwymedigaethau amodol mewn perthynas â'r cynllun ar y cyd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r ffigur dyledwyr yn cynnwys £1.67 miliwn sydd i fod i gael ei ddosbarthu i dderbynyddion grant gan Nesta mewn perthynas â'n cyfraniad at y cynllun.

## 19. Cysoni incwm a gwariant i'r llif arian net o weithgareddau gweithredu

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| **Gwarged/ (Diffyg) dros y cyfnod** | 172,959 | (114,274) |
| Gwaredu asedau anghyfredol | - | - |
| Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar ac amorteiddio asedau anniriaethol | 2,866 | 2,426 |
| Colled gwerth gostyngol | - | - |
| Gwarged/(Diffyg) wedi'i addasu ar gyfer trafodion anariannol | 175,825 | (111,848) |
| (Cynnydd) mewn masnachu ac arian arall a dderbynnir | (190,409) | (15,787) |
| Gostyngiad yn y balans NLDF | 87,850 | 15,277 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn masnachu ac arian taladwy arall | (127,571) | 110,893 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau | 60,516 | (3,526) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | **6,211** | **(4,991)** |



## 20. Risgiau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' ('IFRS 7') yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau. Gan nad oes gan y Gronfa Loteri Fawr bwerau i fenthyg arian, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risg na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau a restrir y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r mudiad.

Mae hyn yn golygu bod y Gronfa Loteri Fawr yn agored i ychydig iawn o risgiau uniongyrchol o ran hylifedd, y farchnad neu gredyd.

### Risgiau hylifedd

Bodlonir gofynion arian parod ar gyfer gwariant Loteri trwy dynnu i lawr yn erbyn rhagamcaniadau angen wythnosol o'r balansau a ddelir ar ran y Gronfa yn y NLDF. Ym mis Mawrth 2017 balans y gronfa oedd £399 miliwn, roedd hyn wedi gostwng i £311 miliwn erbyn 31 Mawrth 2018, bryd hynny roedd gwerth £1,237 o rwymedigaethau grant i'w talu o hyd. Wrth gyllidebu ar gyfer gwariant cyfredol, mae'r Gronfa'n cydbwyso all-lif y taliadau arian parod yn erbyn rhwymedigaethau grant ynghyd â blaen-rhagamcaniadau o incwm Loteri.

Yn 2017/18 deilliodd £656 miliwn (79.7 y cant) o incwm y Gronfa o'r Loteri Genedlaethol, gan gynnwys incwm o £1.9 miliwn a ddeilliodd o enillion buddsoddi'r balans a ddelir gyda'r NLDF. Roedd incwm o arian cyfrifon segur yn £153m (18.6 y cant). Mae'r incwm sy'n weddill yn swm bach o log banc a mân incwm.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 |
|---|---|
| **Asedau hylifol ar 31 Mawrth 2018** | |
| Gwerth marchnad buddsoddiadau NLDF | 310,905 |
| Arian parod | 45,646 |
| **Cyfanswm** | **356,551** |

### Risgiau marchnad a chyfraddau llog

Mae asedau ariannol y Gronfa Loteri Fawr yn cael eu dal yn bennaf yn NLDF, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau isel eu risg megis bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian hwn. Ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, £311 miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau yn NLDF ar y farchnad. Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 0.35 y cant yn ystod y flwyddyn. Delir y balansau arian sy'n cael ei dynnu i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i dalu am rwymedigaethau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol â chyfradd llog o 0.05 y cant yn ystod y flwyddyn. Roedd y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £46 miliwn. Mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa'n agored i risgiau cyfraddau llog sylweddol.

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - Cronfa Loteri Fawr | 24,751 | 13,070 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - arian cyfrifon segur | 20,895 | 27,438 |
| Sterling ar gymysgedd o gyfraddau penodol | 310,905 | 398,756 |
| | **356,551** | **439,264** |

**Risgiau credyd**
Mae arian derbynadwy y Gronfa'n cynnwys balansau rhynglywodraethol Mae'r balansau rhynglywodraethol yn bennaf gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri ac yr oeddent oll wedi'u had-dalu neu eu cytuno erbyn cyfnod llofnodi'r cyfrifon.

Ar ddiwedd y flwyddyn cofnododd y Gronfa ddyledwr o £152.8m gyda Reclaim Fund Limited. Mae hyn yn cynrychioli'r symiau yr adnabyddir eu bod ar gael i'r Gronfa i'w dosbarthu o dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 nad ydynt wedi'u tynnu i lawr o Reclaim Fund Limited eto. Delir y rhain gan Reclaim Fund mewn cyfrifon arian parod risg isel gan gynnwys gyda Banc Lloegr. Nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod y Gronfa'n agored i risgiau credyd sylweddol.

**Risgiau Arian Tramor**
Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn dal unrhyw asedau nad ydynt mewn gwerth Sterling ac nid yw'n agored i unrhyw risgiau arian tramor.

### Asedau ariannol fesul categori

| Asedau'n unol â'r Datganiad sefyllfa ariannol | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Asedau anghyfredol | 8,503 | 10,297 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 310,905 | 398,756 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - Cronfa Loteri Fawr | 24,751 | 13,070 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod - arian cyfrifon segur | 20,895 | 27,438 |
| Benthyciadau a thaliadau derbynadwy | 211,435 | 24,031 |
| | **576,489** | **473,592** |

**Prisiad Teg**
Mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r llyfrwerth gyfateb i'r gwerth teg ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol. Ar y sail bod:

1. Yr holl adneuon arian parod mewn banciau masnachol.
2. Ni thybir bod angen darpariaeth ar gyfer drwgddyled.
3. Er ein bod yn datgelu gwerth £657 miliwn o rwymedigaethau grant nad ydynt yn ddyledus i gael eu talu tan ar ôl un flwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r Gronfa o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf.
4. Mae'r holl eitemau taladwy yn ddyledus o fewn telerau contract arferol, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng llyfrwerth a gwerth teg.



### Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad sefyllfa ariannol | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ymhen llai na blwyddyn | 588,299 | 556,848 |
| Ymhen mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | 338,175 | 377,761 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | 260,164 | 362,474 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | 58,983 | 76,110 |
| | **1,245,622** | **1,373,193** |

Mae'r Datganiad sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn ac mewn mwy na blwyddyn. Mae'r rhaniad hwnnw'n seiliedig ar brofiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan granteion gan nad yw ein contractau gyda granteion yn cynnwys y cyfryw raniad.

## 21. Rhwymedigaethau ariannol

**Rhwymedigaethau o dan lesi gweithredol**
Rhoddir cyfanswm isafswm taliadau les y dyfodol o dan lesi gweithredol yn y tabl isod:

| | Ar 31 Mawrth 2018 | Ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| Lesi eiddo a ddelir fel lesai: | £000 | £000 |
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 5,388 | 5,270 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | 16,465 | 21,152 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | 3,458 | 4,209 |
| | **25,311** | **30,631** |

| | Ar 31 Mawrth 2018 | Ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| Lesi eiddo a ddelir fel leswr: | £000 | £000 |
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 2,734 | 1,843 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | 5,971 | 8,706 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | - | - |
| | **8,705** | **10,549** |

Fel a ddisgrifir ym mholisi cyfrifyddu 1.7 ni ellir rhannu lesi'n ddibynadwy rhwng tir ac adeiladau ond mae'r ddwy elfen yn lesi gweithredu.

## 22. Cynllun pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gall cyflogeion fod naill ai mewn cynllun buddiant diffiniedig cyfartaledd gyrfa (alpha) neu bensiwn budd-ddeiliad (cyfrif partneriaeth). Trosglwyddwyd cynllun cyflog terfynol (classic, classic plus neu premium) a'r cynllun cyfartaledd gyrfa – nuvos – i alpha yn 2015 ar gyfer y rhan fwyaf o aelodau. Cadwodd aelodau fuddiannau cynlluniau cyflog terfynol blaenorol ar gyfer gwasanaeth hyd at y pwynt trosglwyddo. Nid yw'r trefniadau buddiant diffiniedig statudol yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan arian a bennir gan Senedd y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos a'u cynllun olynol alpha yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae'r pensiwn cyfrif partneriaeth yn bensiwn budd-ddeiliad 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr.

Ar gyfer y cynllun alpha mae cyfraniadau cyflogeion wedi'u pennu ar isafswm graddfa ar gyfer aelodau sydd â chyflogau pensiynadwy o dan £15,000 o 4.6 y cant o enillion pensiynadwy. Mae hyn yn cynyddu mewn bandiau hyd at uchafswm o 8.05 y cant ar gyfer aelodau sydd â chyflog pensiynadwy dros £150,000. Cronnodd buddiannau'r cynllun classic ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Cronnodd buddiannau'r cynllun premiwm ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn alpha, mae aelodau'n cronni pensiynau'n seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod eu haelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn wedi'i ennill yn cael ei gredydu gyda 2.32 y cant o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio'n unol â'r CPI. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) y pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a ganiateir gan ddeddfwriaeth dreth.

Trefniad pensiwn budd-ddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. O 1 Hydref 2015, mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn budd-ddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr).

Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar gyfer 2017/18, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £182,834 yn daladwy i'r cyfrif pensiwn partneriaeth (2016/17:£158,770).

Ceir manylion pellach am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan

www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2017/18, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £4,798,382 yn daladwy i'r cyfrif pensiwn partneriaeth (2016/17: £4,816,480) ar un o bedair graddfa yn yr amrediadau isod. Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadeiladu bob pedair blynedd yn sgil prisiad llawn o'r cynllun. Cynhaliwyd y prisiad diweddaraf, wedi'i gyflawni gan Hewitt Associates, ar 31 Mawrth 2012. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n cael eu codi, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer 2017/18 yn cyfateb i argymhellion gan yr Actiwari.



Ar hyn o bryd, mae cyflogwyr yn talu 20.9 y cant o gyflog eu cyflogeion ar gyfartaledd fel cyfraniad pensiwn. Mae'r union ffigur yn dibynnu ar gyflogau'r cyflogeion unigol.

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| £23,000 ac yn is | 20.0% | £22,500 ac yn is | 20.0% |
| £23,001 - £45,500 | 20.9% | £22,501 - £45,000 | 20.9% |
| £45,501 - £76,000 | 22.1% | £45,001 - £76,000 | 22.1% |
| £76,001 ac yn uwch | 24.5% | £76,001 ac yn uwch | 24.5% |

Nifer y staff y gwnaed cyfraniadau pensiwn ar eu cyfer yn 2017/18 oedd 26 classic, 42 premium, 13 nuvos ac 915 alpha. Mae'r cyfanswm o 996 yn cynrychioli'r mwyafrif o gyfanswm yr aelodau staff unigol parhaol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

Lefel ragfynedig cyfraniadau'r cyflogwr i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2018/19, yn seiliedig ar ddyfarniad tâl 1 y cant ar lefelau tâl 2017/18, yw £4,846,366.

Fel cynllun amlgyflogwr heb ei ariannu sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector cyhoeddus, mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth, Undebau Llafur ac aelodau mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol, ei sefyllfa actiwaraidd a lefelau tebygol cyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr. Mewn cyffredin â'r holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae'r tebygolrwydd o gynnydd yn lefel y cyfraniadau'n rhan o'r trafodaethau hyn.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddiant diffiniedig amlgyflogwr, felly ni allwn adnabod ein cyfran ni o asedau neu rwymedigaethau'r cynllun.

## 23. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2018 rydym wedi dileu colledion o £1,923,040, gan gynrychioli 180 o ddyfarniadau (2016/17 £2,983,979 gan gynrychioli 241 o ddyfarniadau). Nid oedd unrhyw ddileadau uwchben £100,000 (2016/17 £610,966 gan gynrychioli 3 dyfarniad).

**Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:**

- gwnaed grant yn anfwriadol i fudiad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2018, gwnaed 1 taliad arbennig gwerth cyfanswm o £6,089 (2016/17 £18,066 gan gynrychioli 3 dyfarniad) mewn perthynas â thrafodion grant.

## 24. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol. Ei hadran noddi yw DCMS. Gan hynny, mae DCMS wedi cael ei drin fel parti cysylltiedig trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn , rydym wedi cynnal trafodion materol amrywiol gyda DCMS a chyrff eraill yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Mae trafodion gyda DCMS yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd drwy Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a secondio staff i mewn. Mae trafodion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri'n cynnwys incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli dyfarniadau a darparu gwasanaethau proffesiynol.

Mae taliadau'n cael eu gwneud i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer eu gwasanaethau rhedeg rhaglenni grant.

At hynny, mae gennym nifer o drafodion materol gydag adrannau a chyrff Llywodraeth sy'n ystyried adrannau llywodraeth eraill fel eu hadrannau noddi hwy:

- Cyllid a Thollau EM mewn perthynas â thrafodion Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol
- Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi contractio rheolaeth y Gronfa Building Better Opportunities i'r Gronfa trwy DWP fel awdurdod rheoli.
- Mae'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol wedi contractio rheolaeth Cronfa Cymunedau'r Arfordir i'r Gronfa. O dan y trefniadau hyn, mae pob un o weinyddiaethau datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn pennu'r agwedd at ariannu gyda'r portffolio perthnasol ar gyfer y Gronfa
- Mae'r Swyddfa Cymdeithas Sifil wedi contractio rheolaeth y Social Incubator Fund, Local Sustainability Fund, Life Chances Fund, Youth Investment Fund, Place Based Social Action a'r Gronfa #iwill i'r Gronfa Loteri Fawr

Mae'r Gronfa Buddsoddi Ieuenctid a'r Gronfa #iwill yn rhaglenni arian cyfatebol lle mae'r Gronfa'n cyfrannu ei hadnoddau arian loteri ac mae'n gyfrifol hefyd am wneud penderfyniadau am ddyfarniadau grant

**Aelodau Bwrdd**

Mae'r Gronfa'n glynu wrth gôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae aelodau Bwrdd yn cynnal cofrestrau buddiannau sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa ynghyd â pherthnasoedd masnachol pan fydd gan neu pan allai fod gan fudiadau berthynas gyda ni.

Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellid tybio'n rhesymol y byddent yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran grantiau i gyrff gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau ar y dechrau bod datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod pwyllgor yn gadael yn ystod unrhyw drafodaeth o'r eitem berthnasol. Mae'n ofynnol hefyd i'n staff ddatgelu unrhyw fuddiannau perthnasol mewn mudiadau rydym yn eu hariannu neu yr ydym yn derbyn ceisiadau ganddynt. Mae ein gweithdrefnau'n sicrhau hefyd nad yw swyddogion grant yn ymwneud â phrosesu ceisiadau y byddai ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd wedi datgan buddiannau mewn cyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gennym fuddiannau busnes â nhw. Datgelir y rhain ar dudalennau 75 i 77.



## 25. Asedau trydydd parti

Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yr ydym yn rheoli rhaglenni grant ar eu rhan ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, i wneud taliadau a brosesir gan y Gronfa Loteri Fawr o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Nid yw'r balansau hyn wedi'u cynnwys o fewn ein cyfrifon ein hunain.

Ar 31 Mawrth 2018 cadwyd y balansau banc a ganlyn ar ran trydydd partïon:

| | 31/03/17 | Mewnlifoedd | All-lifoedd | 31/03/18 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| DCMS : Advice Services Transition Fund, Social Incubator Fund, Local Sustainability Fund, Life Chances Fund, Youth Investment Fund, Cronfa #iwill, Place Based Social Action | 9,581 | 12,684 | 20,692 | 1,573 |
| Cyngor Celfyddydau Lloegr; Arian i Bawb Lloegr | 7 | - | - | 7 |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri; Arian i Bawb; Lloegr, Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon | 4 | - | 1 | 3 |
| Sport England; Arian i Bawb Lloegr | 9 | - | - | 9 |
| Creative Scotland; Arian i Bawb Yr Alban | (48) | 535 | 497 | (10) |
| Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol | 359 | 2,173 | 1,148 | 1,384 |
| Llywodraeth Cymru; Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 25 | - | 23 | 2 |
| Scottish Celebrate | 83 | 1 | - | 84 |
| Sports Scotland; Arian i Bawb Yr Alban | (441) | 135 | 607 | (913) |
| Llywodraeth Yr Alban; Communities and Family Fund, Scottish Land Fund | 1,063 | 6,839 | 5,193 | 2,709 |
| Trysorlys EM; Cronfa Cymunedau'r Arfordir | 952 | 7,415 | 3,455 | 4,912 |

Daw balansau negyddol i'r amlwg oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng y Gronfa'n ymrwymo arian a derbyn y cyllid angenrheidiol gan y trydydd parti.

## 26. Menter ar y Cyd – Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol

Mae Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol (NLPU) yn fenter ar y cyd rhwng Grŵp Camelot plc, y dosbarthwyr Loteri a DCMS. Sefydlwyd NLPU i gynyddu ymwybyddiaeth gadarnhaol a chefnogaeth y cyhoedd o ddosbarthu arian Loteri ar draws y Deyrnas Unedig, gan gyfrannu at iechyd cyffredinol y Loteri Genedlaethol a hyrwyddo teyrngarwch a chyfranogiad. Ariennir traean o NLPU gan Camelot a dau draean yn uniongyrchol gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.  Mae'r cyfanswm gwariant wedi'i gyfyngu i £3 miliwn. Mae'n atebol i Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys cynrychiolwyr tri budd-ddeiliad allweddol: Camelot, y dosbarthwyr Loteri a DCMS, gyda'r Comisiwn Hapchwarae'n bresennol fel arsylwr.

Nid yw cyfran y fenter ar y cyd sy'n ymwneud â'r Gronfa wedi'i chyfuno o fewn y cyfrifon blynyddol o ystyried ei hanfateroldeb.

Mae mwy o wybodaeth a chyfrifon NLPU ar gael yn www.achosiondayloteri.org.uk

## 27. Rhwymedigaethau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2018 roeddem wedi cychwyn ar y broses o adnewyddu gofod yn ein swyddfa yn Newcastle ond ni wnaethpwyd unrhyw rwymedigaethau cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn. Roeddem hefyd wrthi'n gosod gofod newydd ym Manceinion ar ôl creu cynllun i adael llety a wasanaethir. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd rhwymedigaethau cyfalaf gwerth £0.1m. (2016/17: £0.7 miliwn)

## 28. Asedau amodol

Mae hawl gan Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol dderbyn cyfran o enillion o werthu tir ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn gyfnewid am gyfrannu £675m ychwanegol i ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain. Mae'r trefniadau wedi'u disgrifio mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Awdurdod Llundain Fawr dyddiedig 29 Mawrth 2012 sy'n disgrifio dosbarthiad yr arian rhwng Awdurdod Llundain Fawr a'r dosbarthwyr loteri (trwy DCMS). Mae gwerthu'r tir yn debygol o ddigwydd dros gyfnod hir, yr amcangyfrifir y bydd rhwng 2016-17 i 2036-37. Mae DCMS yn amcangyfrif y daw'r taliadau cyntaf i'r Dosbarthwyr Loteri tua 2020-21.

Fel olynydd i Gomisiwn y Mileniwm, mae gan y Gronfa Loteri Fawr hawl i gyfran o'r elw o werthu tir ar Benrhyn Greenwich a wnaed gan Awdurdod Llundain Fawr, wedi i gostau penodol gael eu talu. Rhagwelir y caiff taliadau o £50 miliwn (2016/17: £87m) eu gwneud rhwng 2016 a 2037, y mae £7.8 miliwn ohono wedi'i dderbyn erbyn diwedd 2017/18.

## 29. Adolygiad ar ôl y fantolen

Ar adeg llofnodi'r cyfrifon, ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen a fyddai'n addasu'r ffigurau a adroddwyd yn y datganiadau ariannol neu y mae angen eu datgelu. Awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon ar ddyddiad llofnodi'r dystysgrif archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.



## 30. Cyfrifon segur

**Arian cyfrifon segur**

O dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008, gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i Reclaim Fund Ltd, endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl.

Mae Reclaim Fund Ltd yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu'r arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a chyfarwyddiadau a gyhoeddir iddi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon mewn perthynas â gwariant yn Lloegr a chan y gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â gwariant ym mhob un o Gymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Dosrennir arian rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn unol ag offeryn statudol a gymeradwyir gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Didynnir y costau a delir gan y Gronfa a'r Gweinidog mewn perthynas â gweithredu'r cynllun yn gyffredinol cyn eu dyrannu rhwng y pedair gwlad.

Didynnir y costau a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r gwledydd unigol o'r arian a ddyrennir.

Ym mis Ionawr 2018 cyhoeddodd DCMS ryddhau cyllid pellach sy'n deillio o Gyfrifon Banc Segur, y disgwylir y bydd gwerth hyd at £330m dros bedair blynedd. Bydd cyfran o'r cyllid hwn, hyd at 3135m, yn parhau i fod ar gael i Big Society Trust i alluogi Big Society Capital i ariannu llety sefydlog a hir dymor ar gyfer grwpiau bregus yn ei rôl fel cyfanwerthwr buddsoddi cymdeithasol. Caiff gweddill cyfran y cyfanswm sydd ar gael ar gyfer Lloegr ei dyfarnu trwy raglenni a reolir gan y Gronfa Loteri Fawr yn unol â'r themâu a ddisgrifir yn y Ddeddf. Caiff y rhaglenni newydd hyn eu dylunio mewn ymgynghoriad â DCMS ac yn unol â chyfarwyddiadau polisi newydd sydd i'w cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn flaenorol trosglwyddwyd yr holl gyllid a ddyrennir i Loegr gan y Gronfa i Big Society Trust fel derbynnydd a enwebwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf.

Mae Reclaim Fund Ltd wedi adnabod £152.8m sydd ar gael i'w ddosbarthu i'r Gronfa Loteri Fawr yn ei blwyddyn ariannol hyd at fis Rhagfyr 2017 ac wedi cofnodi hwn fel credydwr. Gan hynny mae'r Gronfa wedi cofnodi hwn fel incwm derbynadwy a bydd yn tynnu'r arian i lawr fel y bo angen i gefnogi'r rhaglenni grant. Mae dyfarniadau ar gyfer Cymru a'r Alban yn cael eu gwneud o dan raglenni presennol a bydd dyfarniadau ar gyfer Lloegr yn debygol o ddechrau cael eu gwneud yn ystod 2018/19 ynghyd â dosbarthiadau i Big Society Trust. Bydd dyfarniadau a wnaed o dan y rhaglenni hyn yn cael eu trin yn yr un modd â'r dyfarniadau a wneir mewn perthynas ag incwm gan y Loteri Genedlaethol ac yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Mae'r Gronfa wedi cydnabod fel darpariaeth y gyfran o'r incwm sydd ar gael y disgwylir iddo gael ei drosglwyddo i Big Society Trust.

Mewn perthynas â Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r Gronfa'n gwneud dyfarniadau grant mewn modd tebyg i arian Loteri, felly mae rhwymedigaethau dros ben o ddyfarniadau grant a wnaed nad ydynt wedi cael eu tynnu i lawr gan dderbynyddion grantiau eto. Hyd yma nid yw cyfarwyddiadau wedi'u cwblhau mewn perthynas â Gogledd Iwerddon  ac o ganlyniad i hyn ni wnaethpwyd unrhyw ddyfarniadau.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dal arian a dynnwyd i lawr o Reclaim Fund Limited nad yw wedi'i dalu eto fel adneuon mewn banciau masnachol.

## 30a. Cyfrifon segur – Datganiad incwm cynhwysfawr

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Derbyniwyd/Derbynadwy gan Reclaim Fund Ltd | 152,800 | 94,450 |
| Llog banc derbynadwy | 103 | 162 |
| **Cyfanswm incwm** | **152,903** | **94,612** |
| **Gwariant** | | |
| **Gwariant ar raglenni** | | |
| Trosglwyddiadau i Big Society Trust | 59,700 | 78,896 |
| Gwariant ar grantiau | 3,890 | 7,013 |
| | 63,590 | 85,909 |
| **Costau gweithredu** | | |
| Costau gweithredu | 349 | 294 |
| **Cyfanswm gwariant** | **63,939** | **86,203** |
| **Gwarged cyn treth** | **88,964** | **8,409** |
| Treth | – | – |
| **Gwarged ar ôl treth** | 88,964 | 8,409 |
| **Cyfanswm incwm net cynhwysfawr** | 88,964 | 8,409 |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2017 | 12,046 | 3,637 |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 88,964 | 8,409 |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2018 | 101,010 | 12,046 |

## 30b. Datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 £000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 £000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall a dderbynnir | 152,800 | – |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 20,895 | 27,438 |
| **Cyfanswm asedau** | 173,695 | 27,438 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Masnach ac arian arall sy'n daladwy | (91) | (18) |
| Darpariaethau | (59,700) | – |
| Rhwymedigaethau grant | (12,893) | (15,374) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **(72,685)** | **(15,392)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | **101,010** | **12,046** |
| Gwarged argadwedig | 101,010 | 12,046 |

## 30c. Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl gyda Dyraniad fesul Gwlad

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | | | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm | Cyfanswm |
| **Dadansoddiad Cylchrannol** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm | – | – | – | – | 152,903 | 94,612 |
| Llai costau gweithredu | – | – | – | – | (349) | (294) |
| Incwm Net sydd ar gael i'w ddosbarthu | | | | | 152,554 | 94,318 |
| **Ar gael i bob gwlad** | 127,993 | 12,815 | 7,475 | 4,271 | | |
| Trosglwyddiadau i Big Society Trust | (59,700) | – | – | – | (59,700) | (78,896) |
| Rhwymedigaethau Grant a wnaed | – | (3,110) | (780) | – | (3,890) | (7,013) |
| Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn | 68,293 | 9,705 | 6,695 | 4,271 | 88,965 | 8,409 |
| Balans arian a ddygwyd ymlaen | 167 | 3,231 | (1,443) | 10,091 | 12,046 | 3,637 |
| **Balans yr arian a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2018** | **68,460** | **12,936** | **5,252** | **14,362** | **101,010** | **12,046** |
| **Symud croniadau grant** | | | | | | |
| Rhwymedigaethau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2017 | – | 4,348 | 11,026 | – | 15,374 | 14,377 |
| Rhwymedigaethau grant a wnaed | – | 3,123 | 780 | – | 3,904 | 7,105 |
| Rhwymedigaethau wedi darfod a'u diddymu | – | (14) | – | – | (14) | (52) |
| Ad-daliadau | – | – | – | – | – | (11) |
| Rhwymedigaethau grant a fodlonwyd | – | (4,193) | (2,177) | – | (6,371) | (6,046) |
| **Croniad a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2018** | – | **3,264** | **9,629** | **–** | **12,893** | **15,374** |
| **Croniadau grant sy'n heneiddio** | | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | – | 2,705 | 3,079 | – | 5,784 | 5,738 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | – | 559 | 2,970 | – | 3,528 | 3,664 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | – | – | 2,706 | – | 2,706 | 2,671 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | – | – | 429 | – | 429 | 2,732 |
| Yn ddyledus o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | – | – | 230 | – | 230 | 197 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd | – | – | 215 | – | 215 | 372 |
| | **–** | **3,264** | **9,629** | **–** | **12,893** | **15,374** |



# Ein cefndir statudol

## Cyfarwyddiadau Polisi

Rhoddir y pŵer i'n hadran noddi a'r gweinyddiaethau datganoledig o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 i roi Cyfarwyddiadau mewn perthynas â materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu grantiau.

Mae'r cyfarwyddiadau polisi cyfredol mewn perthynas â Lloegr, Ynys Manaw ac ariannu Deyrnas Unedig wedi'u disgrifio isod. Cyhoeddwyd y rhain gan Swyddfa'r Cabinet ac fe ddaethant i rym at 1 Ebrill 2012. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon fydd yn gyfrifol am gyfarwyddiadau polisi'r dyfodol yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau o Swyddfa'r Cabinet yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn ym mhob agwedd faterol trwy gydol y flwyddyn ariannol 2017/18.

Disgrifir y cyfarwyddiadau polisi cyfredol mewn perthynas â Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, sydd wedi'u cyhoeddi gan y gweinyddiaethau datganoledig priodol, yn ddiweddarach yn yr adran hon.

## Lloegr a'r Deyrnas Unedig

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(1)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993 (fel y'i diwygir)**

Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir).

Trwy hyn mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, wrth weithredu'r pwerau a roddir iddo gan adran 36E(1)(b) ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 36E(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

## Lloegr, Ynys Manaw a'r Deyrnas Unedig

**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant y Deyrnas Unedig, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu ei harian o dan adran 25(1).

   A. Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir: (i) Yn sicrhau bod pobl yn cymryd rhan ac yn ymwneud â defnyddio grantiau'r Gronfa i ddarparu atebion i'r materion sydd fwyaf pwysig iddynt yn eu cymunedau;

      (ii) Yn helpu adnabod a galluogi'r rhai sy'n barod i arwain y broses o ddarparu'r atebion hyn ac yn dileu rhwystrau ar gyfer y rhai y gallai fod angen cymorth arnynt i wneud hyn; ac

      (iii) Yn cefnogi datrysiadau newydd ac arloesol ochr yn ochr â modelau sydd wedi profi eu gwerth, ac yn cynhyrchu dysgu i helpu datblygiad polisïau ac arfer y tu hwnt i grantiau'r Gronfa.

   B. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyflawni dosbarthiad y grantiau i ledaeniad gweddol eang o brosiectau, yn bennaf y rhai a gyflwynir gan y sector gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mudiadau newydd eu cyfansoddi, mudiadau sy'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd â'u pencadlys yn y Deyrnas Unedig y maent yn gweithio tramor.

C. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

Ch. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a gwneud grantiau, a allai gynnwys partneriaethau â darlledwyr, cyfryngau electronig, print a digidol a chyfryngau eraill

D. Yr angen am sicrhau bod grantiau'n cael ei ddosbarthu ar sail angen, gan gyflwyno canlyniadau mesuradwy ac effaith ehangach ar gyfer cymunedau ac unigolion.

Dd. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i dderbynyddion i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

E. Bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

1. YMGYSYLLTU – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ar ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mewn mentrau cymdeithasol.
2. CYNRYCHIOLAETH – dylai datblygu rhaglenni gymryd y rhai mewn angen mwyaf i ystyriaeth trwy dargedu anghydraddoldeb a gwella gallu pobl a chymunedau i gyfrannu at raglenni'r Gronfa, cymryd rhan ynddynt ac elwa o'r canlyniadau a ariennir trwyddynt.
3. CYNALADWYEDD – gallu'r rhaglen i wella'r amgylchedd heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
4. BUDDION TYMOR HWY – y gall prosiectau gyflawni dichonolrwydd a gwydnwch ariannol dros y tymor hwy.
5. YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt.
6. GWEITHIO AR Y CYD – pan fydd hyn yn cyflawni canlyniadau gwell, dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gefnogi gweithredu ar y cyd rhwng mudiadau a ariennir a phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil.

## Gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu arian, y dibenion dros ddosbarthu arian, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:-

A. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun unigryw polisi a chamau gweithredu'r llywodraeth a chymdeithas sifil gan ychwanegu gwerth mewn ffyrdd priodol at yr amcan o greu cymdeithas fwy teg, rhydd a chyfrifol lle mae pawb yn chwarae rhan wrth wella'u cymuned a helpu ei gilydd.

B. Yr angen am sicrhau y caiff grantiau eu dosbarthu i brosiectau sy'n creu buddion ar gyfer pobl a chymunedau lleol a wasanaethir gan y sector gwirfoddol a chymunedol.

C. Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir yn ymdrin ag un neu fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn:

(i) Annog cyfranogiad cymdeithasol mewn cymunedau a dileu rhwystrau;

(ii) Cryfhau gallu mudiadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol; a

(iii) Chryfhau a chynyddu gallu'r farchnad buddsoddi cymdeithasol i gefnogi buddion cyhoeddus a gweithredu cymdeithasol.

Ch. Yr angen am ystyried:

(i) Buddion a chwmpas cymryd camau effeithiol ar gyfer Lloegr neu Ynys Manaw yn gyffredinol ac ar gyfer rhannau gwahanol o Loegr neu Ynys Manaw; a

(ii) Meintiau poblogaeth a lefelau amddifadedd economaidd a chymdeithasol cymharol mewn rhannau gwahanol o Loegr ac Ynys Manaw.

Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet

28 Mawrth 2012.

## Yr Alban

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993**

Trwy hyn mae Gweinidogion Yr Alban, wrth ddefnyddio'r pwerau a roddir iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo budd y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

Ch. Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

D. Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

Dd. Yr angen:

(i) ym mhob achos, i ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant,'

(ii) pan ymgeisir am grant cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

b) sicrhau bod y broses gwerthuso a rheoli ar gyfer prosiectau sylweddol yn cyfateb i broses Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

E. Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hynny'n dull effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

F. Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa y cyfryw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

Ff. Yr angen am fynnu elfen o gyllid partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da gan ffynonellau eraill sy'n gweddu i allu rhesymol gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, ddod o hyd i'r cyfryw gefnogaeth.

G. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

Ng. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

**Gwariant Datganoledig Yr Alban**

3. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; gweithio yng nghyd-destun y fframwaith perfformiad cenedlaethol i adeiladu Alban fwy teg a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

B. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa yn dosbarthu arian dros amser i ymdrin â'r flaenoriaeth lleihau anghydraddoldeb; ac ar yr un pryd sicrhau lledaeniad rhesymol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y rhai sy'n gweithio ar lefel leol yn unig, mentrau a mudiadau cymdeithasol a mudiadau sydd wedi'u lleoli yn Yr Alban ac yn gweithio tramor.

C. Yr angen am ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban.

Ch. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyfrannu at gynaladwyedd trwy gefnogi gweithgareddau sy'n helpu ymgorffori newidiadau a dylanwadu ar ddatblygu hir dymor.

D. Yn olaf, yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) Hyrwyddo dysgu a datblygu cymunedol;

(ii) Hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol;

(iii) Hyrwyddo grymuso cymunedau a chyfleoedd cynhwysol i bawb gymryd rhan, a

(iv) Hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

4. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i waith sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion a ganlyn.

(i) Lleihau anghydraddoldeb trwy daclo anfantais a gwahaniaethu

(ii) Grymuso pobl trwy alluogi ennyn diddordeb pobl a defnyddio eu dylanwad.

5. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion a ganlyn wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

(i) Cyflawni'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau trwy ddewis y dull mwyaf priodol mewn meysydd polisi priodol er mwyn ychwanegu gwerth at yr ymdrech gyhoeddus gyffredinol

(ii) Trosoli'r gwerth uchaf posib ar gyfer pobl a chymunedau o adnoddau trwy gefnogaeth dros wirfoddoli, gwaith teg a chaffael cynaliadwy.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Yr Alban Chwefror 2016.

## Cymru

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993**

Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir).

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru/Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth weithredu'r pwerau a roddir iddynt/iddo gan adran 36E(4)(a) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn unol ag adran 36E(8)(b) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa.

**CYFARWYDDIADAU – GWARIANT DATGANOLEDIG CYMRU**

Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian o dan Adran 25(1).

A. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyflawni dosbarthiad grantiau i ledaeniad rhesymol eang o brosiectau, yn bennaf y rhai a gyflwynir gan y trydydd sector, gan gynnwys mudiadau bach yn ogystal â mudiadau rhanbarthol a chenedlaethol, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mudiadau newydd eu cyfansoddi, mudiadau sy'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd â'u pencadlys yn y Deyrnas Unedig y maent yn gweithio tramor.

B. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi, llywodraethol, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan sicrhau bod grantiau'n gweddu i ac yn ychwanegu gwerth at waith y Llywodraeth ac yn parhau'n wahanol iddo ar yr un pryd.

C. Yr angen am sicrhau bod grantiau'n cael ei ddosbarthu ar sail angen, gan dargedu anfantais ac anghydraddoldeb er mwyn cyflwyno gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy ar gyfer cymunedau ac unigolion sy'n cael effaith barhaus y tu hwnt i gyfnod ariannu'r Gronfa, ac sy'n cefnogi dulliau ar y cyd ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector mewn cydweithrediad ag, a chan weddu i, egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy.

Ch. Yr angen am ystyried buddiannau Cymru'n gyffredinol a rhannau gwahanol o Gymru, y meintiau poblogaeth cymharol a'r lefelau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Gymru.

D. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

Dd. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth bennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

E. Yr angen am hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, a sicrhau bod derbynyddion grantiau'n mabwysiadu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

F. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu sy'n gwella amgylchedd Cymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac ar yr un pryd hyrwyddo ei botensial i wella ansawdd bywyd cymunedau ac unigolion

Ff. Yr angen am ddarparu cefnogaeth i'r sawl sy'n ymgeisio i'r Gronfa, ac i fudiadau sy'n derbyn grantiau, er mwyn gwella cyflwyno canlyniadau prosiect a'u galluogi i ddarparu atebion cadarnhaol i'r materion sydd o'r pwys mwyaf iddyn nhw a'u cymunedau.

G. Yr angen am gefnogi atebion newydd ac arloesol ochr yn ochr â modelau sydd wedi profi eu gwerth, gan gynhyrchu dysgu i helpu datblygiad polisïau ac arfer y tu hwnt i grantiau'r Gronfa Loteri Fawr.

Ng. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl ddyfarniadau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

H. Yn olaf, yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n ffocysu gwariant ar gyflawni'r canlyniadau a ganlyn dros amser:

- Mae pobl yn iach ac yn byw bywydau cynhyrchiol mewn cymdeithas ffyniannus ac arloesol
- Amgylchedd gwledig a threfol gwydn gyda defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru
- Cryfheir amgylchiadau i greu cymunedau mwy cryf, diogel a chydlynol, gan wella cyfiawnder cymdeithasol ac ar yr un pryd, lliniaru effaith tlodi yn ogystal ag annog twf economaidd cynaliadwy.

## Gogledd Iwerddon

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E (4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993**

Trwy hyn mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, wrth ddefnyddio'r pwerau a roddir iddo gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.



**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

A. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

Ch. Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

D. Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

Dd. Yr angen: ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) pan ymgeisir am grant cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau bod y broses gwerthuso a rheoli ar gyfer prosiectau sylweddol yn cyfateb i broses Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol cyllid arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

E. Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

F. Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa y cyfryw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

Ff. Yr angen am fynnu elfen o gyllid partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da gan ffynonellau eraill sy'n gweddu i allu rhesymol gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, ddod o hyd i'r cyfryw gefnogaeth.

G. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

Ng. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

**Gwariant Datganoledig Gogledd Iwerddon**

3. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y bydd yn dosbarthu arian:

   A. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yng Ngogledd Iwerddon.

   B. Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar neu sy'n gysylltiedig â:

      (i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

      (ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

      (iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

   C. Yr angen am ystyried buddiannau Gogledd Iwerddon yn gyffredinol, buddiannau holl rannau gwahanol Gogledd Iwerddon a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Ogledd Iwerddon.

4. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

   A. Mae gan bobl gyfle i gyflawni eu potensial llawn

   B. Gall pobl gymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau i greu newidiadau cadarnhaol

   C. Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel.

   Ch. Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

5. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

   A. Gwella sgiliau hanfodol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd.

   B. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymunedol.

   C. Adeiladu gallu cymunedau.

   Ch. Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli ac ennyn diddordeb rhwng ac o fewn cymunedau.

   D. Adeiladu partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol.

   Dd. Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol.

   E. Cynyddu cyfranogiad cymunedol wrth amddiffyn, adfer a chynnal yr amgylchedd trefol a gwledig.

   F. Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffordd o fyw mwy iach.

   Ff. Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigolion a chymunedau.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon



## Cyfarwyddyd Cyfrifon

**CYFARWYDDYD CYFRIFON LOTERI A RODDIR GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS DDIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON GYDA CHYMERADWYAETH GAN Y TRYSORLYS, YN UNOL AG ADRAN 36E(3) (c) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 2006)**

1. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn paratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 a blynyddoedd ariannol dilynol mewn cydymffurfiad ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddir gan Drysorlys EM ("y FReM") sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar ei chyfer ynghyd ag unrhyw arweiniad arall y gallai'r Trysorlys ei gyhoeddi o bryd i'w gilydd mewn perthynas â chyfrifon y mae'n ofynnol iddynt ddarparu barn wir a theg.

2. Caiff y cyfrifon eu paratoi fel y byddant yn:

   (a) Darparu barn wir a theg am y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2015 a diwedd blynyddoedd ariannol dilynol, ac am incwm a gwariant cynhwysfawr, llifoedd arian y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; a

   (b) Darparu datgeliad o unrhyw wariant neu incwm materol na chymhwyswyd at y dibenion a fwriedir gan Senedd y Deyrnas Unedig neu drafodion materol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

   (c) Dilyn y gofynion cyfrifyddu a datgelu a ddisgrifir yn Atodiad A.

3. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i weithgareddau dosbarthu'r Gronfa Loteri Fawr.

4. Bydd yn ofynnol cydymffurfio â gofynion FReM o dan yr holl amgylchiadau heblaw am y rhai eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon ddarparu barn wir a theg. Dylid trafod unrhyw wyriad materol o FReM gyda Thrysorlys EM.

Llofnodwyd trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

DATE

## ATODIAD A

**Gofynion Cyfrifyddu a Datgelu Ychwanegol (yn effeithiol o fis Rhagfyr 2006)**

Mae'r paragraffau a ganlyn yn datgelu'r gofynion ychwanegol y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys, yr Adran a'r Gronfa Loteri Fawr, uwchben y datgeliadau hynny sy'n ofynnol yn FReM.

1. Bydd y Datganiad Incwm/Gwariant Cynhwysfawr Net yn cynnwys y canlynol fel eitemau ar wahân, lle bo'n faterol:

   a. cyfran yr enillion Loteri y gellir eu priodoli i'r Gronfa Loteri Fawr

   b. cyfran incwm buddsoddi Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol y gellir eu priodoli i'r Gronfa Loteri Fawr

   c. llog sy'n dderbynadwy ar arian loteri

   ch. ad-dalu grantiau

   d. unrhyw incwm arall

   dd. grantiau a wnaed o arian Loteri

   e. grant sydd wedi darfod neu ei ddiddymu a gofnodwyd yn flaenorol fel rhwymedigaethau o arian Loteri

   f. y cyfanswm costau gweithredu a delir mewn perthynas â gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol

2. Bydd y Datganiad Sefyllfa Ariannol yn cynnwys:

   a. o dan y pennawd "Asedau cyfredol": wedi'i ddangos fel buddsoddiad, y balans a ddelir ar ran y Gronfa Loteri Fawr yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol;

   b. Dylid datgelu grant sy'n dod yn ddyledus i'w dalu o fewn blwyddyn ar wahân o dan y pennawd "Rhwymedigaethau Cyfredol".

   c. Dylid datgelu grant sy'n dod yn ddyledus i'w dalu ar ôl mwy na blwyddyn ar wahân o dan y pennawd "Rhwymedigaethau Anghyfredol"

3. Bydd y Datganiad Llif Arian yn defnyddio'r dull anuniongyrchol wrth gyflwyno "Llif arian o Weithgareddau Gweithredu";

4. Dylai'r Nodiadau i'r Cyfrifon fodloni gofynion FReM a chynnwys:

   a. Datganiad y paratowyd y Cyfrifon ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chaniatâd gan y Trysorlys yn unol ag Adran 35D(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

   b. Datganiad o'r polisïau cyfrifyddu. Mae'n rhaid i hyn gynnwys datganiad sy'n esbonio natur y balansau a ddelir ar ran y Gronfa Loteri Fawr yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:

   "Mae balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae cyfran y balansau hyn y gellir eu priodoli i'r Gronfa Loteri Fawr i'w gweld yn y Cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu bod ar gael i'w ddosbarthu gan y Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas â rhwymedigaethau cyfredol a rhai'r dyfodol."

   c. gwerth ymrwymiadau grant ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u gwneud nad ydynt wedi'u cynnwys fel rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol gan nad oeddent yn bodloni gofynion cael eu trin fel rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw

   ch. Pan fydd grantiau'n fwy na'r adnoddau sydd ar gael fel a ddangosir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol, nodyn sy'n esbonio sail resymegol y gor-ymrwymiad gan gymryd unrhyw gyngor a dderbyniwyd gan yr Adran i ystyriaeth fel y bo'n briodol.

   d. Nodyn sy'n cysoni balans agoriadol a therfynol buddsoddiadau a ddelir yn NLDF. Dylai hyn ddatgelu enillion a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol, incwm buddsoddi, enillion a cholledion nas gwireddwyd ar fuddsoddi, ac arian a dynnwyd i lawr o NLDF

   dd. Dadansoddiad o'r cyfanswm rhwymedigaethau grant (cyfredol ac anghyfredol) yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol i ddangos:

   Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen

   Rhwymedigaethau yn y flwyddyn

   Dadrwymedigaethau

   Rhwymedigaethau a dalwyd

   Rhwymedigaeth a gariwyd ymlaen

   Dadansoddiad o'r rhwymedigaeth ar gyfer bob blwyddyn hyd at a chan gynnwys 5 mlynedd a thros 5 mlynedd

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22(3) DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 FEL Y'I DIWYGIR**

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrth weithredu'r pwerau a roddir iddo gan adran 22(3) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 (c.31) ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") yn unol ag adran 22(7) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Cyhoeddodd y gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet Gyfarwyddyd Gwario ar 2 Mawrth 2012 o dan adran 22(3) y Ddeddf a fynnodd fod y Gronfa'n dosbarthu cyfran Lloegr i gyd o'r arian cyfrifon segur ar ffurf grantiau nad ydynt yn ad-daladwy i Big Society Trust i'w buddsoddi mewn Big Society Capital ("y Cyfarwyddyd Gwario").

2. Dileer y Cyfarwyddyd Gwario yn effeithiol ar unwaith a chyfarwyddir i'r Gronfa beidio â gwneud unrhyw daliadau pellach o gyfran Lloegr o'r arian cyfrifon segur i Big Society Trust hyd nes y cyhoeddir Cyfarwyddiadau pellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf.

3. Bydd y Gronfa'n dal cyfran Lloegr o unrhyw arian cyfrifon segur a drosglwyddir iddi gan y gronfa hawlio'n ôl o dan adran 5(1) y Ddeddf ac yn peidio â gwneud unrhyw ddosbarthiadau pellach mewn perthynas â hi hyd nes y cyhoeddir Cyfarwyddiadau pellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf. Gall y Gronfa barhau i dalu treuliau allan o gyfran Lloegr o'r arian cyfrifon segur yn unol ag adran 26 y Ddeddf.

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22(5)(B) DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 MEWN PERTHYNAS Â GWARIANT YN YR ALBAN**

Trwy hyn mae Gweinidogion Yr Alban, wrth weithredu'r pwerau a roddir iddynt gan adran 22(5)(b) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") yn unol ag adran 22(7) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur o dan y Ddeddf honno mewn perthynas â gwariant Yr Alban, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyffredinol a ganlyn wrth bennu'r sawl i bwy y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, at ba ddibenion y bydd y Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, y broses a ddefnyddir i benderfynu pa daliadau i'w gwneud ac o dan ba amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau.
2. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur fod;

   A. ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat;

   B. ar gyfer prosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol;

   B. must be to projects which make real and sustainable improvements to the quality of life of local communities;

   C. dim ond ar gyfer mudiadau 'trydydd sector', h.y. mudiadau sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion ar gyfer cymdeithas neu'r amgylchedd;

   Ch. cydbwyso'r angen am annog arloesedd gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd; a

   D. dylid ceisio hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.
3. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr sicrhau bod ymgeiswyr:

   A. ym mhob achos yn dangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y dosbarthiad;

   B. mewn achosion pan geisir arian cyfalaf;

   a). dangos cynllun busnes clir gan gynnwys unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, a rhoi ystyriaeth i faint a natur y prosiect; ac

   b). ar gyfer prosiectau mawr, mae ymgeiswyr yn dangos bod prosesau gwerthuso a rheoli prosiectau'n cyfateb i rai Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth; neu

   c). mewn achosion pan na cheisir grant cyfalaf, dylid ystyried argaeledd tebygol unrhyw gyllid arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl i arian cyfrifon segur ddod i ben, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian cyfrifon segur gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.
4. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa sicrhau'r canlynol;

   A. y pennir cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae dosbarthiadau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw;

   B. cynnwys amod ym mhob dosbarthiad bod derbynyddion yn cydnabod defnyddio arian Cyfrifon Segur gan ddefnyddio brand cytunedig Cynllun Cyfrifon Segur Yr Alban;

   C. sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol;

   Ch. cydweithio â mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ddull effeithiol o gyflwyno ei swyddogaethau ac amcanion;

   D. lle bo'n bosib, cynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a gwneud dosbarthiadau;

   Dd. gweithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; cefnogi Alban Fwy Teg wrth ddatblygu cyfleoedd i bawb ffynnu o fewn cenedl sy'n fwy llwyddiannus ac yn fwy cynaliadwy;

   E. dros amser, sicrhau dosbarthiad arian i ledaeniad rhesymol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y rhai sy'n gweithio ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd wedi'u lleoli yn Yr Alban ac yn gweithio tramor;

   F. ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban;

   Ff. sicrhau y bwriedir i brosiectau gyfrannu at gyflawni diben trosgynnol Llywodraeth Yr Alban o dwf economaidd cynyddol a chynaliadwy a hefyd un neu fwy o'r amcanion strategol a ganlyn:

   MWY CLYFAR: Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd

   MWY CRYF A DIOGEL: Cymunedau sy'n cydweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb

   MWY GWYRDD: Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl

   MWY IACH: Pobl a chymunedau mwy iach; a

   G. chymryd yr egwyddorion a ganlyn i ystyriaeth:

   YMGYSYLLTU – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ac ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector.

   UNDOD A CHYDLYNIANT - sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Yr Alban yn cael cyfle i gyfrannu at genedl sy'n fwy llwyddiannus, cymryd rhan ynddi ac elwa ohoni.

   CYNALADWYEDD – gwella amgylchedd Yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a lleihau effaith Yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

**Cyfarwyddiadau Penodol**

5. Cyn gweithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mewn perthynas â gwariant Yr Alban, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddyd penodol a ganlyn wrth bennu'r unigolion at bwy y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, at ba ddiben y dylai'r Gronfa wneud y dosbarthiadau hynny:

A. Mae'n rhaid i'r Gronfa ddarparu asesiad effaith seiliedig ar dystiolaeth o ddosbarthu'r arian cyfrifon segur yn unol â chyfyngiadau a ragnodwyd a ddisgrifiwyd yng Ngorchymyn Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur (Yr Alban) 2010 ac yn unol ag un o'r opsiynau a ganlyn:

Opsiwn 1: Cefnogi 4 thema bolisi eang: byddai'n rhaid i'r Gronfa gefnogi bod dosbarthiad yr arian yn cael ei ddosrannu'n rhesymol i gefnogi 4 thema bolisi eang:

Cyfleoedd i blant a phobl ifainc;

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy fwy o weithgareddau;

Cryfhau gweithgareddau rhwng y cenedlaethau; a

Chreu cyfleoedd cyflogaeth gymunedol.

Opsiwn 2 Dosrannu 50%, 67% neu 100% o'r arian cychwynnol i'w drosglwyddo gan y Gronfa Loteri Fawr i ymddiriedolaeth waddoledig. Byddai gweddill yr arian yn cael ei ddosbarthu gan y Gronfa i gefnogi'r 4 thema bolisi eang.



**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22 DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 MEWN PERTHYNAS Â GWARIANT YNG NGHYMRU**

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru, wrth weithredu'r pwerau a roddir iddynt gan adran 22 Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**Cyfarwyddiadau Cyffredinol**

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mewn perthynas â gwariant Cymru, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyffredinol a ganlyn wrth bennu'r sawl i bwy y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau, at ba ddibenion y bydd y Gronfa'n gwneud grantiau, y broses a ddefnyddir i benderfynu pa daliadau i'w gwneud ac o dan ba amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau:

A. Mae'n rhaid dosbarthu arian cyfrifon segur i brosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B. Mae'n rhaid dosbarthu arian cyfrifon segur i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Mae'n rhaid dosbarthu arian cyfrifon segur yn bennaf i fudiadau 'trydydd sector', h.y. mudiadau sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion ar gyfer cymdeithas neu'r amgylchedd. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir dosbarthu arian i awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill pan fydd prosiect yn cynnwys partneriaeth neu gonsortiwm, ac mae'r corff statudol yn gweithredu yn rhinwedd cydlynydd.

Ch. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur gydbwyso'r angen am annog arloesedd gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

D. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Dd. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

E. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

F. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr sicrhau'r canlynol:

i). ym mhob achos, i ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

ii). pan geisir grant cyfalaf:

a). bydd ymgeiswyr yn dangos cynllun busnes clir gan gynnwys unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, a rhoi ystyriaeth i faint a natur y prosiect; ac

b). ar gyfer prosiectau mawr, mae ymgeiswyr yn dangos bod prosesau gwerthuso a rheoli prosiectau'n cyfateb i rai Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth.

iii). pan na cheisir grant cyfalaf, mae ymgeiswyr yn dangos argaeledd tebygol unrhyw gyllid arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl i arian cyfrifon segur ddod i ben, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian cyfrifon segur gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

Ff. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa gydweithio â mudiadau eraill pan fydd hwn yn ddull effeithiol o gyflwyno elfennau o'i chynllun strategol (gweler para 4).

G. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth y mae'n ystyried y mae ei hangen i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fydd angen.

Ng. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa gynnwys amod ym mhob dosbarthiad bod derbynyddion yn cydnabod defnyddio arian Cyfrifon Segur gan ddefnyddio brand cytunedig Cynllun Cyfrifon Segur Cymru.

H. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa sicrhau dull seiliedig ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol i gyflawni'r patrwm buddsoddiad gorau er budd cymunedau ledled Cymru.

I. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa ystyried asesu anghenion a blaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei chynllun strategol, a thros amser cyflawni dosbarthiad arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, a mentrau cymdeithasol.

L. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa ystyried buddion Cymru'n gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o Gymru a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Gymru.

**Cyfarwyddiadau Penodol**

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mewn perthynas â gwariant Cymru, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyffredinol a ganlyn wrth bennu'r sawl i bwy y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau ac at ba ddibenion y bydd y Gronfa'n gwneud grantiau

A. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa weithredu'n unol â'r cyfyngiadau a ragnodir sydd wedi'u disgrifio yng Ngorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 (Cyfyngiadau a Ragnodir) (Cymru) 2010 ac yn unol â'r themâu a ganlyn:

"Cefnogi plant a phobl ifainc i gyflawni eu potensial llawn gan weithio trwy'r trydydd sector i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol'; a

'Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach trwy weithgareddau cymunedol â ffocws'.

B. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa weithredu'n unol â'r is-themâu a ganlyn:

Cefnogi plant a phobl ifainc

Cyfarparu pobl ifainc gyda'r sgiliau a chymwyseddau y mae eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial llawn mewn perthynas â chyflogadwyedd a buddion ehangach; yn benodol trwy ddiwallu anghenion pobl ifainc sy'n NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).



Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach

Datblygu dull cynhwysol a arweinir gan gymunedau i ymdrin ag achosion newid yn yr hinsawdd ac/neu adeiladu gwydnwch i'w effeithiau, gyda'r nod o annog newid mewn ymddygiad gyda'r potensial i gael ei gyflwyno mewn rhannau eraill o Gymru.

C. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur, mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr ystyried y buddion ehangach y gallai ceisiadau eu cynnig, o ran:

(i) eu potensial i wneud i'r adnoddau fynd ymhellach, ar ffurf cyfraniadau o ffynonellau eraill, e.e. arian cyfatebol

(ii) eu cyfraniad at bolisïau a strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth; 'Lleihau cyfran y bobl ifainc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru: Cyflwyno Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' (y Cynllun NEETs); 'Dyfodol Teg i'n Plant': y strategaeth tlodi plant; y fframwaith 'Llwybrau Dysgu' 14-19 oed ar gyfer darpariaeth ddysgu pobl ifainc; y polisi 'Estyn Hawl' ar gyfer gwasanaethau cefnogi ieuenctid; Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol; y Strategaeth Troseddu Ieuenctid Cymru Gyfan; y fenter cyfleoedd gyrfaol 'Cyrraedd y Nod' - 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', Cynllun datblygu Cynaliadwy Cymru; Y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd.

**Cynllun Strategol**

3. Fel y darperir ar ei gyfer o dan Ran 1 Atodlen 3 y Ddeddf, bydd y Gronfa'n paratoi ac yn mabwysiadu cynllun strategol ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur er mwyn bodloni gwariant Cymru i egluro polisïau'r Gronfa ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur a blaenoriaethu ceisiadau.


Clanmil Housing Association and National Museums NI

Copïau pellach ar gael gan:

Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Ffôn 0300 123 0735

Cyfnewid Testun 18001 plws 0300 123 0735 (ar gyfer pobl sydd â nam ar y clyw neu'r lleferydd).

**Ffotograffiaeth gan:**

Anna B Photography

Jon Barlow

Phil Blagg

Billie Charity

Rachel Cherry

Richard Crease

Sarah Deane

Johnny Dent

Chris Foster

Clare Homer-Payne

Steve Lawton

Brian Morrison

Panorama

Lucy Pope

Paula Solloway

Lucy Taylor

Nick Treharne

Chris Watt

**Ffotograffiaeth ychwanegol trwy garedigrwydd:**

Battersea Arts Centre

Belfast Hill Partnership

Cowal Elderly Befrienders

Creative Youth Network

Eden Project

Girls' Network

Grŵp Treftadaeth Brymbo

HeadStart

Northern Ireland Youth Forum

Prifysgol Caerdydd

Shettleston Community Growing Project

Talent Match North East

The Soil Association

The Welcoming Association

toogoodtowaste

Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol






CCS0718989808
978-1-5286-0641-7